Rhaglen Gyflawn

# CABINET

# CYNGOR GWYNEDD

| | |
|---|---|
| **DYDDIAD** | Dydd Mawrth, 7fed Mawrth, 2023 |
| **AMSER** | 1.00 y.h. |
| **LLEOLIAD** | Cyfarfod Aml-Leoliad - Siambr Hywel Dda, Swyddfa'r Cyngor, Caernarfon LL55 1SH ac ar Zoom<br>Bydd y cyfarfod yn cael ei we-ddarlledu https://gwynedd.public-i.tv/core/l/cy_GB/portal/home |
| **PWYNT CYSWLLT** | Sioned Mai Jones<br>01286 679665 / cabinet@gwynedd.llyw.cymru |

## AELODAU CABINET CYNGOR GWYNEDD

| **Aelodau** | |
|---|---|
| Dyfrig Siencyn | Arweinydd y Cyngor |
| Nia Wyn Jeffreys | Dirprwy Arweinydd |
| Craig ab Iago | Aelod Cabinet Tai |
| Beca Brown | Aelod Cabinet Addysg |
| Berwyn Parry Jones | Aelod Cabinet Priffyrdd a Bwrdeistrefol a YGC |
| Dafydd Meurig | Aelod Cabinet Amgylchedd |
| Dilwyn Morgan | Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Llesiant |
| Elin Walker Jones | Aelod Cabinet Plant a Phobl Ifanc |
| Ioan Thomas | Aelod Cabinet Cyllid |
| Menna Jones | Aelod Cabinet Cefnogaeth Gorfforaethol |

# RHAGLEN

| | Eitem | Cyflwynir gan | Swyddog | Tud. |
|---|---|---|---|---|
| 1 | YMDDIHEURIADAU | | | |
| 2 | DATGAN BUDDIANT PERSONOL | | | |
| 3 | MATERION BRYS | | | |
| 4 | MATERION YN CODI O DROSOLWG A CHRAFFU | | | |
| 5 | COFNODION CYAFARFOD A GYNHALIWYD AR 14 CHWEFROR | | | 4 - 17 |
| 6 | CYNLLUN FFORDD GWYNEDD 2023-28 | Cyng. Dyfrig Siencyn | Geraint Owen, Cyfarwyddwr Corfforaethol | 18 - 38 |
| 7 | PROSIECT ADDYSG ÔL-16 ARFON | Cyng. Beca Brown | Garem Jackson, Pennaeth Addysg | 39 - 56 |
| 8 | CYNGOR GWYNEDD YN AWDURDOD ARWEINIOL AR GYFER LMS CYMRU (SYSTEM RHEOLI LLYFRGELL) | Cyng. Nia Jeffreys | Sioned E. Williams, Pennaeth Economi a Chymuned a Nia Gruffydd, Rheolwr Gwasanaeth Llyfrgelloedd | 57 - 61 |
| 9 | LLYFRGELLOEDD LLAWN BYWYD - CYNLLUN LLYFRGELLOEDD GWYNEDD 2023-2028 | Cyng. Nia Jeffreys | Sioned E. Williams, Pennaeth Economi a Chymuned a Nia Gruffydd, Rheolwr Gwasanaeth Llyfrgelloedd | 62 - 89 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 10 | RHAGLEN CEFNOGI LLESIANT POBL | Cyng. Nia Jeffreys | Catrin Thomas, Pennaeth Cynorthwyol Cefnogi Teuluoedd | 90 - 93 |

**Y CABINET DYDD MAWRTH, 14 CHWEFROR 2023**

**Yn bresennol-**
Y Cynghorwyr: Dyfrig Siencyn, Nia Jeffreys, Craig ab Iago, Beca Brown, Berwyn Parry Jones, Elin Walker Jones, Menna Jones, Dafydd Meurig, Dilwyn Morgan a Ioan Thomas.

**Hefyd yn bresennol-**
Dafydd Gibbard (Prif Weithredwr), Geraint Owen (Cyfarwyddwr Corfforaethol), Huw Dylan Owen (Cyfarwyddwr Corfforaethol), Iwan Evans (Pennaeth Cyfreithiol), Dewi Morgan (Pennaeth Adran Gyllid) a Sioned Mai Jones (Arweinydd Tîm Democratiaeth).

Eitem 6: Garem Jackson (Pennaeth Addysg) a Debbie Jones (Rheolwr Gwasanaethau Corfforaethol Addysg).
Eitem 8: Ffion Madog Evans (Pennaeth Cyllid Cynorthwyol).
Eitem 9: Dewi Wyn Jones (Rheolwr Gwasanaeth Cefnogi Busnes).
Eitem 10 a 14: Ian Jones (Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol).
Eitem 11: Sioned E. Williams (Pennaeth Economi a Chymuned), Angela Jones (Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri) a Sian Pennant Jones (Rheolwr Twristiaeth, Marchnata a Digwyddiadau).
Eitem 12: Sioned E. Williams (Pennaeth Economi a Chymuned) ac Esyllt Rhys Jones (Rheolwr Rhaglenni Adfywio).
Eitem 15: Carys Fôn Williams (Pennaeth Tai ac Eiddo).

**1. YMDDIHEURIADAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ymddiheuriad.

Croesawyd yr Aelodau Cabinet a Swyddogion i'r cyfarfod.

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Derbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan yr Aelod Cabinet Amgylchedd ar gyfer Eitem 12 am ei fod yn Gadeirydd Partneriaeth Ogwen, un o'r partneriaethau sy'n rhan o'r cais. Gadawodd y cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem.

**3. MATERION BRYS**

Nid oedd unrhyw fater brys.

**4. MATERION YN CODI O DROSOLWG A CHRAFFU**

Nid oedd unrhyw fater yn codi o drosolwg a chraffu.

**5. COFNODION**

Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 24 Ionawr 2023 fel rhai cywir.

## 6. YSGOL HIRAEL

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Beca Brown

**PENDERFYNIAD**

1.1 Caniatawyd neilltuo £3,000,000 o gyfanswm o £18m o gyllideb Gwedd 2 Bangor, Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy (Band B) er mwyn buddsoddi yn Ysgol Hirael. Byddai'r gyllideb yn ddarostyngedig i gyflwyno achos fusnes lwyddiannus i Lywodraeth Cymru.

1.2 Cytunwyd i'r Cabinet ragdybio adolygiad y Cynllun Asedau drwy gadarnhau cyfraniad o £1,050,000 o'r Cynllun Asedau ar gyfer 35% o arian cyfatebol i wireddu prosiect Ysgol Hirael.

1.3 Yn ddarostyngedig i benderfyniad y Cabinet yn 1.1 uchod, ac yn dilyn hynny, gefnogaeth Llywodraeth Cymru i drosglwyddo'r gyllideb ar gyfer Ysgol Hirael, caniatawyd llunio a chyflwyno achos fusnes i Lywodraeth Cymru er mwyn rhyddhau'r arian.

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi mai Ysgol Hirael yw'r unig ysgol gynradd yn nalgylch Bangor sydd heb dderbyn unrhyw fuddsoddiad fel rhan o gyllideb Band A na Band B. Ychwanegwyd bod cyflwr ac addasrwydd yr ysgol angen sylw, gydag elfennau hygyrchedd angen sylw penodol yn Hirael gan ei bod ar hyn o bryd yn disgyn i gategori C.

Nodwyd bod Ysgol Hirael yn adnodd Addysg bwysig a'i bod yn hanfodol dod a'r ysgol i'r un safon a gweddill ysgolion eraill yr ardal. Mynegwyd pwysigrwydd i blant Hirael dderbyn eu haddysg mewn ysgol sydd â'r adnoddau addas a byddai'r buddsoddiad hwn yn caniatáu gwella amgylchedd ddysgu'r ysgol.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Mynegodd y Prif Weithredwr bod sylwadau a chefnogaeth gref gan yr Aelod Lleol sydd i'w gweld yn rhan 6.3 o'r adroddiad. Ychwanegwyd bod yr Aelod Lleol wedi bod yn ymgyrchu'n galed ar gyfer y buddsoddiad hwn i'r ysgol.
- Mynegwyd pob lwc a dymunwyd yn dda i'r Adran wrth gyflwyno achos busnes i Lywodraeth Cymru.

## 7. CYNLLUN ARBEDION 2023/24 – 2024/25

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Dyfrig Siencyn

**PENDERFYNIAD**

- Cymeradwywyd yr arbedion effeithlonrwydd a restrir yn Atodiad A (£6.4M) fel gwedd gyntaf o arbedion y gallwn eu defnyddio fel cyfraniad tuag at ein bwlch cyllidol yn 2023/24 – 2024/25.

- Cytunwyd i gomisiynu gwaith pellach i sefydlu’r wedd nesaf o arbedion a thoriadau (oddeutu £1.6M - £2.2M) cyn gosod cyllideb 2024/25.

- Cytunwyd i wneud darpariaeth o £1.6M i gyfarch y lefel risg sydd yn ynghlwm a gwireddu'r cynllun arbedion effeithlonrwydd.

- Dirprwywyd yr hawl i’r Prif Weithredwr, mewn ymgynghoriad ag Arweinydd y Cyngor a’r Aelod Cabinet Cyllid, i wneud addasiadau i’r Cynllun Arbedion hwn wrth i aeddfedrwydd y cynlluniau a restrir yn Atodiad A ddatblygu, o fewn y cyfansymiau cyllidol a nodir isod.

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan ddiolch i’r Prif Weithredwr a’r swyddogion Cyllid am eu gwaith yn crynhoi’r holl arbedion a dderbyniwyd gan yr Adrannau. Nodwyd bod adroddiad wedi ei gyflwyno i’r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio wythnos diwethaf a derbyniwyd sylwadau’r Pwyllgor. Ychwanegwyd bod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn cytuno â’r swm o 20% i gael ei glustnodi ar gyfer risg. Nodwyd bod un sylw wedi cael ei fynegi am yr asesiad cydraddoldeb gafodd ei gynnal. Roedd y sylw yma yn cwestiynu os oedd yr effaith ddaearyddol ar wahanol ardaloedd wedi cael ei ystyried; roedd y sylw hwn wedi cael ei nodi a bydd yn derbyn ystyriaeth.

Nodwyd bod y broses wedi cael ei dilyn yn broffesiynol a bod pob Adran wedi cyfrannu sydd wedi arwain at broses gadarn a chynlluniau am y ddwy flynedd nesaf.

Tywysodd y Prif Weithredwyr y Cabinet drwy brif faterion yr adroddiad gan fanylu ar y bwlch ariannol o £12 miliwn. Eglurwyd bod cynllun dwy flynedd wedi cael ei roi at ei gilydd er mwyn cau’r bwlch ariannol; heddiw cynllun gwedd un sy’n cael ei gyflwyno sy’n cynnwys gwerth £6.4 miliwn o arbedion. Pwysleisiwyd mai nid toriadau yw’r rhain.

Cydnabuwyd y bydd yr arbedion yn creu pwysau ar Wasanaethau a bydd angen ystyried ffyrdd wahanol o weithio. Ategwyd bod llawer o ymdrech wedi ei roi gan yr Adrannau ac y bydd ail wedd y cynllun yn cael ei gyflwyno yn hwyrach yn y flwyddyn.

Sylwadau’n codi o’r drafodaeth
- Diolchwyd am yr adroddiad a credwyd bod y broses wedi bod yn un drylwyr.
- Mynegwyd balchder am allu gwneud gymaint o arbedion heb gael effaith sylweddol ar wasanaethau.
- Er hyn, cydnabuwyd y bydd rywfaint o effaith ar ddarpariaeth gwasanaethau ond bod y rhestr arbedion yn cynnwys llawer o gyllidebau nad oes eu hangen bellach a bod amryw o’r rhesymau am hyn o ganlyniad i effeithiau cofid.

## 8. CYLLIDEB 2023-24

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Ioan Thomas

**PENDERFYNIAD**

Argymhellwyd i’r Cyngor (yn ei gyfarfod ar 2 Mawrth 2023) y dylid:

1. Sefydlu cyllideb o £317,880,310 ar gyfer 2023/24 i'w ariannu drwy Grant Llywodraeth o £227,842,930 a £90,037,380 o incwm o'r Dreth Cyngor (sy'n gynnydd o 4.95% ar dreth anheddau unigol).

2. Sefydlu rhaglen gyfalaf o £67,780,150 yn 2023/24 i'w ariannu o'r ffynonellau a nodir yn Atodiad 4 i'r adroddiad.

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad a nodwyd y penderfyniad a geisir. Nodwyd nad yw'r argymhelliad i godi treth cyngor mewn cyfnod o gostau byw cynyddol yn argymhelliad hawdd i'w wneud wrth ystyried yr effaith ar drigolion Gwynedd. Cyfeiriwyd ar yr heriau ariannol sydd yn wynebu Awdurdodau Lleol ar draws Gymru yn enwedig wrth ystyried y lefelau chwyddiant diweddar sydd yn bresennol dros 10%.

Mynegwyd bod Cyngor Gwynedd wedi derbyn cynnydd grant o 7% ar gyfer 2023/24 sy'n welliant sylweddol ar y setliad dangosol ac yn cyfateb i gynnydd gwerth £14.6 miliwn mewn ariannu allanol. Er hyn pwysleisiwyd nad yw'r swm yma yn ddigonol i gwrdd â chwyddiant a'r pwysau ychwanegol ar wasanaethau.

Cyfeiriwyd at y ddarpariaeth am chwyddiant cyflogau sy'n £14.2 miliwn. Eglurwyd bod chwyddiant cyflogau yng nghyllideb 2023/24 yn cynnwys elfen i gywiro'r bwlch 2022/23 gan bod y cytundeb terfynol yn uwch na'r hyn oedd wedi ei gyllidebu amdano, yn ogystal ag ystyried chwyddiant tybiannol ar gyfer 2023/24. Soniwyd hefyd bod darpariaeth ar gyfer chwyddiant arall o £11.1 miliwn sy'n cynnwys £3.3 miliwn o chwyddiant ar brisiau trydan a £3 miliwn yn y maes gofal.

Argymhellwyd i gymeradwyo bidiau gwerth £2.75 miliwn am adnoddau parhaol ychwanegol a gyflwynwyd gan Adrannau'r Cyngor i gwrdd â phwysau anorfod ar wasanaethau. Credwyd bod y bidiau yma yn angenrheidiol ac yn ychwanegol i'r £3 miliwn o ychwanegiad i gyllideb Digartrefedd sy'n cael ei ariannu o'r Premiwm Treth Cyngor.

Eglurwyd bod yr holl fidiau a gyflwynwyd wedi cael eu herio yn drylwyr gan y Tîm Arweinyddiaeth yn ogystal â'u hystyried yn y Seminar Cyllideb efo'r holl aelodau a gynhaliwyd ar 26 Ionawr 2023.

I grynhoi, nodwyd bod anghenion gwario'r Cyngor (cyn tynnu arbedion) ar gyfer 2023/24 yn £323.1 miliwn fel sydd wedi ei nodi yn rhan 3 o'r adroddiad. Nodwyd yn rhan 2 fod y grant oddi wrth Lywodraeth Cymru am fod yn £227.8 miliwn. Golyga hyn bod bwlch gweddilliol o £95.2 miliwn angen ei lenwi. Argymhellir cyfarch y bwlch drwy gynyddu'r Dreth Cyngor yn ogystal â defnyddio'r arbedion; byddai defnyddio'r arbedion sydd eisoes wedi eu cymeradwyo ar gyfer 2023/24 a'r rhai newydd yn creu cyfanswm o £5.2 miliwn fyddai'n cael ei ddefnyddio i leihau'r bwlch ariannol. Byddai cynyddu'r Dreth Cyngor o 4.95% yn cynhyrchu ychydig dros £90 miliwn o incwm, byddai hyn yn ddigonol i lenwi'r bwlch ariannol.

Tynnwyd sylw at Atodiad 4 sydd yn adlewyrchu'r gofynion cyfalaf, ynghyd â'r ariannu, er mwyn sefydlu rhaglen gyfan gwerth £67 miliwn yn 2023/24. Nodwyd y bydd y

Pennaeth Cyllid yn nodi'r sylwadau gafodd eu derbyn gan aelodau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a gynhaliwyd ar 9 Chwefror 2023.

Ychwanegodd y Pennaeth Cyllid nad oedd pwyntiau penodol gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i'r Cabinet ystyried ond y byddai yn cyfeirio at y sylwadau a dderbyniwyd. Derbyniwyd cwestiwn am y defnydd o falensau gyda'r Pennaeth Cyllid yn egluro pam ei fod ddim yn ddefnydd sy'n cael ei wneud gan y Cyngor; cafodd yr ymateb hwn ei dderbyn gan y Pwyllgor. Derbyniwyd sylw ar gostau chwyddiant ar gyflogau athrawon gan y bod sôn gan Lywodraeth Cymru am gynnydd pellach ar gyflogau athrawon. Cwestiynwyd os byddai'n rhaid addasu'r gyllideb i gwrdd â hyn. Mynegodd y Pennaeth Cyllid nad oes digon o fanylion wedi eu derbyn hyd yma am y cynnig hwn ond byddem yn disgwyl i Lywodraeth Cymru yn ariannu'r cynnydd drwy grant ychwanegol. Ategodd nad oes digon o wybodaeth wedi ei dderbyn i addasu'r gyllideb.

Derbyniwyd cwestiwn pellach ar y Cyd-bwyllgor Corfforedig a'i ardoll yn cynyddu. Soniwyd bod cyfrifoldebau'r Cyd-bwyllgor Corfforedig yn parhau i dyfu drwy'r Is-bwyllgorau rhanbarthol Cynllunio a Thrafnidiaeth sydd yn y broses o gael eu sefydlu. Nodwyd bod penderfyniadau angen eu gwneud a cyfeiriwyd at y trafodaethau am y bwriad o uno cyfrifoldebau llywodraethu'r CBC efo'r Bwrdd Uchelgais Economaidd. Sicrhawyd bod y Swyddogion Cyllid yn gwneud eu gorau i gadw costau lawr mewn perthynas â'r gwaith rhanbarthol.

Yn ogystal â'r uchod, holodd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio os fydd y flwyddyn ariannol 2024/25 yn anoddach eto. Eglurwyd bod cynlluniau wedi eu gwneud i lenwi'r bwlch ariannol am y ddwy flynedd nesaf ond ei bod yn anodd rhagdybio beth fydd y lefelau chwyddiant erbyn hynny a beth fydd y setliad. Ategwyd bod Aelodau'r Pwyllgor yn fach i gefnogi'r bidiau.

Yn olaf holwyd am ddefnydd y Premiwm at bwrpasau Digartrefedd i ymdrin â gorwariant pellach ond cyfeiriwyd at y swm benodol o £3 miliwn sydd eisoes wedi ei glustnodi ar gyfer 2023/24 at y pwrpas hwn.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Gofynnwyd pe bai'r Cyngor heb gytuno i gynyddu'r Premiwm o 100% i 150% yn ôl ym mis Rhagfyr 2022 faint yn fwy byddai'n rhaid ei neilltuo i leddfu'r bwlch i ddelio â Digartrefedd.
- Mewn ymateb nododd y Pennaeth Cyllid y byddai'r bwlch yn gyfatebol â chynyddu'r Dreth Cyngor 3% - 4%.
- Holwyd am effaith cynyddu'r Dreth Cyngor. Cymerwyd y cyfle i sôn am waith y tîm budd-daliadau a'r cymorth sy'n cael ei gynnig gan y Cyngor. Soniwyd am y Cynllun Gostyngiad Treth Cyngor ac anogwyd trigolion Gwynedd i ymgeisio amdano, nodwyd bod gwybodaeth bellach i'w gael ar wefan y Cyngor. Ychwanegwyd bydd rhai yn anghymwys am y Cynllun oherwydd bod rheolau caeth yn bodoli gan y Llywodraeth ond bod cymorth pellach ar gael gan y Cyngor o wahanol Adrannau megis y tîm taclo tlodi i geisio llenwi'r bwlch. Cydnabuwyd bod swyddogion yn arfer annog ceisiadau am fudd-daliadau ac efallai bod y bwlch yma yn un sydd angen ei gyfarch yn y dyfodol.
- Argymhellwyd bod unrhyw un sy'n cael trafferthion talu'r Dreth Cyngor yn cysylltu â´r Adran ac nid yn unig y rhai sy'n derbyn budd-daliadau, bydd cymorth ar gael i bawb.

- Mynegwyd bod yr adroddiad yn cyfeirio at rai elfennau cadarnhaol iawn a'n dangos gallu'r Cyngor i ddelio â risgiau. Ychwanegwyd mai un o brif risgiau'r Cyngor dros y flwyddyn ddiwethaf oedd ei anallu i ddarparu digon o ofal oherwydd diffyg gofalwyr. Nodwyd bellach bod y Cyngor wrth osod y gyllideb wedi gallu cwrdd â'r pwysau hwn drwy gynyddu cyflogau gofalwyr i lefel gystadleuol sy'n adlewyrchu eu dyletswyddau. Gobeithiwyd y bydd hyn yn galluogi'r Cyngor i allu denu mwy o ofalwyr i wneud y gwaith angenrheidiol yma sydd yn gam positif.

## 9. CYNLLUN CYNGOR GWYNEDD 2023-28

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Dyfrig Siencyn

**PENDERFYNIAD**

Cymeradwywyd Cynllun Cyngor Gwynedd 2023-28 (y Cynllun) i'w gyflwyno i'r Cyngor ar y 2il o Fawrth 2023.

Cymeradwywyd y gwelliant a gynigiwyd i ychwanegu'r frawddeg ganlynol i Faes Blaenoriaeth 5 yn y Cynllun: "*Sicrhau mynediad i wybodaeth a chyfleusterau hamdden, diwylliannol a chelfyddydol o safon"* er mwyn adlewyrchu gweledigaeth y Cabinet.

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan gyfeirio at yr ymgynghoriad a'r ymatebion a dderbyniwyd. Soniwyd ei bod yn ddyletswydd ar y Cyngor i baratoi Cynllun am y tymor presennol a bod gwaith wedi ei gynnal ers yr Haf ar y blaenoriaethau. Nodwyd bod ymgynghoriad wedi digwydd efo'r Aelodau yn ystod yr Hydref a cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus ar ddrafft y Cynllun yn dilyn hynny.

Mynegwyd bod 643 o ymatebion wedi eu derbyn yn ystod yr ymgynghoriad cyhoeddus gyda'r adborth yn bositif iawn ar y cyfan gydag ambell i awgrym. Gellir gweld crynodeb o'r atebion yn atodiad 5 o'r adroddiad. Cyfeiriwyd at y prosiectau yn y maes gofal sydd wedi eu hail becynnu fel 3 prosiect newydd sef Cefnogaeth Ataliol yn lleol, Byw yn annibynnol a Gofal arbenigol o ansawdd.

Ategwyd bod y ffurf yn haws i'w ddarllen eleni ac yn fwy cryno, gobeithiwyd y bydd hyn yn annog mwy i ddarllen y Cynllun. Mynegwyd ei fod yn ddogfen bwysig sydd yn dangos uchelgais a dyhead y Cyngor ar gyfer pobl Gwynedd dros y blynyddoedd nesaf a gellir mesur perfformiad y Cyngor yn erbyn ei allu i gyflawni'r materion sydd yn y cynllun.

Mynegodd y Rheolwr Gwasanaeth Cefnogi Busnes y byddai yn gwerthfawrogi unrhyw argymhellion neu sylwadau gan y Cabinet. Ychwanegwyd y bydd y Cynllun yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor Llawn ar yr 2il o Fawrth.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Anogwyd unrhyw un sy'n gwrando i ddarllen y Cynllun.
- Ategwyd y sylw bod y Cynllun yn haws i'w ddarllen a credwyd ei fod yn Gynllun arloesol ac uchelgeisiol.

- Credwyd bod rhywbeth ar goll o ran gweledigaeth y Cabinet am bwysigrwydd amser hamdden a bod yn actif yn ogystal â phwysigrwydd diwylliant a'r celfyddydau a'r gwahaniaeth positif sy'n cael ei wneud gan y gweithgareddau hyn i lesiant trigolion. Cynigiwyd yn ffurfiol i ychwanegu brawddeg i Faes Blaenoriaeth 5 yn nodi "*Sicrhau mynediad i wybodaeth a chyfleusterau hamdden, diwylliannol a chelfyddydol o safon"* er mwyn adlewyrchu'r weledigaeth hon.
- Mynegwyd cefnogaeth i'r gwelliant a credwyd ei fod yn ychwanegiad gwerthfawr. Credwyd ei bod yn hawdd anghofio pa mor bwysig yw'r maes celfyddydol a'r pleser sydd i'w gael o weld a gwrando ar waith celfyddydau. Cynigiwyd a derbyniwyd ei gynnwys fel gwelliant i'r Penderfyniad.
- Cymerwyd y cyfle i fynegi cydymdeimlad y Cabinet at y Prif Weinidog Mark Drakeford ar ei golled diweddar. Danfonwyd ddymuniadau gorau at y Prif Weinidog.

## 10. STRATEGAETH CYFRANOGIAD – DEDDF LLYWODRAETH LEOL AC ETHOLIADAU (CYMRU) 2021

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Menna Jones

**PENDERFYNIAD**

Argymhellwyd y Strategaeth Cyfranogiad ddrafft i gyfarfod y Cyngor llawn ar 02/03/2023 er mwyn ei fabwysiadu.

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi bod dyletswydd ar y Cyngor i fod yn annog cyfranogiad gan y cyhoedd wrth iddo wneud penderfyniadau. Nodwyd bod hyn yn ofyn dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Eglurwyd ymhellach i'r gofyn hwn, mae gofyn hefyd i greu a chyhoeddi Strategaeth Cyfranogiad; pwrpas y Strategaeth fydd nodi'r ffordd y caiff pobl leol eu hannog i gymryd rhan ym mhrosesau'r Cyngor o wneud penderfyniadau.

Mynegwyd bod gofynion penodol ynghylch yr hyn sy'n rhaid ei gynnwys yn y Strategaeth, gellir gweld y rhain dan yr ail baragraff yn rhif 4 o'r adroddiad.

Nodwyd er mwyn ateb gofynion y ddeddf, crëwyd Strategaeth Cyfranogiad cyntaf Cyngor Gwynedd. Eglurwyd bod ymgynghoriad cyhoeddus wedi ei gynnal yn ystod mis Ionawr ar gynnwys y Strategaeth ddrafft, a oedd yn rhoi'r cyfle i'r cyhoedd leisio eu barn ar y cynnwys. Cafwyd 89 o ymatebion i'r ymgynghoriad.

Ategwyd bod ymatebion ar y cyfan yn gadarnhaol. Derbyniwyd rhai sylwadau ac awgrymiadau; nodwyd bod yr adroddiad yn esbonio sut mae'r Strategaeth ddrafft wedi cael ei haddasu yn dilyn derbyn sylwadau perthnasol o'r ymgynghoriad.

Gofynnwyd a yw'r Cabinet yn credu bod ymateb digonol wedi bod i'r sylwadau sydd wedi codi o'r ymgynghoriad cyhoeddus ac os yw'r Cabinet yn fodlon gyda cynnwys y Strategaeth ddrafft. Nodwyd y bydd y strategaeth yn datblygu dros y blynyddoedd i ddod ond bod man cychwyn cadarn yma

Nodwyd y bydd y Strategaeth Cyfranogiad ddrafft yn cael ei hargymell i gyfarfod y Cyngor Llawn ar yr 2il o Fawrth ar gyfer cael ei mabwysiadu. Ychwanegwyd y bydd y dyluniad terfynol yn barod erbyn cyflwyno'r Strategaeth i'r Cyngor llawn.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Mynegwyd pwysigrwydd cynnwys trigolion Gwynedd ym mhrosesau Democrataidd y Cyngor gan nodi nad yw hyn wastad yn hawdd ond bod y Strategaeth yma yn gam ymlaen i geisio gwella hyn.
- Credwyd bod angen amlygu gwaith y Cyngor i drigolion y Sir.

## 11. CYNLLUN ECONOMI YMWELD CYNALIADWY GWYNEDD AC ERYRI

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Dyfrig Siencyn

**PENDERFYNIAD**

- Cymeradwywyd Cynllun Strategol Gwynedd ac Eryri 2035 fel Cynllun Strategol ar gyfer yr Economi Ymweld yn yr ardal.
- Cymeradwywyd sefydlu Partneriaeth Gwynedd ac Eryri 2035 yn ogystal â'r gweithdrefnau a'r strwythurau priodol fydd eu hangen er mwyn datblygu, gweithredu a monitro'r Cynllun Strategol, Cynllun Gweithredu Gwynedd ac Eryri 2035 a'i fesuryddion perthnasol.
- Cytunwyd i ychwanegu bod angen dirprwyo'r hawl i'r Arweinydd, mewn ymgynghoriad â'r Prif Weithredwr, i gadarnhau cylch gorchwyl y ddau gorff.

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi bod y gwaith wedi cychwyn ers cyn y cyfnod Cofid a bod trafodaethau efo partneriaid wedi bod yn digwydd yn gyson ers hynny. Mynegwyd gwerthfawrogiad am y cydweithio agos sydd wedi bod yn digwydd rhwng y Cyngor a Pharc Cenedlaethol Eryri a bod yr un weledigaeth ac egwyddorion sylfaenol yn cael eu rhannu. Credwyd bod yr adroddiad yn gam pwysig i geisio llywio'r diwydiant ymwelwyr i fod yn fwy cynaliadwy ac yn fwy atebol i'r cymunedau.

Darparwyd cefndir yr adroddiad gan y Pennaeth Economi a Chymuned a nododd bod y cynllun yn ei le â'r weledigaeth ar gyfer y dyfodol wedi ei gosod a'r prif amcanion ar gyfer y dyfodol wedi eu hadnabod. Nodwyd bod y newid arwyddocaol i'w weld yn y gwaith hwn drwy roi'r gymuned yn ganolog fydd yn sicrhau budd i Wynedd o ganlyniad i'r datblygiadau yn y maes hwn i'r dyfodol.

Cyfeiriwyd at egwyddorion Economi Ymweld Gwynedd a Pharc Cenedlaethol Eryri a'r amcanion sydd wedi eu cynnwys yn rhan 3 o'r adroddiad. Bydd angen sicrhau y bydd cynllun gweithredu clir yn ei le er mwyn gwireddu'r weledigaeth. Cynhigir strwythur newydd ar gyfer gweithredu sy'n cynnwys Partneriaeth Economi Ymweld Cynaliadwy Gwynedd ac Eryri, Bwrdd Llywio Economi Ymweld Cynaliadwy Gwynedd ac Eryri yn ogystal â Grŵp Gweithredol Economi Ymweld Cynaliadwy Gwyned ac Eryri. Ceir manylion ar y trefniadau gweithredu yn rhan 4 o'r adroddiad.

Rhedwyd drwy'r camau nesaf a'r amserlen ar gyfer eu cwblhau. Cydnabuwyd y pwysigrwydd o gydweithio ar draws sectorau er mwyn cyflawni'r weledigaeth. Nodwyd bod ymgynghoriadau wedi eu cynnal ond bod mwy i'w gwneud a'i bod yn gychwyn cyfnod newydd o weithredu'r Cynllun a chydweithio efo'r sector Economi Ymweld.

Ychwanegodd y Swyddog Parc Cenedlaethol Eryri ei bod yn falch o gyhoeddi bod yr awdurdod wedi mabwysiadu'r Cynllun Strategol hwn wythnos diwethaf ac yn falch iawn o'r trefniadau a'r cydweithio. Diolchwyd i Swyddogion y Cyngor am eu gwaith.

Derbyniwyd sylwadau o'r Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi gan y Dirprwy Arweinydd ble roedd trafodaeth ddefnyddiol ac awgrymiadau adeiladol er enghraifft ehangu aelodaeth y bartneriaeth i gynnwys y gwasanaethau brys, yr undebau amaeth a chynrychiolwyr eraill o ran tirfeddianwyr. Nodwyd y bydd y Cyrff hyn yn cael eu gwahodd i ymuno â'r bartneriaeth maes o law.

Eglurwyd bod trafodaeth wedi bod ar effaith twristiaeth ar yr iaith Gymraeg a'r Heddlu, sylwadau ynglŷn â pharcio a rhai cwestiynau i'r Parc; bydd y Swyddog Parc Cenedlaethol yn ymateb yn uniongyrchol i'r Pwyllgor Craffu am faterion Parc Cenedlaethol Eryri. Nododd y Dirprwy Arweinydd ei bod eisoes wedi trafod â Swyddogion a bydd yn sicrhau fod y materion a godwyd yn cael blaenoriaeth.

Cyfeiriwyd at y pwysigrwydd o fesur cynnydd a gosod mesuryddion i'r Cynllun Economi Ymweld a bod hyn wedi ei grybwyll gan y Pwyllgor Craffu. Eglurwyd bod awgrym gan y Pwyllgor Craffu i ddiwygio'r weledigaeth rhywfaint; nodwyd bod yr awgrym hwn wedi derbyn ystyriaeth lawn ond bod teimlad bod y weledigaeth bresennol yn un syml a chlir. Mynegwyd diolch i'r Pwyllgor Craffu am eu sylwadau.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Cydnabuwyd buddion yr Economi Ymweld ond hefyd ymwybyddiaeth o'r problemau sy'n gallu deillio ohono a mynegwyd balchder bod y Strategaeth yma yn ceisio cyfarch y balans.
- Canmolwyd meddylfryd y Cynllun Economi Ymweld a bod gweledigaeth glir yn bodoli am bwysigrwydd Economi Ymweld sy'n deg i bawb.
- Diolchwyd i Swyddogion y Cyngor a Swyddogion Parc Cenedlaethol Eryri am eu gwaith a mynegwyd balchder am y cydweithio rhwng y Cyngor a'r Parc.
- Croesawyd y Cynllun; gwnaethpwyd sylw ei fod yn ymgais i droi'r diwydiant twristiaeth ar ei ben.
- Mynegwyd balchder am yr enw sy'n cael ei ddefnyddio yn y Gymraeg a'r Saesneg a credwyd bod hyn yn gam pwysig gan y Parc.
- Cytunwyd i ychwanegu bod angen dirprwyo'r hawl i'r Arweinydd, mewn ymgynghoriad â'r Prif Weithredwr, i gadarnhau cylch gorchwyl y ddau gorff i'r Penderfyniad. Derbyniwyd yr ychwanegiad.

## 12. CRONFA FFYNIANT BRO – CYNLLUN LLEWYRCH O'R LLECHI

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Nia Jeffreys

**PENDERFYNIAD**

- Derbyniwyd llythyr cynnig, am arian Cronfa Ffyniant Bro Llywodraeth Prydain, i weithredu cynllun Llewyrch o'r Llechi ar y cyd a phartneriaid o fewn y Dyffrynnoedd Llechi.

- Awdurdodwyd y Pennaeth Economi a Chymuned mewn ymgynghoriad â'r Pennaeth Cyllid a Phennaeth Cyfreithiol i gytuno ar y trefniadau cytundebol a gweithredu a'r pecyn ariannol cyflawn gyda phartneriaid.

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi bod tri cais gan yr Adran Economi a Chymuned ac Adran Amgylchedd wedi eu cyflwyno i Gronfa Ffyniant Bro, Llywodraeth Prydain. Ni fu cais Bywiogi Bangor na chais Coridor Gwyrdd Ardudwy yn llwyddiannus, ond bu cais Llewyrch o'r Llechi yn llwyddiannus. Eglurwyd bod cadarnhad o fuddsoddiad o £18.8 miliwn wedi ei dderbyn, bydd angen gwario'r arian hwn cyn diwedd Mawrth 2025.

Nodwyd bod y Cynllun Llewyrch o'r Llechi yn becyn gwerth o gwmpas £27 miliwn o gynlluniau ar draws dyffrynnoedd llechi Gwynedd sy'n ymateb i'r thema 'buddsoddi mewn diwylliant'. Adroddwyd bod y Cynllun yn cynnig cyfleoedd a datblygiadau sydd yn cyfrannu tuag at adfywio'r cymunedau yma. Nodwyd bod manylion ar beth mae'r pecyn yn ei gynnwys wedi ei nodi yn rhan 2.2 o'r adroddiad.

Ychwanegodd y Pennaeth Economi a Chymuned bod trafodaethau wedi digwydd efo'r cymunedau a bod rhaid canolbwyntio ar y prosiectau fwyaf aeddfed er mwyn gallu cwblhau'r gwaith o fewn yr amserlen. Ategwyd bod hyn yn ffactor wrth adnabod prosiectau. Nodwyd bod angen comisiynu gwaith dehongli fel rhan o'r Cynllun.

Mynegwyd bod y pecyn hwn yn cyfrannu at y weledigaeth ehangach sydd wedi ei nodi yn rhan 2.3 o'r adroddiad sef i 'Amddiffyn, cadw, gwella a chyfleu priodweddau pwysig yr ardal er mwyn atgyfnerthu hynodrwydd diwylliannol a chryfhau'r iaith Gymraeg, a dod yn sbardun pwysig i adfywio economaidd a chynhwysiad cymdeithasol.' Credwyd bod y Cynllun yn uchelgeisiol iawn ac yn raglen tymor hir a'r gobaith yw y bydd yn arwain at gyfleoedd pellach yn y cymunedau hyn.

I gloi nodwyd mai Cyngor Gwynedd fydd yn arwain ar y cais ond bydd gweithio mewn partneriaeth efo'r tair ardal sy'n rhan o'r cais yn hanfodol er mwyn gwireddu'r gwahanol brosiectau. Nodwyd y bydd angen cytuno ar gytundeb cyfreithiol rhwng Cyngor Gwynedd a'r partneriaid yn y gymuned er mwyn gwireddu'r prosiectau a chyflawni. Ychwanegwyd bod gwaith wedi cychwyn o ran trafodaethau efo'r Pennaeth Cyllid a'r Pennaeth Gwasanaeth Cyfreithiol, felly gobeithir gallu symud ymlaen a chadarnhau'r trefniadau efo'r partneriaid.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Croesawyd y buddsoddiad a'r cyfleoedd fydd yn deillio o'r Cynllun.
- Holiwyd am y ffynonellau cydariannu sydd wedi eu nodi yn yr adroddiad ar dudalennau 264 a 265 a'u bod yn cael eu nodi fel 'posib'. Gofynnwyd pa mor sicr yw'r Adran Economi a Chymuned bod y symiau a nodwyd yn mynd i'n cyrraedd.
- Mewn ymateb, nododd y Rheolwr Rhaglenni Adfywio ei bod yn sicr o hyn gan fod cyfarfodydd cychwynnol wedi eu cynnal er enghraifft efo Amgueddfa Cymru a'u bod yn rhan o gynlluniau ehangach ganddynt. Ychwanegwyd bod risg isel i'r

cynlluniau beidio mynd yn eu blaenau, adroddwyd bellach bod Cyngor Gwynedd wedi derbyn sicrwydd o'r wedd ddatblygol gan Gronfa Treftadaeth y Loteri.

## 13. ADRODDIAD PERFFORMIAD YR AELOD CABINET DROS ECONOMI A CHYMUNED

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Dyfrig Siencyn a Cyng. Nia Jeffreys

**PENDERFYNIAD**

Derbyniwyd a nodwyd y wybodaeth yn yr adroddiad.

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan yr Arweinydd oedd yn cyfeirio at y materion rhanbarthol sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad. Soniwyd am Gynllun Twf Gogledd Cymru gan nodi bod prosiectau wedi dod i ben am amryw o resymau sydd wedi gadael swm o £30 miliwn yn weddill. Adroddwyd bod ceisiadau am brosiectau wedi cael eu gwahodd am y swm yma. Nodwyd y bydd y prosiectau am gyfnod o 15 mlynedd ac yn cael eu hariannu gan y ddwy Lywodraeth.

Ychwanegwyd bod costau prosiectau wedi cynyddu sydd wedi cael effaith ar brosiectau eraill yn ogystal â rhoi pwysau ar adnoddau staffio. Nodwyd mai hyn yw un o'r prif risgiau sydd wedi ei adnabod a bod gwaith yn parhau wrth ymateb i'r risgiau.

Cyfeiriwyd at berfformiad gwasanaethau'r Adran gan y Dirprwy Arweinydd oedd yn cynnwys Byw'n Iach a lefel defnyddwyr y Canolfannau sydd yn parhau i fod yn is na'r cyfnod cyn cofid. Soniwyd am faterion penodol oedd wedi cael effaith ar y ffigyrau megis cau pwll nofio Arfon am 3 mis ar gyfer adnewyddu a chyfyngu oriau agor pwll nofio Bangor oherwydd diffyg staff. Adroddwyd bod trafodaethau cyson rhwng Cwmni Byw'n Iach a'r Cyngor er mwyn goresgyn rhai o'r rhwystrau hyn sy'n effeithio ar incwm y cwmni.

Adroddwyd bod y nifer sy'n ymgysylltu gyda'r Amgueddfeydd a'r Oriel wedi gostwng dros y cyfnod diwethaf yn sgil y ffaith bod arddangosfa Storiel ac Amgueddfa Lloyd George wedi gorfod cau yn ddirybudd yn dilyn damweiniau yn yr adeiladau a gwaith atgyweirio sydd angen eu cwblhau cyn gallu ail agor. Cymerwyd y cyfle i ddiolch i'r Cydlynydd Amgueddfa a Gwirfoddoli am ei gwaith yn ystod yr achosion hyn.

I gloi tynnwyd sylw ar y gwaith cefnogi cymunedau gan nodi bod 121 o grwpiau a mentrau wedi eu cefnogi rhwng Hydref a Rhagfyr 2022 gan nodi bod y rhain yn brosiectau llawr gwlad sy'n agos i galonnau trigolion Gwynedd, mynegwyd balchder am hyn.

Ychwanegodd y Pennaeth Economi a Chymuned bod yr Adran heb gael llawer o gyfle i wneud cynnydd ar y prosiectau sydd wedi eu cynnwys yng Nghynllun y Cyngor oherwydd yr angen i gyfeirio staff o fod yn gweithio ar brosiectau strategol i fod yn helpu efo'r cynlluniau rhanbarthol mae'r Cyngor yn eu harwain.

I gloi soniwyd am y gronfa ffyniant gyffredinol gan nodi mai'r dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ceisiadau am brosiectau yw 24 Chwefror. Nodwyd bod swydd wedi cael ei hysbysebu i reoli'r gronfa yng Ngwynedd ond ni dderbyniwyd unrhyw geisiadau.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Diolchwyd am yr adroddiad.
- Mynegwyd pryder am y sefyllfa o swyddi gweigion a'r trafferth i'w llenwi yn gyffredinol ar draws y Cyngor. Credwyd bod lle i geisio denu ymgeiswyr gan hyrwyddo bod swyddi gwag a chyfleoedd ar gael yn y Cyngor.

**14. ADRODDIAD PERFFORMIAD YR AELOD CABINET DROS GEFNOGAETH CORFFORAETHOL A CHYFREITHIOL**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Menna Jones

**PENDERFYNIAD**

Derbyniwyd a nodwyd y wybodaeth yn yr adroddiad.

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi bodlonrwydd bod y prosiectau sy'n cael eu harwain gan yr Adran ynghyd a'r perfformiad dydd i ddydd yn cael eu cynnal o fewn y gyllideb. Mynegwyd gwerthfawrogiad i holl swyddogion yr Adran gan gydnabod y cyfraniad allweddol sy'n cael ei wneud gan y staff i gefnogi gwaith y Cyngor.

Tynnwyd sylw at y prosiect Merched mewn Arweinyddiaeth sydd wedi derbyn adborth arbennig o dda yn ogystal â'r Gynhadledd Llesiant Meddylion llwyddiannus gafodd ei gynnal yn ddiweddar. Cyfeiriwyd at y gwelliannau yn y gwasanaeth Cyswllt Cwsmer ble gwelwyd gostyngiad yn yr amser o ymateb i alwadau yn ogystal â'r canran o alwadau a gollwyd.

Soniwyd am yr heriau staffio a recriwtio yn y gwasanaeth Cyfreithiol a'r camau sy'n cael eu cymryd i gyfarch y risgiau yma. Cyfeiriwyd hefyd at berfformiad a'r cynnydd yng ngwaith y gwasanaeth Etholiadau a'r gwasanaeth Crwner.

Ategwyd gwerthfawrogiad i staff yr Adran am eu cydweithrediad a'u gwaith gan y Pennaeth Adran Cefnogaeth Gorfforaethol. Nododd bod gwaith da iawn yn cael ei wneud mewn cyfnod heriol a bod cynnydd da yn cael ei wneud ar brosiectau.

Ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau pellach.

**15. ADRODDIAD PERFFORMIAD YR AELOD CABINET DROS DAI AC EIDDO**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Craig ab Iago

**PENDERFYNIAD**

Derbyniwyd a nodwyd y wybodaeth yn yr adroddiad.

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan gyfeirio at y niferoedd sy'n ddigartref yn y Sir a'r cynnydd yn y niferoedd sy'n cyflwyno yn ddigartref o ganlyniad i dderbyn 'rhybudd adran 21' gan landlordiaid (rhybudd y bydd eu tenantiaeth yn dod i ben). Nodwyd yn ystod y flwyddyn 2022 rhoddwyd 169 rhybudd ac roedd 78% o'r rhesymau a roddwyd gan landlordiaid dros gyflwyno'r rhybudd oherwydd eu bod yn gwerthu'r eiddo. Soniwyd am yr hyn mae'r Adran yn ceisio ei wneud i geisio cynnig datrysiad i'r sefyllfa er enghraifft cynnig pecynnau cefnogaeth i landlordiaid preifat.

Cyfeiriwyd at y cynlluniau prynu Tai a phrynu Tir gan nodi bod 8 tŷ wedi ei brynu gyda 5 arall naill ai yn agos i gwblhau neu â chytundeb i brynu yn nwylo'r cyfreithwyr. Soniwyd hefyd am y Cynllun Cymorth Prynu Gwynedd gan nodi bod gwerth £13 miliwn o fenthyciadau ecwiti ar gael er mwyn rhoi cyfle i fwy o bobl brynu cartref oddi ar y farchnad agored yn eu cymuned leol.

Adroddwyd ar y gwasanaeth Ynni newydd sydd wedi cael ei sefydlu gan nodi bod dros 570 o bobl wedi derbyn cymorth hyd yma gyda'u biliau ynni trwy dderbyn talebau ynni. Mynegwyd bod hyn yn lwyddiant ond bod y broblem wreiddiol yn cael ei greu gan y Llywodraeth gyda'r Cyngor yn ceisio ei ddatrys. Cyfeiriwyd at ddatblygiadau'r Siop un Stop gan nodi bod staff eisoes wedi eu penodi a bod yr Adran ar hyn o bryd y chwilio am enw newydd i'r 'Siop un Stop'.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Tynnwyd sylw at y nifer o dai cymdeithasol sydd wedi eu datblygu er mwyn ceisio cyrraedd yr uchelgais o 500 erbyn 2026 gan nodi bod 160 wedi eu datblygu hyd yn hyn. Gofynnwyd pa mor hawdd fydd cyrraedd yr uchelgais.
- Mewn ymateb nodwyd bod y targed ddim yn hawdd ond bod arian wedi ei ymrwymo ar gyfer y ddwy flynedd nesaf a bydd yr Adran yn edrych ar yr anghenion ar draws y Sir. Nodwyd bod cynllun mewn lle dros y dair mlynedd nesaf.
- Canmolwyd y Cynllun Cymorth Prynu gan nodi mai'r brif her oedd darganfod am fodolaeth y Cynllun yn y lle cyntaf. Mewn ymateb nodwyd bod fideo wedi ei greu a bod yr Adran wedi ymweld â chynghorau cymuned Dwyfor. Ategwyd y byddai'r Adran yn gwerthfawrogi unrhyw awgrymiadau pellach o ran ymgysylltu.
- Cwestiynwyd os yw'r ffigwr o brynu 8 o dai yn isel a gofynnwyd os gall y Cyngor wneud unrhyw beth i helpu neu i gyflymu'r broses.
- Mewn ymateb nodwyd ei bod yn anodd iawn dod o hyd i dai addas gan na all yr Adran gystadlu yn erbyn pobl leol sydd eisiau prynu, heriau staff a'r angen i wneud y gorau o'r arian sydd yn bodoli. Ychwanegwyd bod llawer o rwystrau o ran safonau tai a gofynion megis gofynion tân a maint ystafelloedd oedd yn golygu bod llawer yn anaddas. Nodwyd bod yr Adran wedi ymweld â dros 100 o dai ond oherwydd y rhesymau uchod dim ond 8 oedd yn bosib ei brynu hyd yma.
- Pryderwyd am y sefyllfa yn y sector dai preifat gyda llai o landlordiaid preifat yn gosod eiddo yn y dyfodol. Cydnabuwyd bod hyn yn risg.
- Cyfeiriwyd ar y sefyllfa Wcráin a'r ffoaduriaid a'r risg sylweddol sydd angen ei amlygu a'r pryderon y bydd nifer yn cyflwyno'n ddigartref. Nodwyd bod y Cyngor yn ceisio cael gwybodaeth gan y Llywodraeth ac ar hyn o bryd yn y niwl ynglŷn â dyletswyddau'r Cyngor. Ategwyd bod angen system i gefnogi'r ffoaduriaid. Mynegwyd bod trafodaethau cyfredol yn digwydd efo'r Llywodraeth.

Ychwanegodd y Prif Weithredwr bod datganiad yn cael ei wneud yn y Senedd heddiw a gobeithir derbyn diweddariad yn dilyn hyn; gobeithir y bydd gwell cefnogaeth i'r ffoaduriaid.

Dechreuodd y cyfarfod am 1:00pm a daeth i ben am 3:15pm

**CADEIRYDD**

# CABINET CYNGOR GWYNEDD

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y cyfarfod:** | **7 Mawrth, 2023** |
| **Aelod Cabinet:** | **Y Cynghorydd Dyfrig Siencyn,** |
| **Swyddog Cyswllt:** | **Geraint Owen, Cyfarwyddwr Corfforaethol** |
| **Manylion Cyswllt:** | **01286 679923** |
| **Teitl yr Eitem:** | **CYNLLUN FFORDD GWYNEDD 2023-28** |

## Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd

### 1. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

1.1 Cymeradwyaeth y Cabinet i fabwysiadu Cynllun am y pum mlynedd nesaf (Atodiad 1) sydd yn adeiladu ar ddatblygiad y diwylliant gwaith o fewn y Cyngor .

### 2. Y RHESWM DROS YR ANGEN AM BENDERFYNIAD

2.1 "Ffordd Gwynedd" yw'r enw a roddir ar y "ffordd o weithio" y mae Cyngor Gwynedd wedi'i fabwysiadu er mwyn rhoi pobl Gwynedd yn ganolog i bopeth yr ydym yn ei wneud. Newid diwylliant, ymddygiadau a meddylfryd sydd wrth wraidd hyn oll ac mae'r nôd o wireddu'r uchelgais ar draws pob rhan o weithgaredd y Cyngor yn her sylweddol ac yn un sydd angen rhaglen gynhwysfawr o gefnogaeth.

2.2 Mabwysiadwyd y "Cynllun Ffordd Gwynedd" gwreiddiol yn Hydref 2015 ac fe adolygwyd ymhellach ym mis Gorffennaf, 2019, pryd y bu i'r Cabinet gymeradwyo y Cynllun presennol. Mae llawer o'r hyn gafodd ei adnabod fel amcanion yn y Cynllun hwnnw wedi'i gyflawni a'i roi ar waith ond bu i'r cyfnodau clo yn ystod cyfnod y Cynllun arafu'r cynnydd a wnaed.

2.3 Mae'n amserol i adolygu a diweddaru'r Cynllun unwaith yn rhagor ac i edrych tuag at y camau nesaf sydd eu hangen er mwyn llawn wreiddio'r diwylliant, a'r "ffordd o weithio", ym mhopeth yr ydym yn ei wneud.

2.4 Fel sail i'r adolygiad diweddaraf hwn, bu i bob Adran gynnal hunan-asesiad o'r cynnydd a wnaed ac adnabod y rhwystrau sy'n llyffetheirio eu gallu i wireddu'r "ffordd o weithio" o fewn eu gwasanaethau. Heriwyd yr hunan-asesiadau hynny gan weithgor o aelodau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ac fe gyflwynwyd y casgliadau i gyfarfod o'r Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi ar yr 20 o Hydref, 2022 (Atodiad 2).

2.5 Cyflwynir y Cynllun arfaethedig ar gyfer y pum mlynedd nesaf ar sail yr ymgynghoriadau hynny. Mae'r Cynllun yn crynhoi yr hyn sydd wedi'i gyflawni hyd yma ond yn canolbwyntio ar y rhaglen waith y byddwn am ei gweithredu er mwyn symud ymlaen i gefnogi holl staff a gwasanaethau'r Cyngor i gyrraedd y nôd.

## 3. BARN Y SWYDDOGION STATUDOL

**i) Swyddog Monitro:**

Rwy'n nodi fod y Cynllun drafft yn ganlyniad proses adolygu a chraffu manwl mewn cyfnod o newid sylweddol yn y Cyngor. Rwy'n fodlon gyda priodoldeb yr adroddiad a'r argymhelliad.

**ii) Y Pennaeth Cyllid:**

Dim i'w ychwanegu o safbwynt priodoldeb ariannol

## ATODIAD 1
**FFORDD GWYNEDD (2023-2028)**

**Y WELEDIGAETH**

Ffordd Gwynedd yw'r enw a roddir ar y "ffordd o weithio" yr ydym ni yng Cyngor Gwynedd wedi'i fabwysiadu er mwyn rhoi pobl y Sir yn ganolog i bopeth yr ydym yn ei wneud.


Nid proses na syniad damcaniaethol mohono ond yn hytrach casgliad o drefniadau gwaith, ymddygiadau a diwylliant sydd, gyda'i gilydd, yn caniatáu i ni fod yn hyderus ein bod yn edrych ar y gwasanaeth trwy lygaid y defnyddiwr.

Mae datblygu'r diwylliant yma yn golygu bod angen cael gwared a'r rhwystrau sy'n atal ein gweithwyr rhag gwireddu a bod hynny'n arwain at her barhaus i'r ffordd y byddwn yn gweithio. Mae'r penderfyniadau sy'n dilyn yn seiliedig ar dystiolaeth yn hytrach na thybiaethau.


Mae'n golygu gweithio ar draws ffiniau strwythurol mewnol y Cyngor er mwyn cyflawni'r hyn sydd ei angen, gan greu a chynnal amgylchedd gwaith sy'n cynnwys pawb. Mae o hefyd yn hyrwyddo a chefnogi llesiant meddyliol a chorfforol ein gweithwyr yn ogystal â pharchu egwyddorion gweithredu allweddol yng nghyd-destun cydraddoldeb ac iaith.

***"Mae adeiladu ar y diwylliant a ffordd o weithio, sy'n seiliedig ar yr egwyddor o ddarparu'r gwasanaethau gorau posib i drigolion ein sir, gyda phob un ohonom yn cefnogi'n gilydd i gyflawni hynny, yn ganolog i weledigaeth y Cyngor. Mae'r dyhead i sicrhau gwelliant parhaus eisoes i'w weld yn eang ar draws y Cyngor a'r cam nesaf yw sicrhau nad oes dim yn ein rhwystro rhag gwreiddio'r meddylfryd hwnnw ymhellach ac anelu i wella fwy byth ar yr hyn sydd yn cael ei gyflawni yn bresennol" (Prif Weithredwr)***

Yn niwylliant Ffordd Gwynedd mae timau yn cwestiynu a herio trefniadau a phrosesau hanesyddol sy'n cael eu cymryd yn ganiataol. Buddsoddir amser yn cofnodi llif gwaith a'r hyn sy'n digwydd go iawn. Maent yn adnabod camau gwag nad ydynt bellach yn ychwanegu gwerth tra'n nodi rhwystrau rhag gweithredu'n effeithiol. Mae'n annog arloesi a chreadigrwydd gyda'r pwyslais ar arbrofi ac yna gweithredu'r newidiadau angenrheidiol. Mae hyn oll yn ein cynorthwyo i wella gwasanaeth ond, er mwyn cynnal y "ffordd o weithio", mae'n rhaid newid meddylfryd uwchben popeth arall.



“Gwneud y pethau iawn cyn gwneud y pethau’n well” yw’r mantra.  Os nad ydym yn newid meddylfryd cyn, neu yn ystod, newid proses, byddwn yn sicr o fethu ac ni fydd y newidiadau yn cael eu cynnal yn y tymor hir.




Mae newid diwylliant yn broses graddol ond mae angen gwneud popeth posib i hwyluso’r datblygiad sydd ei angen fel ein bod yn manteisio ar yr hyn y gellir ei wireddu.

Dyma’r trydydd adolygiad o’r Cynllun a gyflwynwyd er mwyn sefydlu’r diwylliant hwnnw ac mae  tystiolaeth gref ac enghreifftiau lu lle bo’r Cyngor wedi datblygu ac elwa’n sylweddol o weithredu’r rhaglenni gwaith blaenorol, gan wreiddio’r ymddygiadau disgwyliedig ymysg y gweithlu, adolygu systemau gwaith ac o ganlyniad gwella gwasanaethau.

Mae’r Cynllun diwygiedig ar gyfer y cyfnod 2023-28 yn ymgais i adeiladu ar y llwyddiannau hyd yma gyda’r rhaglen waith yn canolbwyntio ar y datblygiad pellach cynaliadwy sydd ei angen er mwyn gwireddu'r budd hirdymor sy’n deillio o wreiddio’r arferion da a’r meddylfryd ar draws y Cyngor.

Mae’r prif amcanion ar gyfer cyfnod y Cynllun wedi’u hadnabod o ganlyniad i ymgynghori cynhwysfawr. Bydd ymarferiad blynyddol i adrodd ar gynnydd yr amcanion unigol ac i adolygu’r hyn adnabyddir fel blaenoriaethau.

Dyma fanylion y blaenoriaethau hynny fydd yn gyrru’r rhaglen waith am y cyfnod nesaf er mwyn gwreiddio Ffordd Gwynedd ymhellach;

## 1. Dysgu, Arbrofi a Gweithredu i Wella

Er mwyn newid diwylliant a meddylfryd, mae'n hanfodol bod y rheolwyr a'r staff yn cael profiad o fod yn ei weithredu yn y gwaith a gweld dros eu hunain bod yr egwyddorion newydd yn gweithio.

Mae'r mwyafrif o reolwyr y Cyngor bellach wedi eu trwytho yn yr egwyddorion sylfaenol a sut i'w defnyddio i ddysgu a deall am brofiad y cwsmer wrth gynnal adolygiadau o drefniadau gwaith. Mae nifer o enghreifftiau da o ble mae hyn eisoes wedi cael ei roi ar waith, ond mae nifer o reolwyr yn adrodd bod pethau wedi arafu/dod i stop yn sgil yr argyfwng Covid a bod y broses hefyd yn cael ei gweld fel un llafurus sydd yn drwm ar adnodd ac o ganlyniad yn anodd rhyddhau capasiti rheolwyr a staff i fod yn ei gynnal.

Mewn sefyllfa fel hyn, mae cael enghreifftiau byw o lwyddiannau / methiannau yn amhrisiadwy er mwyn sbarduno eraill i fod yn barod i newid, arbrofi a mentro, i fod yn greadigol , a gweithredu i wella'r gwasanaeth i'r cwsmer.

Byddwn yn:

- Cyflymu'r rhaglen o gynnal adolygiadau gwasanaeth ar draws y Cyngor gan gynnig cefnogaeth fydd yn cynnwys :
    - Gweithdai byr i dimau penodol ar elfennau o gynnal adolygiadau gwasanaeth.
    - Hyfforddiant ar gynnal adolygiadau
    - Cefnogaeth ymarferol i gynnal adolygiadau
    - Hwyluso gweithdai un diwrnod ar gyfer cynorthwyo rheolwyr i'w gyflwyno i'w timau
- Addasu ein hyfforddiant i ymgorffori dulliau gweithio aml-leoliad, ac i ddefnyddio enghreifftiau o fod yn gweithredu adolygiadau ar ddarnau llai o'r system gan ddangos sut y gellir ei ymgorffori yn y gwaith dydd i ddydd yn hytrach na gorfod cynnal adolygiadau mawr.
- Datblygu e-fodiwlau y gall y rheolwyr eu defnyddio gyda'u timau.
- Defnyddio'r rhwydwaith rheolwyr i rannu profiadau a datblygu syniadau
- Datblygu'r safle presennol ar y fewnrwyd i hwyluso rhannu enghreifftiau o arfer da a dysgu.
- Ystyried blaenoriaethu cefnogaeth i adolygiadau trawsadrannol.
- Ail edrych ar wobrau Gwynedd i adlewyrchu'r diwylliant gwaith.

## 2. Arweinyddiaeth

Mae arweinyddiaeth effeithiol yn allweddol ar gyfer gyrru a gwreiddio diwylliant ac egwyddorion Ffordd Gwynedd. Mae'n gosod cyfeiriad clir, ysgogi eraill a chreu amgylchedd priodol er mwyn cael y gorau o staff.

Mae arweinyddion gwleidyddol a gweithredol y Cyngor yn unfrydol fod angen sefydlu a meithrin diwylliant o arwain pobl yn hytrach na rheoli pobl yn unig. I'r perwyl yma mae datblygiad parhaus ar gyfer arweinyddiaeth y Cyngor yn un o'n blaenoriaethau pennaf, gan gynnwys sesiynau cymell unigol i bwrpas datblygiad personol.

Byddwn yn:

- Ail-sefydlu'r Rhwydwaith Rheolwyr i gynnwys arweinwyr tîm
- Canolbwyntio ar gydweithio a datblygu ymddygiadau arwain priodol
- Parhau i gynnal sesiynau datblygol ar gyfer Aelodau Etholedig a'r tîm Rheoli Corfforaethol

## 3. Deall a Gwella Perfformiad

Er mwyn sicrhau bod y Cyngor yn cyflawni'r hyn mae trigolion Gwynedd ei angen mae'n hanfodol mesur perfformiad, sef mesur pa mor dda mae gwasanaethau yn cyflawni eu pwrpas a'r effaith mae'r gwasanaethau hynny yn cael ar drigolion. Mae trefn perfformiad yn y Cyngor lle mae pob uned yn mesur ac adrodd i ba raddau maent yn cyflawni'r hyn sy'n bwysig i drigolion Gwynedd.

Byddwn yn:

- Parhau â'r drefn gan sicrhau diwylliant gwaith lle bo'r holl staff yn perchnogi a deall beth yw'r perfformiad, yn gallu adnabod y rhesymau tu cefn i'r perfformiad yn ogystal â'r hyn sy'n eu rhwystro i wella.
- Amlygu'r gwahaniaeth rhwng rheoli ac adrodd ar berfformiad.
- Ymateb i'r newid yng ngwasanaethau'r Cyngor yn ogystal â sicrhau canolbwyntio ar fesurau effeithiolrwydd ynghyd ag effeithlonrwydd drwy sicrhau bod gwasanaethau yn adolygu eu pwrpasau a mesurau yn rheolaidd.
- Ystyried llacio'r gofynion adrodd ar berfformiad, ar adegau lle mae cyfiawnhad i wneud hynny, er mwyn sicrhau bod modd tynnu staff oddi ar waith dydd i ddydd i gynnal adolygiadau neu i gefnogi ar waith trawsadrannol, heb achosi pryder gormodol yn sgil gostyngiad mewn perfformiad tymor byr.
- Datblygu dulliau i feithrin amgylchedd lle mae rheolwyr yn teimlo'n ddiogel i ddatgan nad yw'r perfformiad yn cyrraedd y nod.

**4. Cefnogi a Datblygu**

Gall 'newid' fod yn anodd iawn i nifer o unigolion, yn arbennig os yw'r 'ffordd o weithio' newydd yn wahanol i'r hyn y maent wedi ei arfer. Mae'n bwysig ein bod fel Cyngor yn cefnogi a datblygu ein staff i fedru:

- Deall yr angen am newid
- Ymdopi gyda'r newid
- Addasu er mwyn cynnal gwasanaethau
- Cynnal eu lles eu hunain a'u cydweithwyr.

Byddwn yn:

- Creu adnoddau aml-gyfrwng i wella dealltwriaeth 'Ffordd Gwynedd'
- Creu a chyflwyno fframwaith o deitlau dysgu sy'n cynnwys:
  - Modiwl e-ddysgu byr ar gyfer holl staff y Cyngor er mwyn
    - Rhannu'r weledigaeth
    - Egluro prif egwyddorion
  - Rhaglenni dwys ar gyfer cynnal adolygiadau gwasanaeth
    - Modiwlau e-ddysgu ar elfennau penodol e.e. *Astudio Galw*
  - Sesiynau atgoffa i swyddogion
- Darparu amrediad o sesiynau dysgu pellach i gefnogi rheolwyr, timau a staff unigol, yn cynnwys elfennau megis:
  - Gweithdai wedi eu teilwrio i ganolbwyntio ar anghenion penodol (i reolwyr/timau/staff)
  - Gweithdai Rheoli Newid/Ymdopi â Newid
  - Gweithdai i gefnogi 'Gweithio Hyblyg' ac 'Arwain o Bell'
  - Sesiynau ar 'Ddeallusrwydd Emosiynol'
  - Gweithdai Sefydlu ac Adeiladu Tîm
  - Canolfannau Datblygu
  - Cynhaliaeth Llesiant Meddyliol

**5. Trawsnewid Digidol**

Mae adolygu ein systemau a'r modd yr ydym yn darparu gwasanaethau yn mynd i arwain at ddulliau amgen o weithredu a bydd ein gallu i gyflwyno a gweithredu'r newidiadau angenrheidiol yn ddibynnol ar ddatblygu'r defnydd presennol o dechnoleg. Mae disgwyliadau a thueddiadau pobl wedi newid yn sylweddol dros y blynyddoedd diweddar ac mae cyfle i weld os oes modd i ni wella profiad trigolion Gwynedd o wasanaethau rheng flaen a swyddfa gefn trwy ddefnyddio mwy fyth ar y dechnoleg ddigidol.

Byddwn yn:

- Mabwysiadu Strategaeth Ddigidol dros gyfnod 2023-28 fydd yn cael ei hadolygu'n flynyddol
- Adolygu a rhesymoli systemau gan arloesi â thechnoleg i leihau ein hymdrech gweinyddol
- Cynyddu cyfleoedd ac ymestyn ein darpariaeth hunanwasanaeth ar-lein
- Adolygu rôl Galw Gwynedd a Siop Gwynedd o fewn y gorchwyl digidol
- Sicrhau ein bod yn glir ynglŷn â'n hanghenion gwybodaeth fel bod y data a gesglir yn ein cynorthwyo i adnabod gwelliannau yn ogystal â mesur os yw newidiadau a gyflwynir yn llwyddo ai peidio.

**6. Cynllunio'r Gweithlu a Datblygu Talent**

Mae cynllunio i sicrhau bod gweithlu yn ei le gyda'r gallu, agwedd a sgiliau priodol yn hanfodol, ar gyfer y presennol a'r dyfodol. Rhaid ystyried yr hyn fyddwn ei angen er mwyn ymateb i anghenion cynyddol am wasanaethau, yn ogystal â disgwyliadau pobl Gwynedd.

Byddwn yn canolbwyntio ein hymdrechion ar:

- Y galw ar ein gwasanaethau i'r dyfodol
- Adnabod meysydd a swyddi allweddol yn nhermau'r risg i barhad gwasanaeth
- Natur ein gweithlu presennol o ran trosiant, oed, sgiliau a phrofiadau
- Adnabod bylchau a chynllunio drwy
    - Sefydlu cynlluniau 'Datblygu Talent' ar gyfer staff o fewn y Sefydliad
    - Ymestyn cynlluniau Prentisiaethau a Hyfforddeion
    - Datblygu cyfleoedd profiad gwaith o'r ansawdd uchaf yn y meysydd allweddol i'r dyfodol

**7. Gwerthuso Parhaus**

Dylai bod gan bob unigolyn sy'n gweithio i'r Cyngor swydd-ddisgrifiad yn nodi disgwyliadau creiddiol o ran eu rôl, dyletswyddau a ffordd o weithio.
Mae disgwyl i bob rheolwr gynnal sgyrsiau rheolaidd (*Gwerthuso Parhaus)* gyda'u staff, a dylai'r ymddygiadau disgwyliedig fod yn ganolog i'r drafodaeth.

Byddwn yn creu a datblygu adnoddau sy'n:

- Amlygu'r '*Ymddygiadau'* a ddisgwylir gan holl staff y Cyngor
- Cefnogi rheolwyr i fedru cynnal trafodaeth werthuso ystyrlon gydag unigolion:
    - Cynllunio a gweithredu yn briodol
    - Cynnal trafodaeth werthuso ystyrlon gyda bob unigolyn
    - Ystyried Iechyd a Lles
    - Canolbwyntio ar '*Ymddygiadau'* priodol
    - Trafod disgwyliadau a pherfformiad
    - Darparu adborth rheolaidd
    - Annog Datblygiad personol
    - Cefnogi unigolion i berfformio'r gorau y gallent
- Sicrhau bod gwerthuso yn amserol ac yn effeithiol ym mhob gwasanaeth ar draws y Cyngor

## 8. Gweithlu Bodlon ac Iach

Rhan hanfodol o wreiddio ein diwylliant yw sicrhau ein bod yn gofalu am iechyd a llesiant ein gweithlu. Mae gan y Cyngor Strategaeth Llesiant, yn seiliedig ar ddata a gwybodaeth gyfredol sy'n cael ei ddiweddaru yn flynyddol.

Byddwn yn:

- Parhau i weithredu a datblygu Rhaglen Llesiant ar draws y Cyngor gan sicrhau bod y cynllun yn cael ei gyplysu â'n trefniadau gwaith a rhaglenni hyfforddiant.
- Sicrhau bod rhaglen i gasglu data a chynnal holiaduron llesiant yn cael ei datblygu a'i gweithredu yn flynyddol er mwyn adnabod y gefnogaeth hynny sydd angen ei blaenoriaethu.
- Rhoi'r ffocws presennol, yn unol â'r hyn a gasglwyd yn y data diweddaraf, ar faterion straen ynghyd a materion cyhyrysgerbydol.
- Sicrhau bod pob rheolwr yn derbyn hyfforddiant I-ACT, datblygu pecynnau e-ddysgu ar faterion cyhyrysgerbydol a threfnu cynigion ffisiotherapi.
- Rhoi sylw penodol i wasanaethau lle mae'r angen mwyaf i hyrwyddo iechyd a llesiant yn amlygu'i hun.
- Rhoi sylw i faterion amgen sy'n cael effaith ar iechyd a llesiant, er enghraifft yr hinsawdd ariannol bresennol, lle bydd rhaglen lles ariannol yn cael ei datblygu a'i gweithredu.

## 9. Cyswllt a'r Cwsmer

Mae adnabod anghenion pobl Gwynedd a'r hyn sy'n bwysig iddynt yn hollol greiddiol i'n ffordd o weithio.

Byddwn yn :

- Ymgysylltu a phobl Gwynedd i geisio eu barn ar ein perfformiad yn ystod y flwyddyn fel rhan o hunan asesiad blynyddol y Cyngor.
- Yn unol â'r strategaeth cyfranogiad , yn gweithio i godi ymwybyddiaeth o swyddogaethau'r Cyngor ymysg pobl y Sir; yn ymgeisio i symleiddio dogfennau a rennir a hwy, a'u hannog / galluogi i roi sylwadau ar benderfyniadau cyn, ac wedi, iddynt gael eu gwneud.
- Sefydlu grŵp traws adrannol i ddatblygu a gweithredu fframwaith gofal cwsmer fydd yn cynnwys ein trefniadau ar gyfer ymdrin â chwynion / ymholiadau gan Aelodau Etholedig a'r cyhoedd gan weithio tuag at wella ein gallu i ymateb yn amserol.
- Parhau i weithio i sicrhau bod ein trefniadau ymgynghori/ ymgysylltu yn cyrraedd y grwpiau anodd eu cyrraedd.
- Cyflwyno rhaglen newydd o hyfforddiant gofal cwsmer, sydd gyda ffocws arbennig ar lesiant staff sydd yn gorfod ymdrin gyda sefyllfaoedd anodd.
- Cyflwyno rhaglen newydd o hyfforddiant ar ymateb i ymholiadau gan Aelodau Etholedig, y cyhoedd a chyd ddarparwyr gwasanaeth.

**MESUR O LWYDDIANT**

Y nod yw cael pob Gwasanaeth o fewn y Cyngor i ddiffinio'n glir pa anghenion y maent yn eu cyfarch ac i sefydlu ac adolygu'r mesurau sy'n arddangos pa mor dda y mae'r pwrpas yn cael ei gyflawni. Gwir lwyddiant y Cynllun hwn mewn gwirionedd yw cael sicrwydd, trwy'r mesurau a'r adborth a dderbynnir, bod y gwaith hwn oll yn arwain at wella gwasanaethau.

Byddwn yn cyflwyno adroddiad blynyddol i'r Cabinet ar gynnydd y "ffordd o weithio" gan nodi canlyniadau a wireddwyd i'r gwasanaethau a gynigir i bobl Gwynedd fel rhan o'r hyn adroddir.

Ymhellach, ac yn allweddol, byddwn hefyd yn mesur y newid yn nhermau ymddygiadau staff a'r diwylliant gwaith sydd ei angen er mwyn i'r "ffordd o weithio" wreiddio yn holl weithgaredd y Cyngor. Seilir cynnwys yr adroddiad ar ymarferiad hunanasesu blynyddol, y gofynnir i arweinwyr a gweithwyr gyfrannu tuag ato, yn ogystal ag arolygon staff chwe misol fydd yn gofyn am adborth yng nghyswllt datblygiad y diwylliant, amgylchedd gwaith ac ymddygiadau o fewn y Cyngor.

Yn ogystal, byddwn yn sefydlu Grŵp trawsadrannol, dan arweiniad y Cyfarwyddwr Corfforaethol, fydd yn adolygu'r cynnydd ac yn blaenoriaethu'r gefnogaeth sydd ei angen ar gyfer gwreiddio'r diwylliant a'r ymarferion cysylltiedig ym mhob un o'n hadrannau a'n gwasanaethau.

Bydd y rhaglen waith hon, yn ei chyfanrwydd, yn cynorthwyo'r Cyngor i gyrraedd y nôd o roi pobl Gwynedd yn ganolog i bopeth yr ydym yn ei wneud.

**ADNODDAU**

Darperir yr adnoddau a ganlyn i gefnogi'r newid diwylliant sydd ar droed.

i) Mae Uwch Ymgynghorydd ac Ymgynghorydd o fewn Gwasanaeth Cefnogi Busnes y Cyngor, yn cael eu cyflogi'n benodol i gefnogi rheolwyr a staff i fabwysiadu a gweithredu egwyddorion Ffordd Gwynedd. Maent yn gallu cynghori ar gynnal adolygiadau dwys gyda gwasanaethau unigol yn ogystal â chynnal sesiynau datblygol hefo rheolwyr a staff gyda'r pwyslais fwyfwy ar gynorthwyo yn hytrach nac arwain adolygiadau ar ran gwasanaethau.

ii) Mae'r Gwasanaeth Dysgu a Datblygu'r Sefydliad yn parhau i ddarparu hyfforddiant ar gyfer rheolwyr newydd a darpar-reolwyr yn ogystal â chynllunio (a hwyluso ar adegau) gweithdai gyda thimau unigol er mwyn cryfhau'r ymwybyddiaeth o'r hyn a olygir yn ymarferol gan Ffordd Gwynedd. Mae'r rhaglen hyfforddi ehangach yn cael ei harwain gan yr anghenion gaiff eu hadnabod ar gyfer gyrru a gwreiddio'r "ffordd o weithio" a'r diwylliant sy'n cael ei arddel.

iii) Mae'r Gwasanaeth Ymchwil a Gwybodaeth yn darparu arweiniad a chyngor ar gasglu tystiolaeth a dadansoddi gwybodaeth. Mae gweithredu ar sail tystiolaeth, yn hytrach nag ar sail yr hyn sy'n ymddangos yn rhesymegol, yn un o gongl feini'r "ffordd o weithio" ac mae yma swyddogaeth bwysig i sicrhau bod rheolwyr a'u timau yn defnyddio'r wybodaeth a'r data sydd ar gael i'w lawn botensial.

iv) Bydd y Tîm Datblygu a'r Tîm Isadeiledd o fewn y Gwasanaeth Technoleg Gwybodaeth, yn allweddol er mwyn gwireddu nifer fawr o'r gwelliannau adnabyddir gan wasanaethau unigol, hynny o ganlyniad i gynnal adolygiadau o'u systemau gwaith. Bydd y Strategaeth Ddigidol, fydd yn cyd-redeg ag oes y Cynllun hwn, yn atgyfnerthu'r gefnogaeth a ragwelir bydd ei hangen.

v) Bydd y Gwasanaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu yn cynghori ac yn darparu arweiniad ar ddulliau ymgysylltu gan gefnogi'r ymdrechion i holi, arsylwi ac asesu os yw'r diwylliant yn gwreiddio o fewn y Cyngor.

**ATODIAD 2**

| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR** | Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi |
| **TEITL** | Adroddiad Gweithgor Adolygu Ffordd Gwynedd |
| **DYDDIAD** | 20 Hydref 2022 |
| **AWDUR** | Geraint Owen, Cyfarwyddwr Corfforaethol |
| **AELOD CABINET** | Cynghorydd Menna Jones |

## 1. CEFNDIR

Yn gynharach yn y flwyddyn gwahoddwyd pob Pennaeth Adran i gynnal hunan asesiad Ffordd Gwynedd ar gyfer eu hadran. Gwnaed hyn er mwyn cael trosolwg o sut mae egwyddorion Ffordd Gwynedd yn gwreiddio ac i'n galluogi i ddatblygu cynllun Ffordd Gwynedd fydd yn sicrhau'r gefnogaeth briodol ar gyfer y tair blynedd i ddod.

Sefydlwyd gweithgor oedd yn cynnwys pedwar Aelod Etholedig, y Prif Weithredwr, Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol ac Ymgynghorwyr Ffordd Gwynedd,  i gytuno ar ffurf yr holiadur yn y lle cyntaf ac yna i ddadansoddi'r canlyniadau a chytuno ar y ffordd ymlaen.

Cwblhawyd yr holiaduron gan y penaethiaid ym mis Chwefror / Mawrth gyda'r mwyafrif  yn adrodd eu bod yn gwneud hyn drwy ymgynghori gyda'u staff a'u rheolwyr cyn cyflwyno yr ymatebion yn ôl i'r Gweithgor.

Bydd yr adroddiad hon yn cyflwyno casgliadau'r Gweithgor ar sail yr ymatebion a dderbyniwyd.

## 2. PRIF NEGESEUON O'R HUNAN-ASESIADAU

I gychwyn, mae aelodau'r Gweithgor yn barod iawn i ganmol yr ymatebion gonest a thrylwyr a dderbyniwyd.

Er bod ymdeimlad i rai Adrannau dan-amcanu eu cynnydd ac i eraill efallai or-amcanu; yn gyffredinol, roedd cred bod yr ymatebion yn rhoi darlun teg o ddatblygiad y Ffordd Gwynedd o weithio yn y Cyngor hyd yma. Roedd yn galonogol nodi bod pob Pennaeth yn gallu adrodd bod gwaith wedi cychwyn a/neu bod cryn gynnydd i'w weld o fewn rhai gwasanaethau tra bo cryn waith pellach i'w gyflawni mewn mannau eraill.

Gwelwyd o'r ymatebion  bod cryn cynnydd wedi ei wneud i newid diwylliant ond bod y  broses o newid diwylliant a newid y meddylfryd ymysg swyddogion yn anos i'w wireddu mewn rhai gwasanaethau ple bo'r datblygiad yn un araf ac

anodd gyda'r angen am waith pellach wedi'i adnabod er mwyn gwreiddio'r newid.

Fe nodwyd bod y dull presennol o gynnal adolygiadau gwasanaeth yn gallu bod yn feichus a'i bod yn anodd rhyddhau capasiti rheolwyr a staff i'w cyflawni ar ben y gwaith dydd i ddydd .

Amlygwyd nifer o themâu cyffredin o'r prif negeseuon hyn ac mae rhain, ynghyd ag argymhellion gweithredu ar gyfer y dyfodol, wedi eu crynhoi isod:

### 2.1 Newid diwylliant

Mae'n amlwg bod cryn gynnydd wedi'i wneud o ran newid y diwylliant ond bod gwaith pellach angen ei gyflawni mewn amryw dimau ar draws y Cyngor. Cydnabyddir bod y broses o newid diwylliant a newid y meddylfryd yn gallu bod yn arafach ac anoddach mewn rhai amgylchiadau a bydd angen cymryd hynny i ystyriaeth wrth ymgymryd a'r gwaith pellach angenrheidiol gyda'r timau hynny.

e.e. yr Adran Oedolion yn adrodd bod y newid hwn yn cael ei ystyried gan rai fel rhywbeth sy'n cael ei wneud "i" staff, gan fod llawer o'r gwaith yn cael ei gyflawni gan y Tîm trawsnewid.

**Argymhellion**

i) Cyflwyno 'Ymddygiadau Ffordd Gwynedd' syml ac chlir sy'n
- Gosod disgwyliadau yn y 'croeso' (anwytho) ar gychwyn gyrfa/swydd newydd
- Sail trafodaethau yn y sesiynau Gwerthuso Parhaus

ii) Cefnogi arweinwyr / rheolwyr i addasu a chymhwyso trefniadau gweithio 'hyblyg' i gadarnhau a chryfhau egwyddorion Ffordd Gwynedd.

iii) Parhau i sicrhau , wrth gynnal adolygiadau gwasanaeth, bod y staff sydd yn gwneud y gwaith yn rhan o adnabod yr hyn sydd angen ei newid a'r broses o'i newid.

### 2.2 Hyfforddiant / Gweithdai / Datblygu sgiliau

Nodwyd canmoliaeth i'r hyfforddiant a ddarparwyd ar gyfer rheolwyr ond gan ychwanegu y byddai gweithdai / sesiynau atgoffa byr ychwanegol yn ddefnyddiol er mwyn sbarduno unigolion i ailgydio yn y gwaith, yn arbennig ar ôl bwlch y cyfnod COVID.

Ymhellach, tynnwyd sylw at yr angen i sicrhau bod unrhyw sesiynau/gweithdai yn cymryd i ystyriaeth y newid i fod yn gweithio yn rhithiol a'r angen i ddatblygu sgiliau i gynnal adolygiadau yn y modd hwnnw ac hefyd i amlygu sut y gellir gweithredu heb fod yn cynnal adolygiadau dwys pob tro.

Awgrymwyd y byddai darparu sesiynau codi ymwybyddiaeth byrrach ar gyfer staff yn fuddiol gyda'r sesiynau hynny yn cael eu cynnig ar ffurf pecynnau e-ddysgu, fideos byr a.y.b.

Roedd nifer o'r adrannau yn awyddus i'r hyfforddiant sgiliau meddal a ddarperir yn bresennol barhau a'i fod yn cael ei ddarparu ar gyfer mwy o reolwyr a staff i'r dyfodol e.e. Cyfathrebu / Gweithdai DiSC, Hyfforddiant Arwain a Rheoli, Deallusrwydd Emosiynol a.y.b.

**Argymhellion**

i) Datblygu sesiwn dilyniant mandadol ar gyfer pob rheolwr ac arweinydd tîm.

ii) Hysbysebu a datblygu'r cyrsiau sgiliau meddal er mwyn i fwy o swyddogion y Cyngor fanteisio ar y ddarpariaeth.

iii) Datblygu sesiwn trosolwg byr ar gyfer holl staff y Cyngor gan dargedu rhai timau fel blaenoriaeth ar sail y dystiolaeth a gyflwynwyd yn yr hunan-asesiad.

iv) Cynhyrchu e-fodiwlau byr ar gyfer holl staff a cynhyrchu catalog o enghreifftiau ymarfer da i'w cefnogi.

v) Cyflwyno a chynnig sesiynau ymarferol i holl staff y Cyngor ar gyfer datblygu sgiliau meddal (tebyg i'r rhai ddefnyddir mewn canolfannau asesu).

## 2.3 Effaith y cyfnod COVID

Heb os nag oni bai mae'r cyfnod COVID wedi cael effaith ar gynnydd Ffordd Gwynedd gyda sawl Pennaeth yn adrodd bod cynnydd ar gynnal adolygiadau ffurfiol wedi arafu. Er hynny nodwyd nifer o enghreifftiau hefyd ple roedd sefyllfa COVID wedi gwthio'r agenda yn ei blaen ac wedi arwain at newid trefniadau yr oedd nifer yn credu nad oedd yn bosib i'w gyflawni cyn hynny. Cyn y cyfnod COVID mi fyddai'n wir i awgrymu bod rhai gwasanaethau ofn mentro defnyddio dulliau a thechnoleg newydd ond bod y clo a chyfyngiadau'r cyfnod wedi gorfodi'r newidiadau hynny.

Bu i nifer adrodd bod y drefn o gofnodi rhwystrau wedi disgyn yn ystod y cyfnod clo ac hynny'n bennaf gan bod y rhwystrau, yn amlach na pheidio, yn cael eu cofnodi ar fyrddau gwyn yn y swyddfeydd unigol yn y gorffennol. Cydnabyddwyd bod yr enghraifft yma yn arddangos bod gweithio o gartref neu'n rhannol o gartref/yn y swyddfa yn golygu bod angen darparu arweiniad amgen i staff yn y dyfodol yng nghyswllt cofnodi a rhannu materion sy'n eu rhwystro rhag gweithredu'n effeithiol.

**Argymhellion**

i) Sicrhau bod y timau yn adnabod a thrafod enghreifftiau o fod wedi symud yr agenda yn ei blaen er mwyn sicrhau eu bod yn datblygu yr egwyddorion newydd ac nad ydynt yn llithro yn ôl i'r hen ffordd o wneud pethau. Hefyd cymryd y cyfle i drafod yr hyn ddaru ddim gweithio cystal a thrafod sut gallent fod wedi ei wneud yn wahanol.

ii) Cyflwyno dull o gofnodi rhwystrau yn electronig i'r Rhwydwaith Rheolwyr.

iii) Sicrhau bod ein hyfforddiant yn ystyried effeithiau gweithio yn hybrid.

**2.4 Dathlu llwyddiannau**

Cyflëwyd nad ydi'r Cyngor yn dathlu digon ar lwyddiannau Ffordd Gwynedd nac ychwaith yn rhannu llawer ar brofiadau fel y gellir dysgu gan eraill.

**Argymhellion**

i) Ailedrych ar wobrau Gwynedd ar ei Orau i adlewyrchu'r diwylliant gwaith sydd gennym o fewn y Cyngor erbyn hyn.

ii) Sicrhau bod timau yn rhannu profiadau (llwyddiannau a methiannau) o fewn eu timau ac ar draws eu gwasanaeth gyda golwg i gynnwys eitem sefydlog ar agenda cyfarfodydd timau gwasanaeth.

iii) Datblygu rhwydwaith Ffordd Gwynedd i rannu a datblygu syniadau a dysgu am yr hyn mae pawb yn ei wneud. Rhydd hyn y cyfle i rannu syniadau, trafod syniadau ar oroesi rhwystrau, rhannu ymarfer da, adnabod anghenion cefnogaeth.

iv) Datblygu safle presennol Ffordd Gwynedd ar y mewnrwyd i hwyluso rhannu enghreifftiau o arfer da a dysgu.

**2.5 Dull Ffordd Gwynedd yn feichus ac araf**

Roedd ymdeimlad bod dull "Ffordd Gwynedd" o gynnal adolygiad gwasanaeth yn gallu bod, neu yn ymddangos, yn broses feichus ac felly yn anodd rhyddhau y capasiti o fewn timau er mwyn cyflawni. Mae'n wir i ddweud bod cynnal adolygiad traws wasanaeth yn gallu cymryd amser ac adnoddau eang ond mae modd cynnal adolygiadau bychain ar systemau syml lle y gellir ei wneud fel rhan o'r gwaith dydd i ddydd. Maent yn aml yn effeithiol ac yn gallu cael eu gweithredu yn haws.

**Argymhellion**

i) Cynnal mwy o adolygiadau bychain ar brosesau/systemau gwaith unigol.

ii) Addasu hyfforddiant/gweithdai i ledaenu’r neges bod modd gweithredu adolygiad Ffordd Gwynedd mewn amryw ffyrdd (nid yn unig fel adolygiad dwys).

iii) Timau, sydd eisoes wedi cyflawni adolygiadau llai dwys, i rannu enghreifftiau o’r modd yr aethpwyd ati a’r gwelliannau a wireddwyd.

**2.6 Diffyg capasiti i gyflawni adolygiadau / cyflwyno gwelliannau**

Adroddwyd bod nifer o adolygiadau eisoes yn cael eu gweithredu ar draws y Cyngor ac yn gwneud gwahaniaeth ond gyda’r gydnabyddiaeth bod sgôp i wneud llawer mwy.

Fodd bynnag, daeth yn glir o’r mwyafrif o’r ymatebion bod yr adrannau yn ei chael yn anodd rhyddhau capasiti i gychwyn adolygiadau ac i gyflawni gwelliannau. Gellir rhannu hyn yn ddau – diffyg capasiti rheolwyr i gamu allan i arwain a chefnogi adolygiadau a diffyg capasiti staff i ymateb i rwystrau a.y.b. Mae ganddynt eisoes nifer o flaenoriaethau eraill wedi eu gosod ar ben y gwaith dydd i ddydd e.e. yr Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol yn adrodd bod rheolwyr a staff yn gweithio oriau ychwanegol yn gyson ac yn ei chael yn anodd rhyddhau amser i bwrpas cynnal adolygiad gwasanaeth.

**Argymhellion**

i) Petai gan y timau restrau cynhwysfawr o’u rhwystrau yna gellid defnyddio rhain i fod yn blaenoriaethu, cynorthwyo i adnabod adnodd angenrheidiol ac i reoli disgwyliadau staff (sydd yn disgwyl bod pethau yn newid unwaith eu bod ar y rhestr).

ii) Ystyried defnydd o adnodd ychwanegol penodol yn y tymor byr er mwyn cyflawni peth o’r gwaith dydd i ddydd gan drwy hynny ryddhau capasiti ar gyfer gyrru gwaith adolygiadau unigol yn eu blaen

**2.7 Gweithio’n drawsadrannol neu gyda phartneriaid allanol**

Nodwyd mewn amryw ymateb bod rhwystrau mewn ceisio gweithio yn draws-adrannol a gyda partneriaid allanol. Mae’n amlwg nad ydi pob adran/ partner ar yr un dudalen a bod hyn yn llesteirio gallu i symud ymlaen.

Cynigir bod angen ystyried ymhellach os yw’r trefniadau presennol yn ein gyrru i ganolbwyntio’n ormodol ar berfformiad a chyflawniad adrannol h.y. adrannau / rheolwyr yn cael eu gwthio i wella yn gyson ac yn cael eu dal yn atebol am berfformiad felly yn llai parod i gydweithio fel un ar draws y Cyngor.

**Argymhellion**

i) Ystyried blaenoriaethu cefnogaeth i adolygiadau traws adrannol.

ii) Ystyried yr angen i'r Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwyr Corfforaethol yrru'r ymdrech i gynnal a chyflawni adolygiadau traws adrannol.

**2.8 Gofynion statudol / amodau grantiau**

Nodwyd bod gorfod cydymffurfio a gofynion statudol / amodau grantiau weithiau yn ei gwneud yn anodd i weithredu egwyddorion Ffordd Gwynedd e.e. yr Adran Addysg yn adrodd bod amodau grantiau yn eu clymu i ddeilliannau a dulliau cyflwyno penodol a golyga hyn eu bod ar adegau yn cyflwyno gwasanaethau allai fod yn aneffeithiol ac yn dyblygu darpariaethau eraill.

**Argymhellion**

i) Ers cynnal yr hunan-asesiad, mae Llywodraeth Cymru wedi datgan ei fod yn awyddus i gynnal darn o waith gydag awdurdodau er mwyn ceisio lleihau y baich gweinyddol ar lywodraeth leol. Bydd y pryder a leisiwyd fel rhan o'r hunan-asesiad yn derbyn sylw trwy'r gwaith hwnnw yn y lle cyntaf.

**2.9 Technoleg Gwybodaeth**

Mae cynnal adolygiad Ffordd Gwynedd yn codi nifer o gyfleon i fod yn defnyddio technoleg ar gyfer goroesi rhwystrau / gweithio yn fwy effeithlon. Mae'r Gwasanaeth Technoleg Gwybodaeth wedi'i chael yn gynyddol anodd i ymateb yn amserol i gynlluniau gweithredu yn dilyn cynnal adolygiadau ac mae hyn yn creu rhwystredigaeth i swyddogion sydd wedi ymgymryd a'r adolygiadau.

Mae'r sylwadau hyn wedi amlygu yr angen i sicrhau bod digon o adnodd yn cael ei glustnodi ar gyfer cynnal a chadw systemau yn ogystal a datblygu y systemau a nad ydi'r ddwy elfen yn cystadlu am yr un adnodd.

**Argymhellion**

i) Y Grŵp Strategol Trawsnewid Digidol i ddadansoddi sefyllfa gefnogol Technoleg Gwybodaeth ac i arwain ar flaenoriaethu yn gorfforaethol gan sicrhau bod trefniadau Ffordd Gwynedd yn cael ystyriaeth flaenllaw.

**2.10 Amharodrwydd i dderbyn gostyngiad mewn perfformiad tra'n cynnal Adolygiad**

Roedd rhai adrannau yn adrodd nad oedd staff / rheolwyr yn teimlo'n gyfforddus i dderbyn gostyngiad mewn perfformiad tra'n cynnal adolygiad a bod hyn yn rwystr i gychwyn neu i gyflawni adolygiad.

**Argymhellion**

i) Rheoli disgwyliadau budd-ddeiliaid a sicrhau bod yr holl Aelodau yn ymwybodol ac yn derbyn bod posibilrwydd i lefel perfformiad gwasanaethau ostwng yn y tymor byr tra bo adolygiad yn cael ei gynnal.

ii) Ystyried peidio herio perfformiad y gwasanaeth penodol am gyfnod tra bo'r adolygiad yn cael ei gynnal.

**2.11 Deall gwir anghenion y Cwsmer**

Adroddwyd bod cryn gynnydd wedi ei wneud o fewn rhai gwasanaethau ond bu i nifer hefyd adrodd bod lle i wella yn y cyswllt hwn gan gydnabod yr angen i ymestyn allan i ddeall anghenion rhai sydd ddim ar hyn o bryd yn gwneud defnydd o'n gwasanaethau.

**Argymhellion**

i) Sicrhau bod pob adran yn ymgysylltu hefo eu cwsmeriaid yn rheolaidd a chyflwyno yr angen i arddangos bod hynny yn digwydd a'r effaith a gaiff o fewn y trefniadau herio perfformiad.

ii) Cyflwyno hyfforddiant/ gweithdai byr ar ddadansoddi'r galw (adnabod enghreifftiau o lle mae gwneud hyn wedi arwain at newidiadau a'u rhannu).

**2.12 Pwrpas a mesuryddion**

Roedd pob Adran yn gallu adrodd bod eu gwasanaethau wedi gwneud cryn gynnydd ar ddatblygu pwrpas a mesuryddion perfformiad ond bod gwaith pellach i sicrhau bod rhai timau unigol angen adolygu pwrpas pan fo sefyllfa yn newid e.e. yr Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd yn adrodd eu bod angen ail ymweld a'u pwrpasau gan fod y galw ar y gwasanaeth wedi newid cymaint dros y dwy flynedd diwethaf, hyn yn amlygu yr angen i fod yn ei wneud yn gyson yn hytrach nac fel ymarferiad unwaith ac am byth.

Roedd peth o'r adborth yn adrodd bod yna ymdeimlad o dan yr wyneb bod gosod y pwrpas a datblygu mesuryddion yn parhau i gael ei ystyried gan rhai fel rhywbeth mae'r rheolwyr yn ei wneud a'i angen ydi o. Mae hyn yn arddangos yr angen i wneud gwaith pellach i sicrhau bod staff yn perchnogi'r pwrpas a'r perfformiad ac yn derbyn a chydnabod eu swyddogaeth a'u cyfraniad i wella gwasanaeth.

Roedd rhai adrannau yn tynnu sylw at y gofyn ohonynt i gasglu ac adrodd ar fesuryddion cenedlaethol ar ben y mesuryddion perfformiad lleol e.e. yr Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd yn nodi ei bod yn heriol gorfod casglu ac adrodd ar fesurau statudol cenedlaethol. Fel ag y nodwyd yn flaenorol, mae Llywodraeth Cymru wedi datgan ei fod yn awyddus i gynnal darn o waith gydag awdurdodau er mwyn ceisio lleihau y baich gweinyddol ar lywodraeth leol. Bydd y pryder a leisiwyd fel rhan o'r hunan-asesiad yn derbyn sylw trwy'r gwaith hwnnw.

Mater arall amlygodd ei hun yn ystod yr hunan-asesiad oedd y casgliad bod y Cyngor wedi gwireddu cryn gynnydd ar fesur pa mor effeithiol yr ydym yn gweithio ond ddim cymaint o gynnydd ar fesur pa mor effeithlon y cyflawnir y gwaith.

**Argymhellion**

i) Cyflwyno hyfforddiant/gweithdai byr ar ddefnyddio mesuryddion i wella (adnabod enghreifftiau go iawn lle mae defnyddio y mesuryddion wedi arwain at welliant a'u rhannu).

ii) Yr Is Grŵp Data (Bwrdd Trawsnewid Digidol) i ystyried cefnogaeth i sicrhau bod data ar gael yn hawdd ac yn amserol yn hytrach na rhywbeth maent yn gorfod cael eraill i'w i gynhyrchu yn fisol (enghreifftiau da o lle ma hyn wedi dechrau digwydd gan ddefnyddio e.e. Power BI).

iii) Sicrhau bod adolygu perfformiad yn eitem sefydlog ar agenda pob cyfarfod tîm gwasanaeth.

iv) Ail edrych ar ein mesuryddion perfformiad presennol yn rheolaidd a chyflwyno mesuryddion effeithlonrwydd ychwanegol i'r dyfodol.

**2.13 Rhwystrau**

Casglwyd bod angen sylw pellach i sicrhau bod gwaith yn digwydd er mwyn goroesi rhwystrau adnabyddir. Roedd rhai adrannau yn adrodd bod y gweithrediad sydd ei angen i gael gwared o rwystrau yn disgyn rhwng dwy stôl yn aml gydag eraill yn adrodd nad oes capasiti i weithredu.

Canlyniad hynny yw bod staff yn colli ffydd yn y "ffordd o weithio" gan bod rhwystrau yn araf yn cael eu goroesi neu hyd yn oed ddim yn derbyn sylw.

**Argymhellion**

i) Sicrhau bod rhwystrau ar agenda pob cyfarfod tîm gwasanaeth, a'u bod yn cael eu blaenoriaethu gan ddynodi perchennog ar gyfer pob rhwystr unigol tra bo monitro rheolaidd ar y cynnydd.

ii) Datblygu hyfforddiant byr ar weithredu ar rwystrau.

**2.14 Timau yn bod yn greadigol ac yn gweithio yn arloesol**

Bu i bob adran allu dyfynnu enghreifftiau o fod wedi gweithio yn greadigol ac arloesol ond gydag ôl-nodyn yn datgan bod angen parhau i ddatblygu hyder staff os am ddisgwyl iddynt barhau i weithio yn y modd hyn e.e. yr Adran Cefnogaeth Gorfforaethol yn nodi pwysigrwydd

parhau i arddangos, trwy reolwyr ac arweinwyr, bod arbrofi a peidio llwyddo pob tro yn dderbyniol.

**Argymhellion**

i) Aelodau a rheolwyr i dderbyn bod pethau yn mynd o'i le o bryd i'w gilydd er mwyn creu yr amgylchfyd gwaith sy'n caniatáu mentro ac arbrofi.

**2.15 Cefnogaeth o du allan i'r adran**

Roedd nifer yn nodi gwerth cael pâr o lygaid ffres i fod yn edrych ar bethau o ogwydd y cwsmer ac i herio y trefniadau gweithredu presennol, boed yn dod gan y Tîm Ffordd Gwynedd neu gan reolwyr a staff o dimau / gwasanaethau eraill o fewn y Cyngor.

**Argymhellion**

i) Angen marchnata y gefnogaeth sydd ar gael yn well. Gellir gwneud hyn trwy rwydwaith Ffordd Gwynedd yn y Cyngor.

ii) Cael staff o wasanaethau eraill ddod i mewn i sicrhau bod pethau yn cael eu herio o ogwydd rhywun sydd ddim yn deall y gwasanaeth ac felly yn gallu edrych arno fel ag y byddai'r cwsmer.

**2.16 Pethau'n dod i stop pan mae rhywun yn gadael.**

Derbyniwyd ambell i sylw yn adrodd bod pethau yn dod i stop pan fo y sawl sydd yn arwain ar waith Ffordd Gwynedd yn gadael swydd. Mae'r sylwadau hyn yn pery pryder gan ei fod yn awgrymu mai unigolyn sy'n cymryd perchnogaeth o adolygiad ac nad yw gweddill y tîm yn teimlo'r berchnogaeth honno.

**Argymhellion**

i) Angen cynnwys cyfeiriad ac arweiniad ar hyn yn yr hyfforddiant "dilyniant" ar gyfer rheolwyr ac arweinyddion tîm.

**2.17 Llesiant Staff**

Cyflwynwyd rhai sylwadau yng nghyswllt y ffaith bod ffocws naturiol "Ffordd Gwynedd" ar y cwsmer ac ar wella perfformiad ond bod efallai angen sicrhau sylw priodol o fewn y diwylliant hefyd ar lesiant y staff sy'n darparu'r gwasanaethau.

**Argymhellion**

i) Bod angen cyflwyno a phwysleisio llesiant staff fel rhan ganolog o'r diwylliant.

## 3. CASGLIADAU

Mae Cynllun presennol “Ffordd Gwynedd” angen ei adolygu ac mae’r ymarferiad hwn o gynnal hunan-asesiad, yn hynny o beth, yn amserol iawn. Cynigir bod yr argymhellion a nodir yn yr adroddiad hon (gweler crynodeb ohonynt yn Atodiad 1) yn sail cadarn ar gyfer gwreiddio’r diwylliant, a’r ffordd o weithio, ymhellach o fewn y Cyngor.

Gwerthfawrogir sylwadau aelodau’r Pwyllgor, fel ychwanegiad pellach i'r dystiolaeth a gasglwyd, cyn mynd ati i lunio ac yna cyflwyno drafft terfynol o’r Cynllun Gweithredu diwygiedig i'r Cabinet ystyried ei fabwysiadu maes o law.

**ATODIAD 1 - Tabl Argymhellion Gweithgor Adolygu Ffordd Gwynedd**

| **Argymhelliad** | **Blaenoriaeth** |
|---|---|
| **Timau Gwasanaeth** | |
| Sicrhau bod y canlynol ar agenda pob cyfarfod tîm gwasanaeth:<br>• Perfformiad<br>• Rhwystrau<br>• Enghreifftiau newydd o ymarfer da a gwersi a ddysgwyd | |
| Ymgysylltu gyda'u cwsmeriaid yn rheolaidd. | |
| Cynnal mwy o adolygiadau bychain. | |
| Ail edrych ar ein mesurau perfformiad gan ystyried mesurau effeithlonrwydd. | |
| Cynnal sesiwn i adnabod enghreifftiau o ymarfer da yn sgil COVID | |
| | |
| **Rheolwyr** | |
| Sicrhau bod eu timau gwasanaeth yn gweithredu yr uchod ac yn eu cefnogi i wneud hynny. | |
| Derbyn bod pethau yn mynd o'i le o bryd i'w gilydd er mwyn creu yr amgylchfyd gwaith sy'n caniatáu mentro ac arbrofi. | |
| Sicrhau, wrth gynnal adolygiadau gwasanaeth, bod y staff sydd yn gwneud y gwaith yn rhan o adnabod yr hyn sydd angen ei newid a'r broses o'i newid. | |
| Gwahodd staff o wasanaethau eraill ddod i mewn i sicrhau bod pethau yn cael eu herio o ogwydd rhywun sydd ddim yn deall y gwasanaeth ac felly yn gallu edrych arno o ogwydd y cwsmer. | |
| Adnabod a threfnu anghenion hyfforddiant a chefnogaeth ar gyfer eu timau. | |
| Sicrhau bod enghreifftiau o ymarfer da yn cael eu rhannu ar draws timau ac yn gorfforaethol. | |
| Sicrhau bod ymddygiadau Ffordd Gwynedd yn sail i drafodaethau gwerthuso parhaus. | |
| Sicrhau bod y gweithio traws adrannol yn digwydd yn hytrach na cael ei osgoi am nad yw yn hawdd. | |
| Rheoli disgwyliadau a sicrhau bod aelodau yn ymwybodol bod adolygiadau yn mynd ymlaen ac y disgwylir iddo gael effaith ar berfformiad. | |
| | |
| **Y Prif Weithredwr, Cyfarwyddwyr ac Aelodau** | |
| Ystyried blaenoriaethu cefnogaeth i adolygiadau traws adrannol | |
| Derbyn bod adolygiad yn mynd ymlaen ac y disgwylir iddo gael effaith ar y perfformiad. | |
| Derbyn bod pethau yn mynd o'i le o bryd i'w gilydd er mwyn creu yr amgylchfyd gwaith sy'n caniatáu mentro ac arbrofi. | |
| Cytuno i beidio herio perfformiad am gyfnod yn ystod adolygiad. | |
| Ailedrych ar wobrau Gwynedd ar ei Orau i adlewyrchu'r diwylliant gwaith sydd gennym o fewn y Cyngor | |
| Llesiant staff | |
| | |

| Argymhelliad | Blaenoriaeth |
|---|---|
| **Grŵp Strategol Trawsnewid Digidol / Is Grŵp Data** | |
| Bwrdd Trawsnewid Digidol i ddadansoddi'r sefyllfa gefnogol TG ac i arwain ar flaenoriaethu yn gorfforaethol gan sicrhau bod trefniadau Ffordd Gwynedd yn cael ystyriaeth flaenllaw. | |
| Cyfeirio i'r Is Grŵp Data i ystyried cefnogaeth i sicrhau bod data ar gael yn hawdd ac yn amserol yn hytrach na rhywbeth maent yn gorfod cael eraill i'w i gynhyrchu yn fisol (enghreifftiau da o lle ma hyn wedi dechrau digwydd gan ddefnyddio e.e. Power BI). | |
| | |
| **Grŵp Craidd** | |
| Datblygu cwrs "dilyniant" a'i wneud yn fandadol i bob rheolwr ac arweinydd tîm. | |
| Datblygu cwrs trosolwg ar gyfer holl staff y Cyngor gan dargedu rhai ac ystyried ei wneud yn fandadol | |
| Sicrhau bod ein hyfforddiant yn ystyried effeithiau gweithio yn hybrid ac yn lledaenu neges bod modd gweithredu Ffordd Gwynedd mewn amryw ffyrdd. | |
| Cynhyrchu hyfforddiant ar sail e-fodiwlau a gweithdai byr ar gyfer holl staff a cynhyrchu catalog o enghreifftiau ymarfer da i'w cefnogi ar gyfer y meysydd isod:<br>• Dadansoddi'r galw<br>• Defnyddio mesurau i wella<br>• Gweithredu ar rwystrau<br>• Gweithio'n arloesol / creadigol | |
| Hysbysebu a datblygu'r cyrsiau sgiliau meddal. | |
| Cyflwyno/cynnig sesiynau ymarferol tebyg i'r rhai ddefnyddir mewn canolfannau asesu | |
| Cyflwyno 'Ymddygiadau Ffordd Gwynedd' syml ac chlir sy'n gosod disgwyliadau yn y 'croeso' (anwytho) ar gychwyn gyrfa/swydd newydd. | |
| Cefnogi arweinwyr / rheolwyr i addasu a chymhwyso trefniadau gweithio '*hyblyg*' i gadarnhau a chryfhau egwyddorion Ffordd Gwynedd. | |
| Cyflwyno dull o gofnodi rhwystrau yn electronig i'r rhwydwaith rheolwyr. | |
| Datblygu rhwydwaith Ffordd Gwynedd. | |
| Datblygu safle Ffordd Gwynedd ar y mewnrwyd i rannu enghreifftiau. | |
| Marchnata y gefnogaeth sydd ar gael. | |

# CABINET CYNGOR GWYNEDD

## Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y cyfarfod:** | 7 Mawrth 2023 |
| **Aelod Cabinet:** | Y Cyng. Beca Brown |
| **Swyddog Cyswllt:** | Garem Jackson, Pennaeth Addysg |
| **E-bost Cyswllt:** | GaremJackson@gwynedd.llyw.cymru |
| **Teitl yr Eitem:** | Prosiect Addysg Ôl-16 yn Arfon – Band B Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy |

**1. Y PENDERFYNIAD A GEISIR**

1.1 Derbyn caniatâd y Cabinet i wneud gwaith pellach gyda rhanddeiliaid sy'n ffurfio Consortiwm Addysg ôl-16 Gwynedd ac Ynys Môn er mwyn datblygu modelau posib ar gyfer addysg ôl-16 yn Arfon sy'n deillio o'r ymgysylltu anffurfiol a gynhaliwyd ar addysg ôl-16 yn Arfon yn nhymor yr Hydref 2020.

**2. Y RHESWM DROS YR ANGEN AM BENDERFYNIAD**

2.1 Ar 10 Mawrth 2020 aethpwyd gerbron y Cabinet i ofyn am *"ganiatâd i gynnal trafodaethau gyda rhan-ddeiliaid er mwyn ystyried y ddarpariaeth bresennol ac amlygu'r ystyriaethau allweddol er mwyn cyd-adnabod y cyfeiriad a chyfleoedd i gryfhau'r ddarpariaeth addysg ôl-16 yn Arfon. Yn dilyn hynny, disgwylir i adroddiad pellach gael ei gyflwyno gerbron y Cabinet er mwyn adrodd yn ôl ar ganlyniad y trafodaethau."*

2.2 Ers 2013, mae ysgolion uwchradd Arfon mewn partneriaeth gydag Awdurdod Lleol Gwynedd, ysgolion uwchradd Ynys Môn, Awdurdod Lleol Môn a Grŵp Llandrillo Menai a elwir Consortiwm addysg ôl-16 Gwynedd a Môn. Mae'r Consortiwm yn gosod cwricwlwm ôl-16 yr ardal drwy drefniant partneriaethol.

2.3 Mae darpariaeth cwricwlwm ôl-16 Gwynedd ac Ynys Môn yn cael ei lunio drwy gytundeb a phenderfyniad y bartneriaeth yn hytrach na chan ysgolion a cholegau unigol. Golygai hyn fod pob ysgol beth bynnag yw maint eu darpariaeth chweched dosbarth yn gallu cynnig y 25 pwnc Safon Uwch a 5 pwnc BTEC lefel 3 sy'n cyrraedd y 30 pwnc sy'n ofynnol i bob ysgol ei gyfarch.

2.4 Byddai sicrhau cefnogaeth y Cabinet er mwyn symud ymlaen gyda'r prosiect addysg ôl-16 yn Arfon yn galluogi'r Adran Addysg i drafod a gwneud gwaith pellach er mwyn

datblygu modelau posib ar gyfer addysg ôl-16 yn Arfon ar y cyd â phartneriaid y Consortiwm a rhan-ddeiliaid allweddol y prosiect.

## 3. CYFLWYNIAD

3.1 Ym Mawrth 2020 cafwyd caniatâd gan y Cabinet i gychwyn proses ymgysylltu anffurfiol gyda rhan-ddeiliaid allweddol er mwyn ystyried y ddarpariaeth bresennol, ac amlygu'r ystyriaethau allweddol er mwyn adnabod y cyfeiriad a chyfleoedd i gryfhau'r ddarpariaeth addysg ôl-16 yn Arfon. Lluniwyd adroddiad manwl sy'n dwyn y pennawd *Trosolwg Addysg Ôl-16* fel sail i'r ymgysylltu.

3.2 Roedd bwriad i gychwyn y broses ymgysylltu anffurfiol ddiwedd mis Mawrth 2020. Fodd bynnag, cyn i benderfyniad y Cabinet ddod i rym, aeth y DU cyfan i gyfnod clo ar 20 Mawrth 2020. Yn sgil ymateb i argyfwng y pandemig, a'i effaith ar ein hysgolion, ar y pryd nid oedd modd bwrw ymlaen efo'r broses ymgysylltu anffurfiol fel y bwriadwyd.

3.3 Ym Medi 2020, ail-gydiwyd yn y broses ymgysylltu anffurfiol yn rhithwir, a chynhaliwyd yr ymgysylltu anffurfiol am gyfnod o 6 wythnos rhwng 10 Tachwedd a 22 Rhagfyr 2020. Adroddwyd ar gasgliadau'r broses Ymgysylltu Anffurfiol gerbron y Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi ar 4 Chwefror 2021

3.4 Yn y cyfarfodydd anffurfiol trafodwyd mân newidiadau i'r gyfundrefn bresennol ar un pegwn- i ganolfan chweched dosbarth ar gyfer yr holl ddysgwyr ar y pegwn arall.

3.5 Gan fod cryn amser wedi mynd heibio ers cychwyn ystyried y maes hwn yn 2018 a sefydlu'r achos dros newid gwreiddiol yn 2020, mae'r Adran Addysg wedi ail-ymweld â'r achos dros newid gan fod ystyriaethau newydd yn sgil y pandemig all ddylanwadu ar gyfeiriad y prosiect.

## 4 Y BROSES YMGYSYLLTU ANFFURFIOL

4.1 Fel rhan o'r broses ymgysylltu, cyhoeddwyd y ddogfennaeth gefndirol a ganlyn ar wefan y Cyngor

- Adroddiad Cabinet 10 Mawrth 2020
- Trosolwg Addysg Ôl-16 (Mawrth 2020)
- Adroddiad IAITH Cyf 'Asesiad o'r ddarpariaeth addysg ôl-16 bresennol yng Ngwynedd' (Ebrill 2019)
- Cyflwyniad Hydref 2020.
- Y weledigaeth a'r Amcanion
- Ffurflen Ymateb

4.2 Er mwyn cefnogi'r ymgysylltu, cynhaliwyd cyfarfodydd rhithiol gyda dysgwyr, rhieni, staff dysgu a llywodraethwyr yn ystod y cyfnod er mwyn rhoi cyfle iddynt leisio eu

barn a holi unrhyw gwestiynau ynglŷn â'r maes. Cynhaliwyd 6 sesiwn rhithwir, a bu i dros 140 o ran-ddeiliaid fynychu.

4.3 Defnyddiwyd dulliau megis datganiadau i'r wasg, defnydd o'r cyfryngau cymdeithasol ac e-bostio'r ysgolion a rhan-ddeiliaid allweddol er mwyn codi ymwybyddiaeth am y broses ymgysylltu a'r sesiynau rhithwir.

4.4 Yn ogystal, er mwyn annog cymaint â phosibl i gyfrannu at y sgwrs, cynhaliwyd sesiynau rhithwir arbennig i gasglu barn a syniadau gan ddysgwyr yn Arfon am y math o gyfundrefn addysg ôl-16 fyddai'n cwrdd â'r weledigaeth ynghyd â'u hanghenion hwy a'u cyfoedion i'r dyfodol.

4.5 Dyma fanylion yr holl sesiynau ymgysylltu a gynhaliwyd yn y tabl isod:

| Y Broses Ymgysylltu Anffurfiol | Amserlen | Amlder a chyfrwng |
|---|---|---|
| **Cyfarfod penaethiaid uwchradd Arfon - diweddariad ac amlinellu'r camau nesaf a'r amserlen ymgysylltu** | 14 Hydref 2020 | 1 cyfarfod rhithwir |
| **Cyfarfod Aelodau Etholedig Arfon - diweddariad ac amlinellu'r camau nesaf a'r amserlen ymgysylltu** | 15 Hydref 2020 | 1 cyfarfod rhithwir |
| **Cyfarfod Cyrff Llywodraethol Ysgolion Uwchradd Arfon - diweddariad ac amlinellu'r camau nesaf a'r amserlen ymgysylltu** | w/c 19 Hydref 2020 | 6 cyfarfod rhithwir |
| **Cyfarfod penaethiaid ysgolion arbennig Gwynedd - diweddariad ac amlinellu'r camau nesaf a'r amserlen ymgysylltu** | 11 Tachwedd 2020 | 1 cyfarfod rhithwir |
| **Cyfarfod cynrychiolwyr Grŵp Llandrillo Menai - diweddariad ac amlinellu'r camau nesaf a'r amserlen ymgysylltu** | 18 Tachwedd 2020 | 1 cyfarfod rhithwir |
| **Cyhoeddi ymgysylltu anffurfiol ar addysg ôl-16 Arfon ar wefan y Cyngor** | 10 Tachwedd 2020 | Gwefan y Cyngor, datganiad i'r wasg, e-bost at ran-ddeiliaid |
| **Sesiwn Ymgysylltu ar gyfer Llywodraethwyr** | 30 Tachwedd + 9 Rhagfyr 2020 | 2 gyfarfod rhithwir |
| **Sesiwn Ymgysylltu ar gyfer Staff** | 1 + 7 Rhagfyr 2020 | 2 gyfarfod rhithwir |
| **Sesiwn Ymgysylltu ar gyfer rhieni, dysgwyr, ac unrhyw aelod o'r cyhoedd** | 2 + 8 Rhagfyr 2020 | 2 gyfarfod rhithwir |

| | | |
|---|---|---|
| **Sesiynau Ymgysylltu hefo dysgwyr (2 grŵp o bob ysgol uwchradd yn Arfon + 1 grŵp o GLlM)** | Rhagfyr 2020 (i'w cwblhau yn Ionawr 2021) | 13 cyfarfod rhithwir |

**5 PRIF NEGESEUON O'R YMGYSYLLTU ANFFURFIOL**

Yn sgil yr ymgysylltu, gellir grwpio'r sylwadau a dderbyniwyd o dan y themâu isod -

- Ansawdd Addysg
- Y Gymraeg
- Lles y dysgwyr
- Teithio
- Cyfleusterau / amgylchedd dysgu
- Dysgu rhithiol

5.2 **Ansawdd Addysg**

Roedd mwyafrif y sylwadau yn cyfleu bod ansawdd yr addysg yn gyffredinol dda yn yr ysgolion.

> *"Credwn fod rhaid i unrhyw newid yn y ddarpariaeth / trefniadaeth fod yn gallu dangos sut yn glir y bydd o leiaf yn cynnal ansawdd yr addysg a'r profiadau a gynigir yn bresennol."*

Cafwyd argymhellion ymhlith rhieni a dysgwyr ar sut i wella'r drefn bresennol a oedd yn cynnwys y sylwadau canlynol -

- Cynyddu dysgu ymarferol a defnydd o amgylcheddau amgen.
- Cynyddu profiadau bywyd go-iawn gan gynnig gweithdai/sesiynau gan weithwyr lleol, gwersi ar sgiliau bywyd ôl addysg megis talu trethi, sut i brynu tŷ a dysgu mwy am wleidyddiaeth/pleidleisio.
- Cynyddu'r nifer o bynciau sydd ar gael mewn un sefydliad fel bod gan bob dysgwr yr un cyfle heb orfod teithio.

Yn gyffredinol nid oedd dymuniad i drydyddu'r ddarpariaeth ôl-16 yn Arfon.

> *"Ni fuaswn yn gefnogol i weld Coleg Trydyddol yn Arfon a wneith efallai gweld ein hysgolion yn colli ei athrawon gorau a gwanhau y profiad a'r cyfleusterau i weddill y disgyblion."*

Awgrymwyd y byddai mwy o gyd-weithio gyda Grŵp Llandrillo Menai yn synhwyrol yn hytrach na chystadlu gyda hwy a'r hyn y maent yn ei gynnig.

*"Yn fy marn i byddai cyfundrefn sy'n caniatáu cydweithio rhwng yr ysgolion a Choleg Menai yn gwneud synnwyr yn hytrach nag un sy'n mynd i geisio cystadlu efo Coleg Menai."*

5.3 **Y Gymraeg**

Nodwyd sawl barn gadarn o blaid addysg cyfrwng Cymraeg a dwyieithog.

> *"Un agwedd hollbwysig o'r gyfundrefn bresennol yw ei darpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg yn ysgolion Arfon. Mae hyn yn hollol hanfodol beth bynnag fydd yn deillio allan o'r sgwrs fawr."*

ac

> *"Dylai dilyn cyrsiau trwy gyfrwng y Gymraeg fod yn opsiwn di-ofyn lle bo modd ac mae angen dal i farchnata manteision addysg cyfrwng Cymraeg."*

Roedd mwyafrif y sylwadau yn cydnabod pwysigrwydd y Gymraeg fel ased gwerthfawr yng Nghymru ac yn ein cymunedau. Roedd nifer o'r rhan-ddeiliaid yn cefnogi cynnal a chryfhau'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yng nghyd-destun addysg ôl-16.

Er cydnabod pwysigrwydd yr iaith Gymraeg, roedd lleiafrif o'r farn ei bod hi'n bwysig sicrhau sgiliau dysgwyr yn y Saesneg hefyd

> *"I am concerned about the provision of what is described as bi-lingual education...the process of education should ensure that all students achieve a good standard in English."*

Ymysg nifer fechan o ymatebion, roedd pryder ynglŷn ag ansawdd addysg Gymraeg, gan gynnwys prinder athrawon dwyieithog a'r adnoddau cyfrwng Cymraeg sydd ar gael.

> *"Mae prinder adnoddau drwy gyfrwng y Gymraeg yn broblem."*

5.4 **Lles y dysgwyr**

Mae rhan helaeth o'r ymatebion a gafwyd yn cydnabod yr amgylchedd fugeiliol a diogel y mae'r ysgolion presennol yn ei gynnig o ganlyniad i'r berthynas agos gydag athrawon, adnabyddiaeth fanwl o'r dysgwyr a'r ymdeimlad o berthyn. Fel y dywed un dysgwr

> *"We know the teachers better here and they know us better – relationship with the teachers are important."*

Mynegwyd rhai pryderon na fyddai un sefydliad mawr yn gallu cynnig gofal fugeiliol o'r radd flaenaf. Derbyniwyd sawl sylw bod gan yr ysgolion presennol y sgiliau a'r profiad sydd ei angen

i sicrhau bod dysgwyr yn cael y gofal gorau wrth astudio eu pynciau Safon Uwch. Y sylw a dderbyniwyd oedd bod dysgwyr yn dymuno cael addysg o'r ansawdd gorau yn eu mam ysgol.

> *"Mae'r ymdeimlad o deulu clos yn ein ysgol yn cael ei basio ymlaen i'r dyfodol. Dydw i ddim eisiau gweld hyn yn newid."*

Cafwyd sylwadau a oedd yn cyfeirio at y risg o sefydlu rhywbeth fyddai'n rhy fawr ac na fyddai'n cyfarch lles y dysgwyr fel mater o flaenoriaeth ac na fyddai'n adnabod cryfderau a gwendidau y dysgwyr cystal ag y byddai ysgol ble maent wedi bod yn astudio ers rhai blynyddoedd. Mynegwyd y farn honno ymhlith y rhieni -

> *"Gan eu bod (athrawon) wedi addysgu'r disgyblion yn y blynyddoedd blaenorol maent eisoes yn adnabod y disgyblion pan maent yn cychwyn yn y chweched. Golygai hyn y gallent sicrhau fod pob disgybl yn cyflawni i'w lawn botensial ac os oes angen gallent roi gofal bugeiliol iddynt."*

5.5 **Teithio**

Barn nifer fawr o'r rhan-ddeiliaid oedd fod teithio yn cael effaith negyddol ar addysg dysgwyr ôl-16, a bod gwell i ddysgwyr aros yn yr un amgylchedd ddysgu ble mae hynny'n bosib. Amlygwyd gan rai bod effaith dysgwyr ôl-16 yn teithio ar draws y sir ar gyfer addysg yn negyddol i'r amgylchedd.

> *"Dydi 81 o bobl mewn tacsis ddim yn dda i'r amgylchedd."*

Dywedodd rhai os yw teithio am barhau i fod yn elfen o addysg ôl-16, bod angen buddsoddi er mwyn gwella'r system drafnidiaeth gyhoeddus.

> *"In a rural area where provision is spread out, better buses and transport to allow students to access courses in different areas seems the best approach."*

Derbyniwyd awgrym gan leiafrif y dylai'r addysgwyr deithio yn hytrach na'r dysgwyr er mwyn cynnig pynciau arbenigol.

> *"If we have a subject expert, perhaps we share teachers across different educational establishments? Instead of the students travelling, could the teachers do so instead?"*

Cydnabuwyd fod teithio rhwng ysgolion a cholegau yn ffactor anorfod mewn ardal fel Arfon, ac awgrymwyd na fyddai canoli'r ddarpariaeth yn gwaredu'r angen i deithio yn gyfan gwbl er mwyn mynychu cyrsiau ôl-16.

> *"O ganoli 6ed dosbarth, yna mae'r broblem yn aros; pobol ifanc yn gorfod teithio o'u hardal leol i dderbyn addysg mewn 6ed dosbarth canolog."*

5.6 **Cyfleusterau ac amgylchedd dysgu**

Roedd mwyafrif o'r sylwadau ynglŷn â'r amgylchedd ddysgu yn nodi bod angen buddsoddi yn yr adeiladau presennol yn ardal Arfon er mwyn eu moderneiddio a chreu amgylchedd ddysgu addas ar gyfer addysg ôl-16.

> *"Mae ein hysgolion angen ei datblygu gyda gwariant ar adnoddau modern ddim gwario ar goleg newydd sbon er mwyn cael gwared ar ein 6ed ddosbarth traddodiadol."*

Er hynny, nododd nifer fechan bod ansawdd yr addysg yn fwy o flaenoriaeth na'r amgylchedd ddysgu ac nid yw amgylchedd gyda chyfleusterau wedi'u diweddaru o reidrwydd yn arwain at addysg ôl-16 o'r radd flaenaf.

> *"Modern facilities are important but not as important as quality of provision and a high level of attainment."*

Awgrymwyd defnyddio'r arian cyfalaf i fuddsoddi yn adeiladau ein hysgolion gan alluogi'r holl ddysgwyr i elwa o'r cyfleusterau modern.

> *"Er y gwaith addysgu arbennig sydd yn digwydd, mae amgylchedd dysgu sydd yn cael ei gefnogi gyda adnoddau pwrpasol sy'n deillio o gyllido cyfartal a theg gan Gyngor Gwynedd yn hybu dysgu ac addysgu."*

5.7 **Dysgu rhithiol**

Roedd nifer fawr o'r ymatebion yn mynegi pryder ynglŷn ag unrhyw gynigion a awgrymai y gallai technoleg ddisodli dysgu wyneb yn wyneb. Awgrymwyd y dylid defnyddio technoleg i gefnogi'r dysgu mewn dull strwythuredig nid ar draul addysgu wyneb yn wyneb.

> *"...fodd bynnag, mae gan dechnoleg ddigidol ran sylweddol i'w chwarae mewn 'dysgu cyfunol' pan mae'n ategu yn hytrach na disodli addysgu."*

At hyn, roedd nifer fawr o blaid defnyddio technoleg fel arf dysgu ychwanegol i ddysgu wyneb yn wyneb er mwyn cyfoethogi'r profiad addysgol.

> *"Mae addysgu drwy ddulliau rhithiol wedi dod yn gyfarwydd i ni gyd bellach. Gyda monitro ansawdd yr addysg gall fod yn ddull effeithiol o addysgu. Cost effeithiol hefyd!!"*

Roedd nifer yn rhagweld y manteision cyllidol a allai ddeillio o ddefnyddio technoleg i ddarparu system ddysgu cyfunol pe byddai'r athrawon yn derbyn hyfforddiant safonol a bod adnoddau addas ar gael.

> *"Bydd y defnydd o dechnoleg yn lleihau'r angen i deuthio rhwng ysgolion... dylir buddsoddi amser ac arian i greu adnoddau digidol a darparu hyfforddiant briodol i staff gan nad yw pob un ohonynt yn meddu ar y sgiliau digidol i'r un safon."*

5.8 Gellir crynhoi'r prif negeseuon a dderbyniwyd o'r broses ymgysylltu anffurfiol fel a ganlyn:

- Y brif flaenoriaeth yw Ansawdd Addysg.
- Y dylid defnyddio TGCh i ategu a chefnogi'r dysgu wyneb yn wyneb.
- Bod Addysg Gymraeg a dwyieithog yn greiddiol bwysig (er y sylwadau i'r gwrthwyneb).
- Y dylid defnyddio'r arian cyfalaf i wella cyfleusterau ein hysgolion uwchradd yn gyffredinol fel bod modd i'r holl ddysgwyr 11-18 oed elwa o'r buddsoddiad.
- Bod gwrthwynebiad cyffredinol i unrhyw fwriad i ganoli neu drydyddu'r ddarpariaeth
- Y cafwyd sawl sylw am ddarpariaeth GLlM o safbwynt ansawdd, cyfrwng, a gofal bugeiliol.

## 6. YSTYRIAETHAU NEWYDD YN SGIL Y PANDEMIG A ALL DDYLANWADU AR GYFEIRIAD ADDYSG ÔL-16

### 6.1 Dysgu Rhithiol

Yng nghyfnod y pandemig pan fu i'r ysgolion a'r colegau gau, symudwyd yr holl ddysgu i ddysgu rhithiol ar-lein. Er nad oedd y cyfrwng hwn yn ddelfrydol ar gyfer pob dysgwr, roedd yn fodd effeithiol o gadw mewn cysylltiad â'r ysgol yn ystod cyfnodau'r clo mawr. Ymateb cyffredinol gan ddysgwyr ôl-16 yn ystod y cyfnod ymgysylltu anffurfiol ar addysg ôl-16 yn Arfon oedd bod y mwyafrif yn ffafrio derbyn eu haddysg gyda'u cyfoedion mewn dosbarth o flaen athro a bod modd defnyddio technoleg er mwyn ategu a chefnogi'r dysgu wyneb yn wyneb. Yr un oedd barn y rhieni yn ystod yr ymgysylltu anffurfiol gyda'r mwyafrif o blaid dysgu wyneb yn wyneb. O ystyried y buddsoddiad sylweddol fu yn y dechnoleg i alluogi dysgu rhithiol yn ystod y pandemig, dylid rhoi ystyriaeth gwirioneddol i fodelau dysgu hybrid fel ffordd ymlaen ar gyfer addysg ôl-16 yn Arfon, ac ni ddylid camu'n ôl o'r camau breision ym maes dysgu digidol a wnaethpwyd yn ystod y cyfnodau clo.

### 6.2 E-Sgol

Ariennir y prosiect hwn gan Lywodraeth Cymru er mwyn cynorthwyo ysgolion mewn ardaloedd gwledig yn bennaf gyda'u darpariaeth ôl-16 a'u darpariaeth cyfrwng Cymraeg. Drwy gyfrwng E-Sgol mae modd i ysgolion gynnig mwy o bynciau i ddysgwyr ôl-16. Mae'r dysgu yn digwydd yn rhithiol drwy gyfrwng *Microsoft Teams* a defnyddir dulliau dysgu

cyfunol gan ddefnyddio Hwb. Mantais amlwg E-sgol mewn ardal wledig yw nad oes angen teithio o un ysgol i'r llall ac mae hynny yn arwain at fwy o amser yn y fam ysgol. Gyda hynny daw arbedion ariannol gan nad oes costau teithio er mwyn mynd i wersi mewn ysgolion eraill gan arwain at leihad mewn ôl-troed carbon, ynghyd â gwella'r profiad i'r dysgwr.

6.3 **Tocyn teithio ôl-16**

Yn sgil diddymu'r gost sydd ynghlwm â'r tocyn teithio ar gyfer dysgwyr ôl- 16 mae rhyddid i ddysgwyr deithio o'u cartrefi i unrhyw sefydliad addysg ôl-16 yng Ngwynedd ar rai teithiau penodol yn rhad ac am ddim. Wrth ddiddymu'r ffi mae un rhwystr rhag galluogi dysgwyr i ddewis parhau mewn addysg yn y cyfnod ôl-16 wedi ei ddileu.

6.4 **Adroddiad Estyn**

Ym mis Ionawr 2021 cyhoeddodd Estyn adroddiad thematig o'r enw Partneriaethau Ôl-16 sy'n rhoi sylw i'r gwaith partneriaethol strategol ar gyfer addysg ôl-16 mewn ysgolion a cholegau.

Prif ganfyddiadau'r adroddiad yw:

- Yn ôl mwyafrif uwch arweinwyr mewn ysgolion sydd â chweched dosbarth nad yw'r berthynas â'u colegau lleol mor gryf ag ydyw gydag ysgolion eraill ar y cyfan.
- Mae llawer o ddarparwyr yn gweithio gyda'i gilydd yn effeithiol i rannu darpariaeth ôl-16 lle mae dysgwyr o wahanol ddarparwyr yn dod at ei gilydd i ffurfio grwpiau addysgu cyfunol.
- Mewn ychydig o achosion, mae gwahanol gyfundrefnau cynllunio, cyllido a goruchwylio yn rhwystro partneriaethau cynhyrchiol rhwng darparwyr.

Yn yr adroddiad mae Estyn yn cydnabod Consortiwm Gwynedd ac Ynys Môn fel arfer dda.

## 7 CASGLIADAU

7.1 Nodwyd mai ansawdd yr addysg oedd y brif flaenoriaeth a amlygwyd yn y sesiynau ymgysylltu, ynghyd â phwysigrwydd sicrhau bod y profiad hwnnw ar gael i bob dysgwr. Themâu eraill amlwg oedd y Gymraeg a darpariaeth addysg Gymraeg a dwyieithog. Hefyd, yn sgil y pandemig, bu cryn drafod ynghylch technoleg, ble mynegwyd y farn gyffredinol mai dysgu wyneb yn wyneb yw'r profiad addysgol gorau y gall unrhyw ddysgwr ei gael, ond bod yr elfen o ddysgu digidol yn gallu cefnogi'r cyswllt wyneb yn wyneb hwnnw.

7.2 Yn dilyn y cyfnod ymgysylltu anffurfiol, daeth yn amlwg nad oedd awydd i weld canoli neu drydyddu'r ddarpariaeth ar un safle megis Coleg Academaidd neu gyd-leoli gyda Grŵp Llandrillo Menai.

7.3 Dyma yw uchelgais yr Adran Addysg ar gyfer addysg ôl-16 yn Arfon:

- Cyfundrefn addysg ôl-16 sy'n gallu cynnig mwy o gyrsiau wyneb yn wyneb a chyrsiau hybrid gan fod yn llai ddibynnol ar gludo dysgwyr mewn tacsis o un lleoliad i'r llall, er mwyn gwella profiad y dysgwr, ac ymateb i'r sefyllfa bresennol o gyni ariannol, cynnydd mewn costau tanwydd, ynghyd â chyfrannu at leihau ôl-troed carbon.
- Niferoedd priodol o ddysgwyr yn dilyn cyrsiau er mwyn sicrhau profiadau dysgu cyfoethog a chyfleoedd gwerthfawr i rannu profiadau a ffynnu ymysg cyfoedion.
- Amrywiaeth ddigonol yn y dewis o gyrsiau ar gael i bob dysgwr.
- Cymorth bugeiliol, a chymorth personol, iechyd a lles rhagorol i bob dysgwr.
- Buddsoddiad sylweddol yn yr adnoddau a'r is-adeiledd er sicrhau mannau priodol ar gyfer darpariaeth addysgeg hybrid fydd yn gyfrwng i baratoi dysgwyr i fod yn ddysgwyr annibynnol.
- Profiad cyson fyddai'n sicrhau tegwch i'r holl ddysgwr ym mha bynnag safle y maent yn astudio.

7.4 Mae canlyniadau'r ymgysylltu anffurfiol yn arwain yr Adran Addysg i ofyn am ganiatâd gan y Cabinet i wneud gwaith pellach gyda rhan-ddeiliaid sy'n ffurfio Consortiwm Addysg Ôl-16 Gwynedd ac Ynys Môn er mwyn datblygu modelau posib ar gyfer addysg ôl-16 yn Arfon.

## 8 CAMAU NESAF

8.1 Yn ddibynnol ar dderbyn cefnogaeth y Cabinet i wneud gwaith pellach gyda rhan-ddeiliaid sy'n ffurfio Consortiwm Addysg Ôl-16 Gwynedd ac Ynys Môn er mwyn datblygu modelau posib ar gyfer addysg ôl-16 yn Arfon bwriedir bwrw ati'n syth gyda'r gwaith o edrych ar y gyfundrefn bresennol ac ystyriaethau allweddol er mwyn cryfhau'r ddarpariaeth ôl-16 yn Arfon.

8.2 Os bydd y Cabinet yn penderfynu cymeradwyo'r argymhelliad, rhagwelir y bydd adroddiad pellach yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet yn nhymor yr Hydref 2023 er mwyn adrodd yn ôl ar ganlyniadau'r gwaith o ddatblygu modelau posib ar gyfer addysg ôl-16 yn Arfon.

## 9 UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

**Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol**

Mae gan yr Adran Addysg rôl i hyrwyddo nodau llesiant y Ddeddf ymysg dysgwyr y sir drwy ei weithgareddau a'i brosiectau. Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus yng Nghymru i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol. Fel rhan

o'r ddyletswydd mae'r Cyngor wedi cyhoeddi amcanion llesiant sy'n amlinellu sut y byddwn yn gwella llesiant yn "Cynllun Gwynedd 2018-2023". Bwriedir rhoddi ystyriaeth i ofynion y ddeddf llesiant a chynnal asesiad yng nghyd-destun 7 nod llesiant y Ddeddf yn sgil y gwaith pellach i ddatblygu modelau posib ar gyfer darpariaeth ôl-16 Arfon.

**Cydraddoldeb**

Mae gan yr Adran Addysg gyfrifoldeb i hyrwyddo cydraddoldeb ynghyd â dyletswyddau cyffredinol er sicrhau tegwch a meithrin perthnasau da. Mae'r Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor i ystyried effaith unrhyw newid i bolisi neu weithdrefn o'r newydd ar bobl efo nodweddion cydraddoldeb gwarchodedig, sef hil, rhyw, anabledd, iaith, crefydd neu gred ac oedran.

Mae Asesiad Effaith Cydraddoldeb cychwynnol wedi ei lunio fel rhan o'r gwaith o ddarlunio trosolwg cyfredol o'r ddarpariaeth addysg ôl-16 yng Ngwynedd, a bydd yr Asesiad yn cael ei ddiweddaru'n rheolaidd yn sgil trafodaethau pellach. Gweler **Atodiad 1**.

**10 BARN Y SWYDDOGION STATUDOL**

**Y Swyddog Monitro:**

"Mae'r adroddiad yma wedi bod yn destun mewnbwn gan y Gwasanaeth Cyfreithiol . Dim sylwadau i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb."

**Y Swyddog Cyllid Statudol:**

"Y penderfyniad a geisir yw i gynnal trafodaethau pellach er mwyn cynnal gwaith modelu. Heblaw am unrhyw gostau uniongyrchol i ddatblygu'r modelau rwyf yn fodlon na fydd y penderfyniad a geisir yn creu ymrwymiad gwario ynddo'i hun. Bydd y Cabinet angen manylion pellach, gan gynnwys amcangyfrifon ariannol manwl, cyn dod i unrhyw benderfyniad ar y ffordd ymlaen yn dilyn y modelu."

---

**Atodiadau:**

Atodiad 1 - Asesiad Effaith Cydraddoldeb

# Asesu'r Effaith ar Nodweddion Cydraddoldeb, y Gymraeg ac Anfantais Economaidd-Gymdeithasol

Gweler y daflen *Sut i Wneud Asesiad Effaith Cydraddoldeb* am gymorth i lenwi'r ffurflen yma. Mae croeso hefyd i chi gysylltu gyda Delyth Williams, Swyddog Polisi a Chydraddoldeb ar est 32708, neu DelythGadlysWilliams@gwynedd.llyw.cymru, am gymorth pellach.

Mae'n ofynnol i'r Cyngor (dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010) i ystyried yr effaith fydd newid mewn unrhyw bolisi neu weithdrefn (neu greu polisi neu weithdrefn o'r newydd), yn ei gael ar bobl hefo nodweddion cydraddoldeb gwarchodedig. Mae gan y Cyngor hefyd ddyletswyddau cyffredinol ychwanegol i sicrhau tegwch a meithrin perthnasau da. Rhaid felly gwneud asesiad amserol cyn gwneud penderfyniad ar unrhyw newid perthnasol (h.y. sy'n cael effaith ar bobl hefo nodwedd gwarchodedig).

Mae hefyd yn ofynnol i'r Cyngor, dan ofynion Safonau'r Gymraeg (Adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011) ystyried yr effaith fydd newid mewn unrhyw bolisi neu weithdrefn (neu greu polisi neu weithdrefn o'r newydd), yn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac i sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Mae'r ddogfen hon felly yn sicrhau bod y penderfyniadau yma'n diogelu ac yn hyrwyddo'r defnydd a wneir o'r Gymraeg.

O Ebrill 1af 2021 ymlaen mae gan y Cyngor ddyletswydd i roi sylw dyledus i ddod i'r afael ag anfantais economaidd-gymdeithasol mewn penderfyniadau strategol.

## 1) Manylion

### 1.1 Beth yw enw'r polisi / gwasanaeth dan sylw?

Prosiect Addysg Ôl-16 Arfon

### 1.2 Beth ydi pwrpas y polisi/gwasanaeth sy'n cael ei greu neu ei newid? Pa newidiadau sy'n cael eu hystyried?

Dyma yw uchelgais yr Adran Addysg ar gyfer addysg ôl-16 yn Arfon:

- Cyfundrefn addysg ôl-16 sy'n gallu cynnig mwy o gyrsiau wyneb yn wyneb a chyrsiau hybrid gan fod yn llai ddibynnol ar gludo dysgwyr mewn tacsis o un lleoliad i'r llall, er mwyn gwella profiad y dysgwr, ac ymateb i'r sefyllfa bresennol o gyni ariannol, cynnydd mewn costau tanwydd, ynghyd â chyfrannu at leihau ôl-troed carbon.
- Niferoedd priodol o ddysgwyr yn dilyn cyrsiau er mwyn sicrhau profiadau dysgu cyfoethog a chyfleoedd gwerthfawr i rannu profiadau a ffynnu ymysg cyfoedion.

- Amrywiaeth ddigonol yn y dewis o gyrsiau ar gael i bob dysgwr.
- Cymorth bugeiliol, a chymorth personol, iechyd a lles rhagorol i bob dysgwr.
- Buddsoddiad sylweddol yn yr adnoddau a'r is-adeiledd er sicrhau mannau priodol ar gyfer darpariaeth addysgeg hybrid fydd yn gyfrwng i baratoi dysgwyr i fod yn ddysgwyr annibynnol.
- Profiad cyson fyddai'n sicrhau tegwch i'r holl ddysgwr ym mha bynnag safle y maent yn astudio.

### 1.3 Pwy sy'n gyfrifol am yr asesiad yma?

Garem Jackson, Pennaeth Addysg

### 1.4 Pryd wnaethoch chi gychwyn yr asesiad? Pa fersiwn yw hwn?

Fersiwn 3
31 Ionawr 2023

## 2) Gweithredu

### 2.1 Pwy yw'r budd-ddeiliaid neu bartneriaid fydd yn rhaid gweithio hefo nhw i wneud yr asesiad yma?

Byddem yn parhau i gyd-weithio gyda'n partneriaid a rhanddeiliaid y prosiect sy'n edrych ar ddarpariaeth addysg ôl-16 Arfon. Maent yn cynnwys llywodraethwyr, penaethiaid, athrawon a dysgwyr ynghyd a'n partneriaid sy'n ffurfio Consortiwm addysg ôl-16 sef Cyngor Ynys Môn, Grŵp Llandrillo Menai ac Ysgolion Uwchradd Ynys Môn.

### 2.2 Pa gamau ydych chi wedi ei cymryd i ymgysylltu gyda pobl hefo nodweddion gwarchodedig, ynglŷn â'r iaith Gymraeg neu â chymunedau (un ai oherwydd lleoliad neu oherwydd angen) sy'n byw ag anfantais economaidd-gymdeithasol?

Comisiynwyd cwmni Iaith Cyf i gyflawni gwaith ymchwil ar ran yr Adran, gan gynnal cyfweliadau gyda phenaethiaid, grwpiau ffocws gyda dysgwyr, a chasglu barn rhieni a dysgwyr drwy gyfrwng holiaduron, er mwyn cyfoethogi a dilysu'r sylfaen dystiolaeth a gasglwyd o ymchwil pen-desg.

Cyflawnwyd y gwaith rhwng Rhagfyr 2018 ac Ebrill 2019. Mae copi o'r adroddiad Iaith Cyf ar gael ar wefan Moderneiddio Addysg www.gwynedd.llyw.cymru/moderneiddioaddysg.

Dychwelwyd i gyfarfod o'r Cabinet 10 Mawrth, 2020 er mwyn adrodd ar gasgliadau'r gwaith hwnnw ac i dderbyn caniatâd i gychwyn proses ymgysylltu anffurfiol gyda rhan-ddeiliad allweddol er mwyn ystyried y ddarpariaeth bresennol, ac amlygu'r ystyriaethau allweddol er mwyn adnabod y cyfeiriad a chyfleoedd i gryfhau'r ddarpariaeth addysg ôl-16 yn Arfon. Lluniwyd adroddiad manwl sy'n dwyn y pennawd Trosolwg Addysg Ôl-16 fel sail i'r ymgysylltu.

Ym Medi 2020, cynhaliwyd cyfnod o ymgysylltu anffurfiol am 6 wythnos rhwng 10 Tachwedd a 22 Rhagfyr 2020. Adroddwyd ar gasgliadau'r broses Ymgysylltu Anffurfiol gerbron y Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi ar Dydd Iau, 4ydd Chwefror, 2021.

## 2.3 Beth oedd canlyniad yr ymgysylltu?

Lluniwyd adroddiad er mwyn cyflwyno'r ymchwil a gasglwyd fel rhan o waith maes Iaith Cyf - mae'r adroddiad hon i'w chael ar wefan Moderneiddio Addysg.
www.gwynedd.llyw.cymru/moderneiddioaddysg

Lluniwyd adroddiad manwl sy'n dwyn y pennawd Trosolwg Addysg Ôl-16 fel sail i'r ymgysylltu.

Gellir crynhoi'r prif negeseuon o'r broses ymgysylltu anffurfiol isod:

- Y brif flaenoriaeth yw Ansawdd Addysg.
- Y dylid defnyddio TGCh i ategu a chefnogi'r dysgu wyneb yn wyneb.
- Bod Addysg Gymraeg a dwyieithog yn greiddiol bwysig (er y sylwadau i'r gwrthwyneb).
- Y dylid defnyddio'r arian cyfalaf i wella cyfleusterau ein hysgolion uwchradd yn gyffredinol fel bod modd i'r holl ddysgwyr 11-18 oed elwa o'r buddsoddiad.
- Bod gwrthwynebiad cyffredinol i unrhyw fwriad i ganoli neu drydyddu'r ddarpariaeth
- Y cafwyd sawl sylw am ddarpariaeth GLIM o safbwynt ansawdd, cyfrwng, a gofal bugeiliol.

## 2.4 Ar sail pa dystiolaeth arall ydych chi'n gweithredu?

Pwrpas yr ymgysylltu anffurfiol oedd rhoi cyfle i'r holl ran-ddeiliaid a'r cyhoedd gyflwyno sylwadau a syniadau ynglŷn â'r gyfundrefn addysg ôl-16 yn Arfon, o fewn cyd-destun gweledigaeth ac amcanion y Cyngor.

Er mwyn cefnogi'r ymgysylltu, cynhaliwyd cyfarfodydd rhithiol hefo dysgwyr, rhieni, staff a llywodraethwyr er mwyn rhoi cyfle iddynt leisio eu barn a holi unrhyw gwestiynau ynglŷn â'r maes.

Rydym yn gweithredu yn dilyn casglu barn a sylwadau'r rhanddeiliaid yn dilyn y broses hon.

## 2.5 Oes yna unrhyw fylchau yn y dystiolaeth sydd angen ei gasglu?

| |
|---|
| Rhoddwyd cyfle i rhanddeiliaid gael mynegi eu barn ar y ddarpariaeth bresennol yn y cyfnod ymgysylltu anffurfiol. Roedd holiadur ar wefan y Cyngor a chyfeiriad e-bost pwrpasol a chyfle i fynychu cyfarfodydd oedd yn agored i'r cyhoedd er mwyn rhoi barn ar y gyfundrefn bresennol. |

## 3) Adnabod yr Effaith

**3.1 Mae'n rhaid i'r Cyngor roi sylw dyledus i'r effaith fydd unrhyw newidiadau'n ei gael ar bobl hefo nodweddion cydraddoldeb isod. Beth yw'r effaith fydd y polisi/gwasanaeth newydd neu'r newidiadau arfaethedig yn ei gael ar bobl hefo'r nodweddion hyn? Mae hefyd angen ystyried yr effaith ar anfantais economaidd-gymdeithasol ac ar y Gymraeg.**

| **Nodweddion** | **Sut fath o effaith? *** | **Ym mha ffordd? Beth yw'r dystiolaeth?** |
|---|---|---|
| **Hil (gan gynnwys cenedligrwydd)** | - | Cynamserol i adnabod unrhyw effaith ar y pwynt yma. |
| **Anabledd** | - | Cynamserol i adnabod unrhyw effaith ar y pwynt yma. |
| **Rhyw** | - | Cynamserol i adnabod unrhyw effaith ar y pwynt yma. |
| **Oedran** | Positif | Bydd y gwaith yn canolbwyntio ar ddarpariaeth ar gyfer yr oedran ôl-16 –o ganlyniad, beth bynnag fydd cyfeiriad y gwaith, mae'n debygol o gael effaith ar oedrannau16-18. |
| **Cyfeiriadedd rhywiol** | - | Cynamserol i adnabod unrhyw effaith ar y pwynt yma. |
| **Crefydd neu gred (neu ddiffyg cred)** | - | Cynamserol i adnabod unrhyw effaith ar y pwynt yma. |
| **Ailbennu rhywedd** | - | Cynamserol i adnabod unrhyw effaith ar y pwynt yma. |
| **Beichiogrwydd a mamolaeth** | - | Cynamserol i adnabod unrhyw effaith ar y pwynt yma. |
| **Priodas a phartneriaeth sifil** | - | Cynamserol i adnabod unrhyw effaith ar y pwynt yma. |
| **Yr iaith Gymraeg** | - | Cynamserol i adnabod unrhyw effaith ar y pwynt yma. |
| **Anfantais Economaidd-Gymdeithasol** | - | Cynamserol i adnabod unrhyw effaith ar y pwynt yma. |

* I'w ddileu yn ôl yr angen

**3.2 Mae'n ddyletswydd ar y Cyngor dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 i gyfrannu'n bositif i gymdeithas decach trwy hybu cydraddoldeb a pherthynas dda yn ei weithgareddau ym meysydd oedran, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd, hil, trawsrywedd, anabledd a beichiogrwydd a mamolaeth. Mae'n rhaid i'r Cyngor roi sylw dyledus i'r ffordd mae unrhyw newid yn effeithio'r dyletswyddau yma.**

| **Dyletswyddau Cyffredinol y Ddeddf Cydraddoldeb** | **A yw'n cael effaith?*** | **Ym mha ffordd? Beth yw'r dystiolaeth?** |
|---|---|---|
| **Cael gwared â cham-wahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth** | Nac ydi | Cynamserol i adnabod unrhyw effaith ar y pwynt yma. |
| **Hyrwyddo cyfleoedd cyfartal** | Nac ydi | Cynamserol i adnabod unrhyw effaith ar y pwynt yma. Ond byddem yn sicrhau beth bynnag bo cyfeiriad y gwaith ein bod yn hybu a hyrwyddo cyfleoedd cyfartal. |
| **Meithrin perthnasau da** | Nac ydi | Cynamserol i adnabod unrhyw effaith ar y pwynt yma. Ond byddem yn sicrhau beth bynnag bo cyfeiriad y gwaith ein bod yn hyrwyddo meithrin perthnasau da. |

**3.3 Sut mae eich cynnig yn sicrhau eich bod yn gweithio yn unol â gofynion Safonau'r Iaith Gymraeg (Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011), i sicrhau na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg, ac y manteisir ar bob cyfle i hyrwyddo'r Gymraeg (y tu hwnt i ddarparu gwasanaethau'n ddwyieithog) a chynyddu cyfleoedd i ddefnyddio a dysgu'r iaith yn y gymuned?**

| |
|---|
| Cynamserol i adnabod unrhyw effaith ar y pwynt yma, ond byddem yn sicrhau beth bynnag bo cyfeiriad y gwaith ein bod yn gweithio yn unol â gofynion Safonau'r Iaith Gymraeg. (Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011). |

**3.4 Pa fesurau neu newidiadau eraill y gallech eu cynnwys i gryfhau neu newid y polisi / arfer er mwyn cael effaith gadarnhaol ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg, ac i leihau neu atal unrhyw effeithiau andwyol y gallai'r polisi/ymarfer ei gael ar yr iaith Gymraeg?**

| |
|---|
| Cynamserol i adnabod unrhyw effaith ar y pwynt yma. |

**3.5 Sut mae'r cynnig yn dangos eich bod wedi rhoi sylw dyledus i'r angen i fynd i'r afael ag anghyfartaledd o achos anfantais economaidd-gymdeithasol? (Sylwch fod hyn yn ymwneud â chau bylchau anghydraddoldeb yn hytrach na gwella canlyniadau i bawb yn unig).**

| |
|---|
| Cynamserol i adnabod unrhyw effaith ar y pwynt yma. |

**3.6 Pa fesurau neu newidiadau eraill y gallech eu cynnwys i gryfhau neu newid y polisi / arfer i ddangos eich bod wedi rhoi sylw dyledus i'r angen i leihau canlyniadau anghyfartal o ganlyniad i anfantais economaidd-gymdeithasol, yn unol â'r Ddeddf Economaidd-Gymdeithasol?**

| |
|---|
| Cynamserol i adnabod unrhyw effaith ar y pwynt yma. |

* I'w ddileu yn ôl yr angen

## 4) Dadansoddi'r canlyniadau

**4.1 Ydi'r polisi felly'n debygol o gael effaith sylweddol, bositif ar unrhyw un o'r uchod? Beth yw'r rheswm am hyn?**

| |
|---|
| Cynamserol i asesu unrhyw effaith ar gydraddoldeb neu'r Ddyletswydd Gyffredinol. |

**4.2 Ydi'r polisi felly'n debygol o gael effaith sylweddol, negyddol ar unrhyw un o'r uchod? Beth yw'r rheswm am hyn?**

| |
|---|
| Cynamserol i asesu unrhyw effaith ar gydraddoldeb neu'r Ddyletswydd Gyffredinol. |

**4.3 Beth ddylid ei wneud?**

Dewiswch un o'r canlynol:

| | |
|---|---|
| Parhau gyda'r polisi / gwasanaeth gan ei fod yn gadarn | - |
| Addasu'r polisi i ddileu unrhyw rwystrau | - |
| Atal a dileu'r polisi gan fod yr effeithiau niweidiol yn rhy fawr | - |
| Parhau a'r polisi oherwydd gellir cyfiawnhau unrhyw effaith niweidiol | - |
| Dim camau pellach ar hyn o bryd, mae'n gynamserol i benderfynu, neu does dim digon o dystiolaeth | x |

| | |
|---|---|
| | |

**4.4 Os yn parhau hefo'r cynllun, pa gamau fyddwch chi'n cymryd i leihau neu liniaru unrhyw effeithiau negyddol?**

| |
|---|
| Nid oes effaith negyddol wedi ei adnabod ar y cam yma. |

**4.5 Os nad ydych yn gweithredu ymhellach i ddileu neu leihau effeithiau negyddol, esboniwch pam yma.**

| |
|---|
| Nid oes effaith negyddol wedi ei adnabod ar y cam yma. |

## 5) Monitro

**5.1 Pa gamau fyddwch chi'n gymryd i fonitro effaith ac effeithiolrwydd y polisi neu wasanaeth (cynllun gweithredu)?**

| |
|---|
| Bydd yr asesiad hwn yn cael ei ddiweddaru'n rheolaidd wrth i'r gwaith fynd rhagddo. |

# CABINET CYNGOR GWYNEDD

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y cyfarfod:** | **7 Mawrth 2023** |
| **Aelod Cabinet:** | **Y Cynghorydd Nia Jeffreys** |
| **Swyddog Cyswllt:** | **Nia Gruffydd** |
| **Rhif Ffôn Cyswllt:** | **01286 679 461** |
| **Teitl yr Eitem:** | **Cyngor Gwynedd yn Awdurdod Arweiniol ar gyfer LMS Cymru (System Rheoli Llyfrgell)** |

## 1. Y Penderfyniad a geisir:

Gofynnir i'r Cabinet:

Bod Cyngor Gwynedd yn gweithredu fel yr Awdurdod Arweiniol ar gyfer LMS Cymru sy'n golygu:

- Bod Uned Caffael Cyngor Gwynedd yn ymgymryd â'r broses gaffael ar gyfer LMS newydd sy'n golygu caffael system ar fframwaith nid yn unig i Gonsortiwm Llyfrgelloedd gogledd Cymru ond i Awdurdodau Llyfrgell Cymru sy'n awyddus i fod yn aelodau o Gonsortiwm LMS Cymru am gyfnod y cytundeb a fydd yn para am 7 mlynedd o 2023/2024.
- Bod y trefniant LMS Cymru yn seiliedig ar Gytundeb Consortiwm a fydd yn ymrwymo pob aelod i dalu eu cyfran lawn o'r costau, ac unrhyw gostau potensial megis costau diswyddo, am hyd y cytundeb consortiwm newydd.
- Fel rhan o'r Cytundeb Consortiwm, i gyflogi Uned Cefnogaeth LMS wedi ei staffio gan 3 swyddog llawn amser (lleoliad niwtral) am hyd y cytundeb.

## 2. Y rheswm dros yr angen am benderfyniad:

Ar hyn o bryd, mae 20 allan o 22 Awdurdod/Ymddiriedolaeth Llyfrgell yng Nghymru yn rhannu LMS (sy'n galluogi defnyddwyr a staff i chwilio archebu a benthyg adnoddau llyfrgell), a bydd rhaid caffael LMS newydd pan fydd y cytundeb presennol yn dod i ben ddiwedd Rhagfyr 2024.

Mae holl aelodaeth SCL Cymru (Cymdeithas Prif Lyfrgellwyr Cymru) yn awyddus iawn i barhau i rannu system ar gyfer Llyfrgelloedd Cymru a fydd yn gweithredu fel Platfform Digidol Cenedlaethol i Lyfrgelloedd Cymru, gan olygu buddion i ddefnyddwyr o ran datblygu a gwella gwasanaethau.

Er mwyn diogelu buddiannau Gwynedd a Chonsortiwm Llyfrgell gogledd Cymru, a gweithredu er lles Llyfrgelloedd Cymru, rydym yn gofyn i Gyngor Gwynedd ymgymryd â rôl Awdurdod Arweiniol ar gyfer LMS Cymru, neu o fethu gwireddu prosiect LMS Cymru am unrhyw reswm, i ymgymryd a rol Awdurdod Arweiniol ar ran Consortiwm Llyfrgelloedd Gogledd Cymru fel yr ail opsiwn. Byddai hyn yn golygu caffael system trwy fframwaith, ac arwain trefniant consortiwm yn cael ei gefnogi gan Dim Cefnogaeth Systemau, yn cyflogi 3 swyddog llawn amser.

Disgwyliwn gefnogaeth ariannol gan Llywodraeth Cymru i'r prosiect, ac os gwireddir LMS Cymru bydd yn esiampl o brosiect blaenllaw ac arloesol i Gymru a fydd yn sicrhau un prif bresenoldeb digidol i Lyfrgelloedd Cymru - rhywbeth nad yw wedi gallu cael ei wireddu yn y DU hyd yma. Bydd yn fodd i wella perfformiad ac ansawdd gwasanaethau llyfrgell a sicrhau datblygiad parhaus.

Bydd y gost yn gost niwtral i Wynedd. Nid oes un Cyngor arall wedi cynnig ei hun fel Awdurdod Arweiniol.

## 3. Cyflwyniad

Cychwynnwyd ar y prosiect LMS i Gymru gyfan yn 2011, gyda chynllun peilot yn cynnwys 6 Awdurdod Gogledd Cymru (Gwynedd, Ynys Môn, Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Wrecsam) yn ogystal â'r Coleg Addysg Bellach Grŵp Llandrillo Menai. Bwriad y prosiect peilot hwn oedd ymestyn yr LMS yn y pen draw i holl Awdurdodau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru, gyda'r bwriad o gynnig gwasanaeth Llyfrgell o ansawdd uchel i ddefnyddwyr Llyfrgell dros Gymru, yn ogystal â chynnig arbedion sylweddol i'r Awdurdodau Llyfrgell eu hunain.

Roedd LMS i Gymru gyfan yn un o brif flaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar y pryd. Gweithredwyd LMS Cymru fel y daeth i'w adnabod, i 20 o'r 22 awdurdod yng Nghymru, gydag Awdurdodau Merthyr Tudful a Phenfro yn dewis peidio ag ymaelodi hyd yma am resymau penodol ac ymarferol. Rhaid pwysleisio fodd bynnag nad oes strwythur ffurfiol i'r LMS Cymru presennol o ran llywodraethiant.

Rydym yn y broses o negodi estyniad am 12 mis ychwanegol gyda'n cyflenwr presennol er mwyn rhoi amser i roi'r trefniadau priodol mewn lle i gynllunio am LMS Cymru newydd, a fydd yn gweld y cytundeb cyflenwi yn dod i ben yn Rhagfyr 2024.

Llwyddodd SCL Cymru (Cymdeithas y Prif Lyfrgellwyr) i sicrhau cyllid gan Lywodraeth Cymru i gomisiynu cwmni Actica i greu adroddiad ar LMS Cymru ac opsiynau ar gyfer llywodraethu yn y dyfodol. Argymhelliad cryf gan Actica oedd yr angen am Dîm Cefnogaeth Systemau ar gyfer LMS Cymru, i ddisodli'r model ewyllys da anghynaladwy a risg uchel bresennol.

Mae Llyfrgelloedd Gwynedd, fel rhan o Gonsortiwm Llyfrgelloedd gogledd Cymru, yn gweld buddion mawr i fod yn rhan o'r consortiwm presennol, o ran buddion i'r defnyddiwr. Byddai Llyfrgelloedd Gwynedd angen tendro am system LMS newydd pan fydd y cytundeb presennol yn dod i ben Rhagfyr 2024, a'n dymuniad yw caffael ar sail fframwaith nid yn unig i aelodau Consortiwm Llyfrgelloedd gogledd Cymru, ond i weddill Awdurdodau ac Ymddiriedolaethau Llyfrgell Cymru.

Mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi rhoi cefnogaeth ariannol i greu dogfen anghenion system newydd ar gyfer y tendr ac rydym mewn deialog agos gyda hwy ar hyn o bryd o ran cefnogaeth bellach tuag at gostau cyfalaf yr system a chefnogaeth ar gyfer Tim Cefnogaeth Systemau. Mae'r gefnogaeth yma eisoes wedi ei gytuno mewn egwyddor, gan gydnabod fod system gydweithredol fel hon yn greiddiol i ddatblygiad ac ansawdd gwasanaethau Llyfrgell yng Nghymru i'r dyfodol.

## 4. Rhesymeg a Chyfiawnhad dros argymell y penderfyniad

Nid oes yr un Awdurdod arall wedi mynegi awydd i weithredu fel Awdurdod Arweiniol a rydym angen penderfyniad o ran Gwynedd yn gweithredu fel Awdurdod Arweiniol oherwydd y buddion canlynol:

- Galluogi Gwynedd i barhau yn rhan o gonsortiwm gogledd Cymru gan rannu catalog a Rheolwr Systemau er mwyn gwella'r gwasanaeth i'n defnyddwyr
- Gallu rhannu llyfrau a chynnig gwasanaeth llyfrgell gwell i bobl Gwynedd
- Gallu arbed costau prynu llyfrau i ddiwallu galw trwy rannu stoc efo Gwasanaethau Llyfrgelloedd eraill.

- Gallu sicrhau diogelwch systemau a llywodraethiant addas
- Gallu bod yn rhan o drefniant Cymru gyfan a fydd yn gallu denu cefnogaeth Llywodraeth Cymri
- Gallu bod yn rhan o drefniant Cymru gyfan i wella ansawdd gwasanaethau digidol Llyfrgelloedd yn gyffredinol, a sicrhau bod sgiliau allweddol yn cael eu meithrin er mwyn gyrru datblygiadau a gwelliannau digidol yn eu blaen, gan sicrhau un porth digidol i wasanaethau Llyfrgell i'r defnyddiwr.

## 5. Camau nesaf ac amserlen

Y camau nesaf yw llunio Cytundeb Consortiwm a fydd yn cael ei asesu gan Uned Gyfreithiol Conwy (lle mae trefniant yn ei le gogyfer gwasanaethau Cyfreithiol trwy drefniant Uned Lyfryddol Gwynedd, Mon a Chonwy).

Mae Unedau Caffael, Adnoddau Dynol a Cyllid Cyngor Gwynedd yn ymwybodol o'r cais hwn ac wedi cyfrannu i'r broses trwy:

1. Roi cynnig caffael gerbron wedi ei gostio yn llawn – byddai derbyn y cais i Wynedd fod yn Awdurdod Arweiniol yn golygu dros £15k o refeniw i'r Uned Gaffael a £3k o refeniw dilynol am weinyddu'r cytundeb
2. Arfarnu swydd ddisgrifiadau'r Tîm Cefnogaeth Systemau arfaethedig.
3. Weithio ar gostau craidd a chostau gweinyddol – byddai cyfraniad gan yr holl aelodau LMS Cymru yn golygu fod cost niwtral i Wynedd.

Mae'r gwaith o lunio Dogfen Gofynion ar gyfer y tendr wedi ei gwblhau.

Chwefror 2023 – trafodaethau pellach gydag Uned Caffael y Cyngor
Mawrth-Mai 2023 – Cwblhau y dogfennau tendr
Mehefin 2023 – Cyhoeddi'r tendr
Mehefin-Awst 2023 – Cael cytundeb aelodaeth Consortiwm LMS Cymru
Hydref-Rhagfyr – hysbysebu a phenodi swyddogion i'r Uned Gefnogi Systemau
Tachwedd-Rhagfyr 2023 – Dyfarnu'r Tendr i'r cyflenwr buddugol
Ionawr – Rhagfyr 2024 – Adnewyddu neu weithredu'r system newydd

### 6. Unrhyw Ymgynghoriadau a Gynhaliwyd cyn Argymell y Penderfyniad

**Cenedlaethol**
Adroddiad Actica
Ymgysylltu gyda defnyddwyr – Uned Ddigidol WLGA
Dogfen Gofynion – ymgysylltwyd gyda staff a defnyddwyr
Adroddiad Asesiad o'r Farchnad
Trafodaethau gydag aelodau SCL Cymru
Trafodaethau gyda Llywodraeth Cymru

**Lleol**
Trafodaethau gyda Awdurdodau Llyfrgell Gogledd Cymru
Trafodaethau gyda unedau gwasanaethau Cyngor Gwynedd
Uned Caffael Cyngor Gwynedd

**Barn Y Prif Swyddog Cyllid:**

*"Gallaf gadarnhau fod swyddogion Cyllid wedi bod yn rhan o'r drafodaeth wrth baratoi'r adroddiad a byddwn yn parhau i weithio gyda'r Adran Economi a Chymuned fel mae'r cynllun yn datblygu."*

**Barn y Swyddog Monitro:**

*"Dim sylwadau i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb y penderfyniad. Fodd bynnag nodaf gan fod Gwynedd yn awdurdod arweiniol gyfer y prosiect y bydd angen sicrhau fod Gwasanaethau Cyfreithiol Gwynedd yn cael mewnbwn i'r Gytundeb Consortiwm er sicrhau fod buddiannau Gwynedd yn cael eu cydnabod yn y ddogfennaeth."*

**Barn Aelod Lleol**:

# CABINET CYNGOR GWYNEDD

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y cyfarfod:** | **7 Mawrth 2023** |
| **Aelod Cabinet:** | **Y Cynghorydd Nia Jeffreys** |
| **Swyddog Cyswllt:** | **Nia Gruffydd** |
| **Rhif Ffôn Cyswllt:** | **01286 679 461** |
| **Teitl yr Eitem:** | **Lyfrgelloedd Llawn Bywyd – Cynllun Llyfrgelloedd Gwynedd 2023-2028** |

**1. Y Penderfyniad a geisir:**

Cymeradwyo Cynllun Gwasanaeth Llyfrgell Gwynedd – Llyfrgelloedd Llawn Bywyd 2023-2028.

**2. Y rheswm dros yr angen am benderfyniad:**

Rydym am roi cyfeiriad i'r Gwasanaeth am y pum mlynedd nesaf. Yn ôl gofynion Safonau Llyfrgelleodd Cyhoeddus Cymru, disgwylir i bob Awdurdod gael Cynllun Llyfrgell cyfredol ar gael yn gyhoeddus.

**3. Cyflwyniad**

Daeth strategaeth Mwy Na Llyfrau i ben yn 2020. Roedd y strategaeth hon yn rhoi cyfeiriad i'r gwasanaeth Llyfrgell yn sgil Her Gwynedd yn 2016.

Mae'r Gwasanaeth Llyfrgell wrth lunio cynllun newydd wedi ceisio ymateb i anghenion pobl Gwynedd gan ddilyn meddylfryd Ffordd Gwynedd.

Mae Llyfrgelloedd Gwynedd yn cynnal 13 Llyfrgell mewn lleoliadau daearyddol amrywiol o ran maint ac oriau agor ar draws Gwynedd. Mae llyfrgell ym mhob un o'r ardaloedd Adfywio ar wahân i Ddyffryn Peris.

**4. Rhesymeg a Chyfiawnhad dros argymell y penderfyniad**

Mae Llyfrgelloedd yn bwynt cyswllt ffisegol gwerthfawr ar gyfer gwasanaethau'r Cyngor a'r gwasanaeth erbyn hyn yn wasanaeth digidol yn ogystal a gwasanaeth wyneb yn wyneb, gan ddarparu adnoddau ac adnoddau digidol y gall defnyddwyr eu cyrchu o gartref.

Dros y blynyddoedd mae adeiladau Llyfrgelloedd Gwynedd wedi elwa o grantiau cyfalaf trawsnewid Llywodraeth Cymru, gyda Llyfrgelloedd Penygroes a Dyffryn Ogwen yn elwa o grant gwella eleni i ddatblygu Llyfrgell Petha (benthyg eitemau bob dydd a theganau) i gyfarch agenda cynnal cymunedau, amgylchedd a gwrth dlodi.

Mae'r penderfyniad yn cefnogi gweledigaeth a chyfeiriad y Gwasanaeth Llyfrgell am y pum mlynedd nesaf.

**Ddeddf Cydraddoldeb 2010**

Mae'r Cyngor yn ddarostyngedig i dyletswyddau sector gyhoeddus dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 (gan gynnwys dyletswyddau sector gyhoeddus Cymreig). Yn unol a'r dyletswyddau cyfreithiol yma wrth wneud penderfyniadau mae rhaid i'r Cynghorau dalu sylw dyledus i'r angen (1) i ddiddymu gwahaniaethu anghyfreithiol (2) hyrwyddo cyfle cyfartal a (3) meithrin perthnasau da ar sail y nodweddion gwarchodedig. A dall sylw dyledus at y dyletswydd cymdeithasol economaidd dan Adran 1 o'r Ddeddf. Paratowyd asesiad ardrawiad cydraddoldeb sydd wedi ei atodi yn Atodiad 1. Mae gofyn i'r Cabinet ddal sylw at ei ganfyddiadau wrth ddod i benderfyniad. Nid yw yr asesiad yn adnabod unrhyw ardrawiad negyddol penodol yn deillio o'r penderfyniad

**Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ynglŷn a gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'r ddeddf yn gosod dyletswydd llesiant ar gyrff cyhoeddus sydd wedi ei anelu at gyflawni 7 o nodau llesiant sef Cymru sydd yn lewyrchus, gydnerth, iachach, mwy cyfartal gyda cymunedau cydlynus a diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu a sy'n gyfrifol ar lefel byd eang. Mae'r argymhelliad wedi ei baratoi gan ddal sylw at ofynion y Ddeddf.

**5. Camau nesaf ac amserlen**

Rhoi'r cynllun ar waith gan ei hadolygu yn flynyddol.

Byddwn yn ymdrechu i ymateb i heriau cyllidebol gan geisio cynnal gwasanaethau craidd yn y ffordd mwyaf cynaliadwy posib, gan dderbyn gallasai bod effaith ar argaeledd a pha mor aml gellir darparu rhai elfennau o'r cynigion sydd gennym.

Byddwn yn cydweithio a gwasanaethau a sefydliadau allanol er mwyn canfod y dulliau gorau o gynnal gwasanaethau yn y ffordd mwyaf cost effeithiol posib yn y tymor hir.

**6. Unrhyw Ymgynghoriadau a Gynhaliwyd cyn Argymell y Penderfyniad**

Ymgysylltwyd gyda thimau staff y Gwasanaeth Llyfrgell wrth lunio'r cynllun.

Amlinellir ymhellach ar yr ymgysylltu a wnaed gyda defnyddwyr yn y ddogfen Asesiad Cydraddoldeb (wedi'i hatodi) ac ymgysylltwyd hefyd gyda'r Swyddog Cydraddoldeb a'r Swyddog Iaith.

**Barn Y Prif Swyddog Cyllid:**

*"Ni fyddai mabwysiadu'r Cynllun Llyfrgelloedd yma yn creu ymrwymiad gwariant newydd, ac mae'r cynllun yn amlygu'r ffordd bydd y gwasanaeth yn gwneud y gorau o'r adnoddau sydd ar gael iddo. Nid oes gennyf felly sylwadau pellach i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb ariannol."*

**Barn y Swyddog Monitro:**

*"Dim sylwadau i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb".*

**Barn Aelod Lleol**: Dim yn fater lleol.

**CYNGOR GWYNEDD**

**ADRAN ECONOMI A CHYMUNED**

**LLYFRGELLOEDD GWYNEDD**

# Cynllun Llyfrgell 2023-28 – Llyfrgelloedd Llawn Bywyd

## Darparu modd i bawb allu darganfod, dysgu, creu, cymdeithasu a rhannu gwybodaeth a syniadau

### Pwrpas Llyfrgelloedd Gwynedd i Bobl Gwynedd

'Fy helpu i ddod o hyd i'r llyfrau rydw i eisiau'i darllen drwy'r llyfrgell, fy nghartref neu arlein, rhoi mynediad at gyfrifiaduron ac offer TG i mi, fy helpu efo defnyddio TG, darparu gweithgareddau i helpu fi ddysgu neu gymdeithasu, a'm helpu i ffendio gwybodaeth gyfredol am bethau sy'n bwysig i mi. '

## Ffeithiau Allweddol am Lyfrgelloedd Gwynedd yn 2021/22

Mae 29,466 o bobl yn aelodau gyda Llyfrgelloedd Gwynedd

Lawrlwythwyd 59,534 o eitemau yn electronaidd

Benthyciwyd 186,222 o lyfrau ac archebwyd 25,585 llyfr unigol

Mae 96% o ddefnyddwyr yn hollol hapus gyda'r gwasanaeth maent yn dderbyn

Dosbarthwyd 3373 o becynnau Cludo ar alw

Dosbarthwyd dros 1550 o becynnau nwyddau mislif ail-ddefnyddiadwy am ddim

## Ein Safonau Gwasanaeth a'n Gwerthoedd Craidd

Mae ein gwerthoedd craidd yn sail i bopeth a wnawn:

**Cydraddoldeb**
Darparu mynediad i'r rhai na allant ymweld yn bersonol a'u llyfrgell.
Darparu gwasanaeth cyfartal a chynhwysol i'n holl ddefnyddwyr.
Darparu mynediad cyfartal i bawb a chofleidio technoleg ddigidol

**Gonestrwydd ac Ymddiriedaeth**
Cadw enw Llyfrgelloedd Gwynedd am ddibynadwyedd
Parchu data personol ein cwsmeriaid, gan gydymffurfio â Deddfwriaeth ac arfer da

**Perfformiad**
Cynnal diwylliant o reoli perfformiad i sicrhau datblygiad ein staff a gwella ein gwasanaethau.
Ymgysylltu â phobl Gwynedd, gan eu gwneud yn ganolbwynt i wasanaethau perthnasol ac o ansawdd uchel
Gwella ein gwasanaethau trwy ddatblygu ein staff i gyflawni eu potensial llawn a thrwy gydweithio â'n partneriaid
Gwrando ar ein defnyddwyr, staff a phartneriaid er mwyn llywio ein penderfyniadau a'n cynlluniau ar gyfer y dyfodol.

**Cynaliadwyedd**
Darparu a hyrwyddo gwasanaethau y mae pobl eisiau eu defnyddio, gan sicrhau gwerth am arian, gwneud y mwyaf o gyfleoedd cynhyrchu incwm a gweithio mewn partneriaeth a denu buddsoddiad pan fydd yn briodol i wneud hynny.
Gweithio mewn ffordd sy'n ceisio ystyried yr effaith ar yr amgylchedd a'r argyfwng hinsawdd ym mhopeth a wnawn.
Cyfrannu at iechyd a lles ein cymunedau trwy ddarparu mannau cymunedol diogel y gellir ymddiried ynddynt, sydd am ddim ac yn agored i bawb ac sy'n ysbrydoli pobl i ddarllen, dysgu a chael gafael ar ffynonellau gwybodaeth dibynadwy

## Cefndir a Chyd-destun Strategol

Mae gan Awdurdodau Lleol ddyletswydd statudol o dan Ddeddf Llyfrgelloedd Cyhoeddus ac Amgueddfeydd 1964 'i ddarparu gwasanaeth llyfrgell cynhwysfawr ac effeithlon i bawb'. Mae'r Awdurdod Lleol yn gyfrifol am ddarparu gwasanaeth llyfrgell effeithlon sy'n bodloni anghenion trigolion Gwynedd. Wrth ddarparu'r gwasanaeth hwn, rhaid i Awdurdodau Lleol, ymhlith pethau eraill:

- annog oedolion a phlant i wneud defnydd llawn o'r gwasanaeth llyfrgell
- darparu aelodaeth Llyfrgell am ddim i'r rhai sy'n byw, gweithio neu'n astudio yng Ngwynedd gan ddarparu deunyddiau print i'w benthyg heb ddim cost i'r defnyddiwr

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn nodi amcanion llywodraeth Cymru gyda'r nodau isod:

Cymru lewyrchus • Cymru gydnerth • Cymru iachach • Cymru fwy cyfartal • Cymru o gymunedau cydlynol • Cymru â diwylliant bywiog a'r Gymraeg yn ffynnu • Cymru sy'n gyfrifol yn fyd-eang

Wrth lunio’r Cynllun hwn, byddwn yn gweithredu o fewn cyd-destun polisïau a chynlluniau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol, yn cynnwys:-

Cynllun Cyngor Gwynedd 2023-28

Llyfrgelloedd cysylltiedig ac uchelgeisiol: chweched fframwaith ansawdd safonau llyfrgelloedd cyhoeddus Cymru 2017 i 2020
Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru)
Prosiect 2050
Strategaeth Ddiwylliant newydd – i’w gadarnhau




Daeth y strategaeth ddiwethaf, sef Mwy Na Llyfrau, i ben yn Mawrth 2020. Yn dilyn y pandemig a’r cyfnod clo rhwng 2020-2022, gwnaethpwyd rhai newidiadau sylfaenol i ddarpariaeth gwasanaethau Llyfrgell yng Ngwynedd drwy ddileu dirwyon yn gyfangwbl ar lyfrau hwy, ac adolygu ein Gwasanaeth Teithiol gan sefydlu Gwasanaeth Cludo ar alw yn ei le. Gwelwyd amnewid y cerbydau teithiol traddodiadol am gerbydau trydan llai, a fyddai’n gallu darparu Gwasanaeth misol I'r Cartref, a Gwasanaeth Cludo ar alw ac am ddim i holl drigolion Gwynedd.

Yn 2020 daeth Rheolwr Llyfrgelloedd Gwynedd yn gyfrofol am Theatr a Sinema Neuadd Dwyfor ym Mhwllheli, lle lleolir Llyfrgell Pwllheli, gyda’r nod o gryfhau a datblygu’r cydweithio yno a chael un gwasanaeth i’r cyhoedd wedi’i ddarparu gan ddau dim sef y tim Theatr/Sinema a’r tim Llyfrgell.

## ROLAU GWASANAETH LLYFRGELLOEDD GWYNEDD

**Gwasanaeth Llyfrgell Gyhoeddus -** Darperir trwy rwydwaith sirol – oriau agor pob wythnos mewn cromfachau
Llyfrgell Caernarfon (44)
Llyfrgell Bangor (44)
Llyfrgell Porthmadog (37) - cydleolir yn adeilad Byw’n Iach, Glaslyn
Llyfrgell Pwllheli (31 + 12 awr tu allan i oriau staffio sylfaenol) - cydleolir gyda Theatr/Sinema Neuadd Dwyfor
Llyfrgell Dolgellau (31)
Llyfrgell Blaenau Ffestiniog (27.5) - cydleolir yn adeilad Canolfan Maenofferen
Llyfrgell Tywyn (27)
Llyfrgell Abermaw (26)
Llyfrgell Y Bala (20) - cydleolir yn Ysgol Godre’r Berwyn
Llyfrgell Penygroes (16)
Llyfrgell Cricieth (14) - cydleolir yng Nghanolfan Encil y Coed
Llyfrgell Dyffryn Ogwen, Bethesda (15) - cefnogir gan Partneriaeth Ogwen sy’n dal Prydles yr adeilad
Llyfrgell Nefyn (14) - cefnogir gan Cyngor Tref Nefyn sy’n dal Prydles yr adeilad

Mae pob llyfrgell yn cynnig ystod o ddeunyddiau darllen, cyfrifiaduron cyhoeddus a wi-fi. Gall y staff hefyd drefnu sesiynau Cymorth Digidol 1:1 gan ein Llyfrgellwyr proffesiynol.

Cynhelir amseroedd stori a sesiynau Ji Babi Bach i fabanod yn rhai o'r Llyfrgelloedd ynghyd a sesiynau i oedolion fel Clybiau Darllen i Ddysgwyr.

**Gwasanaeth Cludo a Gwasanaeth Cartref** (cerbyd yr un yn weithredol yn ardal Arfon, Dwyfor, Meirionnydd) Cynigir Gwasanaeth Llyfrgell i'r Cartref yn rhad ac am ddim ar sail misol i unigolion nad ydynt yn gallu ymweld a'u llyfrgell, a Gwasanaeth Cludo yn rhad ac am ddim ar alw i bawb yng Ngwynedd.

**Dolen Llyfrgell -** Lleolir y dolen clicio a chasglu yn Hen Institiwt a Llyfrgell Harlech lle mae modd archebu llyfr trwy'r catalog ar-lein, ei gasglu a'i ddychwelyd am ddim trwy'r dolen hwn.

**Llyfrgell Digidol** – Gall defnyddwyr ddefnyddio a lawrlwytho amrywiaeth eang o adnoddau am ddim yn cynnwys e-lyfrau, e-lyfrau llafar ac e-gylchgronau.
Darperir mynediad trwy'r Llyfrgelloedd at wefannau hel achau Find My Past ac Ancestry, a'r wefan TheoryTest Pro, yn ogystal a Learn My Way ac Access to Research.

Gellir hefyd archebu ac adnewyddu eitemau ar-lein ac mae dros 55% o archebion llyfrau bellach yn cael eu gwneud ar-lein.

**Gwasanaeth Llyfrgell Ysgolion** – Trwy Gytundeb Lefel Gwasanaeth gyda'r Adran Addysg, rydym yn darparu Gwasanaeth Llyfrgell i Ysgolion Cynradd Gwynedd lle gall athrawon wneud cais am adnoddau dysgu a lle gall disgyblion fenthyg llyfrau oddi ar Lori Ni, y gwasanaeth teithiol sy'n ymweld a'u hysgol ddwywaith y flwyddyn, ac e-lyfrau trwy ein platfform e-adnoddau.

## EIN PERFFORMIAD

Mae Llyfrgelloedd Gwynedd yn adrodd ar berfformiad yn rheolaidd yng nghyfarfodydd Herio Perfformiad y Cyngor. Ein mesuryddion yw:

1. Ystadegau Benthyg a Defnydd
    a. Benthyciadau llyfrau
    b. Benthyciadau adnoddau digidol
    c. Nifer ceisiadau am lyfrau unigol
2. Arolwg Bodlonrwydd

Rydym yn gwneud hyn trwy adroddiadau benthyciadau misol a chynnal arolygon bodlonrwydd wythnos ar y tro, bedair gwaith y flwyddyn.

Mae'n ofynnol i ni gyflwyno adroddiad blynyddol ar ein perfformiad yn erbyn Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru i Is-adran Diwylliant Llywodraeth Cymru. Dychwelir adroddiad asesu blynyddol i'r Cyngor a chyhoeddir yr adroddiad hwn ar wefan Llywodraeth Cymru a gwefan y Cyngor.

Yn ôl Adroddiad Asesu Blynyddol Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru 2020/21

Mae gan Wynedd bartneriaethau cryf mewn nifer o feysydd blaenoriaeth megis dysgu, iechyd a lles, a phlant a theuluoedd. Mae wedi cynnal ei berfformiad cryf o ran darpariaeth Gymraeg, ac mae'n ymddangos bod y llyfrgell mewn sefyllfa dda i adeiladu ar ei lleyddiannau yn ystod y pandemig a denu mwy o gwsmeriaid hen a newydd.

Rydym yn credu'n gryf yn y budd sy'n dod i bob Gwynedd wrth i wasanaethau a sefydliadau gydweithio gyda'i gilydd. Trwy gydweithio rydym yn gallu datblygu gwasanaethau cryf i ateb anghenion pobl Gwynedd a gwneud y defnydd gorau posib o'n hadnoddau.

Byddwn hefyd yn manteisio ar bob cyfle i gydweithio ar lefel lleol, rhanbarthol a chenedlaethol er mwyn gwneud y defnydd gorau o adnoddau, arbenigeddau a chyllid.

Rydym wedi ymrwymo fel gwasanaeth i Ffordd Gwynedd o weithio a byddwn yn ymgorffori egwyddorion Ffordd Gwynedd yn y ffordd y byddwn yn cynllunio ein gwaith ac yn gweithio yn y dyfodol.

- Byddwn yn dilyn Ffordd Gwynedd o weithio ac yn sicrhau bod pob aelod o staff yn deall beth mae hyn yn ei olygu ac yn cael eu grymuso fel unigolion a thimau i wneud y gorau i bobl Gwynedd yn ôl ein pwrpas a'r galw sydd arnom.
- Byddwn yn adolygu ein perfformiad yn gyson ac yn herio ein hunain i weithredu mewn ffordd mor effeithlon â phosibl, trwy gynnal lefel uchel o wasanaeth. Byddwn yn gwneud hyn drwy fesuryddion perfformiad ac arolygon defnyddwyr rheolaidd.
- Byddwn yn hyrwyddo ein gwasanaethau fel bod pobl Gwynedd yn ymwybodol o'r holl wasanaethau sydd ar gael a sut i gael mynediad atynt.
- Byddwn yn ail-afael yn ethos Ffordd Gwynedd yn dilyn cyfnod y pandemig, yn cynnwys cynnal cyfweliadau gyda'r tîm staff cyfan er mwyn deall teimladau o ran y gwaith ac i ddeall y pethau sy'n effeithio ar staff wrth roi gwasanaeth i bobl Gwynedd. Bydd yr ymatebion yn sail i gynllun gweithredu yn ystod y flwyddyn, ac yn rhoi cyfeiriad i ni o ran yr hyn sydd angen sylw er mwyn gwella'r ffordd rydym yn gweithio a darparu gwasanaeth i bobl Gwynedd.
- Byddwn yn cynnal gweithlu medrus wedi eu hyfforddi ac yn trefnu rhaglen barhaus o hyfforddiant staff, wedi ei chynllunio'n flynyddol.
- Byddwn yn parhau i gydweithio yn rhanbarthol ac yn genedlaethol, gan geisio cyfleoedd i sicrhau gwerth am arian a buddion i ddefnyddwyr
- Byddwn yn sicrhau bod adeiladau ein llyfrgelloedd yn parhau i fod yn groesawgar, yn ddeniadol, yn addas at y diben, yn gynaliadwy, ac ar agor ar adegau priodol.
- Byddwn yn ceisio lleihau unrhyw rwystrau go iawn neu dybiedig sy'n atal pobl rhag cael mynediad at eu llyfrgell leol a'i defnyddio

## Beth Mae Ein Defnyddwyr Yn Ei Ddweud

"Not owning a computer the library is vital to me.  I also read a great deal. Being able to use any library in Gwynedd is wonderful."

"I have used both libraries today in Pwllheli and Caernarfon.  In Caernarfon for a computer course and books, Pwllheli to use the computer and more books. This service is vital for my wellbeing and life progress. Myself, like many would be very disadvantaged without this service and would lose a valuable asset of book reading should it be closed."

"The library helps me a great deal with college work, internet and books."

"Libraries – this is very important when housebound as it helps me through bad days and long nights."



“Thank you so much for the work that you do – it is a really important and life enhancing service that you bring to people and I have enjoyed the range of books you have selected which I wouldn’t have otherwise chosen – really informative and interesting.”

“Ymweliad hyfryd i Lyfrgell Bethesda heddiw efo’r fechan. Awyrgylch braf i blantos bach…digonedd o deganau i chwarae efo fo, a detholiad gwerth chweil o lyfrau plant yn y ddwy iaith. Bosib menthyg teganau hefyd o Lyfrgell y Petha.”

“As I have become more physically disabled I find e-books and digital magazines invaluable. I would not be able to borrow books without them. I recommend the e-services to all my family, friends and their children.”

“I use the computers to try and find a job.”

“Wedi bod yn edrych am gymorth ynglŷn a cerdyn bws...Yn y diwedd galwais yn y llyfrgell a chefais y gwybodaeth cywir a ffurflenni yr oedd angen.”

“I would like to bring to your attention the sterling work done by the library assistant at Tywyn Library. She seeks out new and interesting books for me over a wide range of genres and gives them to my partner to bring to me as I sit in our car. I am disabled and find even the lovely library is too much for me to cope with. (The Library Assistant) makes my life bearable.

## Ein Cynllun Datblygu

O ystyried y cyd-destun strategol a gofynion pobl Gwynedd, byddwn yn ymrwymo i ddatblygu y meysydd isod a’r nodau oddi tanynt fel sail ein Cynllun Llyfrgell am y pum mlynedd nesaf fel bod modd darparu gwasanaeth llyfrgelloedd cynhwysfawr ac effeithlon sy’n gallu addasu i anghenion cyfnewidiol ein defnyddwyr, tra’n ymgorffori amcanion lleol a chenedlaethol.

Rheolir y Gwasanaeth Llyfrgelloedd o fewn Adran Economi a Chymunedau’r Cyngor.



## DARLLEN

**Cymru sy'n fwy cyfartal: Cymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial ni waeth beth fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau (gan gynnwys eu cefndir a'u hamgylchiadau cymdeithasol-economaidd).**

Byddwn yn parhau i osod cefnogi darllen wrth wraidd ein cynnig gwasanaeth. Yn ôl arolygon gwasanaeth, mae tua 60% o ddefnyddwyr yn ymweld â llyfrgelloedd er mwyn benthyg llyfr. Byddwn yn parhau i geisio cynnal cronfa lyfrau gref er mwyn cyflenwi adnoddau priodol er mwyn rhoi'r dewis mwyaf eang o lyfrau i ateb anghenion darllen a dysgu pobl Gwynedd.

| AMCAN | CAM GWEITHREDU |
|---|---|
| **Mynediad at ddeunyddiau darllen cyfoes a pherthnasol** | • prynu llyfrau ac adnoddau newydd yn rheolaidd, gan wneud y gorau o'r arian sydd ar gael trwy gydweithio fel rhan o Gonsortiwm Pryniant Cymru gyfan er mwyn gallu cael y gwerth gorau am arian o ran cyflenwi deunyddiau darllen yn Saesneg ac yn prynu aml-gopïau o eitemau a galw uchel arnynt ar gyfer oedolion a phlant.<br>• Gweithio gyda siopau llyfrau Cymraeg yn lleol er mwyn cytuno ar y telerau gorau ar gyfer darparu adnoddau darllen yn Gymraeg gan bennu siop(au) llyfrau Cymraeg o fewn Gwynedd fel ein darparwyr, a prynu aml-gopïau o eitemau a galw uchel arnynt ar gyfer oedolion a phlant.<br>• Cydweithio gyda Chyngor Llyfrau Cymru i elwa yn llawn o wasanaethau fel gwales siop a ffolio<br>• Bod yn aelod o Gonsortiwm Llyfrgelloedd Gogledd Cymru, gan rannu ein catalog a sicrhau fod pobl Gwynedd yn gallu archebu llyfrau am ddim trwy drefniant rhyng-fenthyca.<br>• Bod yn bartner cynllun LINC er mwyn sicrhau bod mynediad am ddim gan bobl Gwynedd at eitemau yng nghatalogau Colegau Addysg Bellach ac Uwch yng ngogledd Cymru ac y gellir archebu'r eitemau hyn trwy'r Llyfrgell. |
| **Hyrwyddo llyfrau a darllen er pleser a chefnogi llythrennedd cynnar** | • Cynnal amseroedd stori a chan dan ofal staff y Llyfrgell mewn 7 Llyfrgell yn rheolaidd yn ystod tymor ysgol. (Caernarfon, Porthmadog, Pwllheli, Dolgellau, Abermaw, Bethesda a Tywyn)<br>Llyfrgell Caernarfon – Sesiwn Wythnosol<br>Llyfrgell Bethesda – Sesiwn Wythnosol<br>Llyfrgell Pwllheli – Sesiwn pob pythefnos<br>Llyfrgell Porthmadog – Sesiwn pob pythefnos<br>Llyfrgell Tywyn – Sesiwn pob pythefnos<br>Llyfrgell Dolgellau – Sesiwn misol<br>Llyfrgell Abermaw – Sesiwn misol<br>• Cydweithio gyda phartneriaid – Cymraeg i Blant - er mwyn cynnal amseroedd stori yn rheolaidd 2 Lyfrgell (Bangor, Blaenau)<br>• Cynnal sesiynau Ji Babi Bach dan ofal staff y Llyfrgell mewn 2 Lyfrgell yn wythnosol yn ystod tymor ysgol yn Llyfrgell Caernarfon a Llyfrgell Pwllheli<br>• Bod yn bartner gyda Booktrust Cymru i ddarparu cynllun Dechrau Da a chydweithio gyda'r Gwasanaeth Ymwelwyr Iechyd er mwyn sicrhau fod pecynnau Babanod a Blynyddoedd Cynnar yn cael eu rhoi i deuluoedd trwy'r cynllun Dechrau Da |

| | |
|---|---|
| | • Cymryd rhan ymewn cynlluniau cefnogi teuluoedd megis y Cynllun Cyfuno gan ddarparu sesiynau cefnogol Dysgu Teulu,a  chynlluniau SHEP (Adran Addysg)<br>• Gweithio mewn partneriaeth gyda'r Uned Blynyddoedd Cynnar ar brosiectau hybu darllen a llythrennedd<br>• Cynnal rhaglen o weithgareddau Hwyl Haf i balnt a theuluoedd yn y llyfrgelloedd yn ystod gwyliau'r haf yn rhad ac am ddim<br>• Annog plant 4-12 oed i barhau i ddarllen llyfrau dros gyfnod gwyliau'r haf drwy gymryd rhan yn y Sialens Ddarllen Haf a gweithio gyda rhanddeiliaid i hyrwyddo'r Sialens Ddarllen Haf genedlaethol ym mhob llyfrgell.<br>• Hyrwyddo darllen er pleser i oedolion ac yn annog oedolion i ehangu eu dewisiadau a phrofiadau darllen, er lles personol a dysgu, ac yn gwneud hyn drwy gefnogi grwpiau darllen trwy roi mynediad am ddim iddynt o'n cyfleusterau llyfrgell a chyrchu setiau darllen ar eu cyfer.<br>• Cynnal gweithgareddau clwb darllen/paned a sgwrs i oedolion lle rhoddir pwyslais ar ddenu dysgwyr |
| **Hyrwyddo cynhwysiant a mynediad cyfartal** | • Cynnal casgliadau LDHT dynodedig yn Llyfrgelloedd Caernarfon a Bangor |
| **Hyrwyddo mynediad at lyfrau mewn fformatiau gwahanol ac ehangu mynediad** | • Darparu adnoddau digidol megis e-lyfrau llafar, e-lyfrau ac e-gylchgronau i oedolion a phlant yn Gymraeg a Saesneg trwy'r cynnig cenedlaethol<br>• Cydweithio gyda Cymdeithas y Deillion Gogledd Cymru i ddarparu e-lyfrau llafar yn Gymraeg i oedolion a phlant i Lyfrgelleodd Cymru a hwyluso argaeledd e-lyfrau llafar Cymraeg ar y platfform cenedlaethol yn yr un modd.<br>• Darparu Gwasanaeth Llyfrgell i'r Cartref misol i bawb sydd yn methu ymweld a'u llyfrgell eu hunan, gan ddarparu deunydd darllen i ateb gofynion unigol ar ffurf print, print bras a llafar.<br>• Darparu Gwasanaeth Cludo llyfrau ar alw i bawb sydd ei angen i'r cartref yn rhad ac am ddim a galluogi pobl i archebu llyfrau trwy ffon/e-bost ac ar-lein |
| **Cyflenwi Gwasanaeth Llyfrgell i Ysgolion Cynradd** | • Byddwn yn parhau i weithio gydag Adran Addysg y Cyngor i ddarparu CLG ar gyfer cyflenwi gwasanaeth llyfrgell i ysgolion Cynradd gyda'r pwyslais ar ddarparu deunyddiau darllen hamdden o'r safon uchaf i ddisgyblion ac adnoddau dysgu safonol a chreadigol i athrawon. |

## IECHYD A LLES

**Cymru iachach: Cymdeithas lle mae llesiant corfforol a meddyliol pobl cystal â phosibl a lle deellir dewisiadau ac ymddygiadau sydd o fudd i iechyd yn y dyfodol.**

Rydym yn credu fod llesiant pobl Gwynedd yn graidd i waith Llyfrgelloedd Gwynedd. Mae Llyfrgelloedd yn lleoliadau hygyrch, diogel a chroesawgar sydd wrth galon cymunedau, ac rydym eisiau i bobl deimlo'n rhan o'u cymuned wrth ddefnyddio'r gwasanaeth llyfrgell. Mae Llyfrgelloedd yn fannau cymdeithasu, ac rydym hefyd yn darparu gofod tawel i bobl ymlacio, gweithio ac astudio.

Mae Llyfrgelloedd Gwynedd yn helpu pobl Gwynedd i gymryd camau cadarnhaol er mwyn rheoli eu hiechyd a lles eu hunain trwy ddarparu gwybodaeth a gwasanaethau cyngor mewn partneriaeth â sefydliadau eraill.

Credwn hefyd fod gan Llyfrgelloedd Gwynedd rôl i ddarparu cyfleoedd a gweithgareddau lle gall pobl ddod at ei gilydd er mwyn lleihau effeithiau unigrwydd.

| AMCAN | CAM GWEITHREDU |
|---|---|
| **Annog cynaliadwyedd a threchu tlodi** | • Datblygu partneriaeth weithio gadarn gyda Benthyg a Dolan er mwyn cynnal gwasanaeth benthyg eitemau bob dydd – Petha- yn Llyfrgelloedd Dyffryn Ogwen, Penygroes a Blaenau Ffestiniog.<br>• Ehangu Petha drwy ddatblygu gwasanaeth Cludo Petha a gwasanaeth benthyg gwisgoedd ysgol<br>• Darparu nwyddau mislif am ddim yn y llyfrgelloedd<br>• Hyrwyddo adeiladau llyfrgell fel mannau croeso cynnes er mwyn lleihau effeithiau costau byw mewn cyfnod o argyfwng ynni<br>• Darparu cyfleoedd i oedolion gymdeithasu drwy ddarparu gweithgareddau ar sail galw mewn e.e. gemau bwrdd, lliwio, paned |
| **Cefnogi llesiant trwy lyfrau** | • Cynnal a hyrwyddo y cynlluniau Darllen yn Well yn y meysydd isod ar draws Llyfrgelloedd Gwynedd – Dementia, Iechyd Meddwl, Iechyd Meddwl Plant, Iechyd Meddwl Pobl Ifanc<br>• Cynnal casgliad Help Llaw Mewn Llyfr, sy'n gasgliad o lyfrau i blant a theuluoedd a all helpu mewn sefyllfaoedd anodd neu arbennig. Byddwn yn cynnal casgliad canolog a dau gasgliad lloeren yn Llyfrgell Caernarfon a Llyfrgell Bangor.<br>• Cydweithio gydag unedau gwasanaeth o fewn Cyngor Gwynedd gyda'r nod o weithio gyda'n gilydd i wella defnydd a mynediad at wasanaethau llesiant o fewn Gwynedd ac i annog pobl i wella eu llesiant personol trwy'r pum ffordd at les, i hyrwyddo a hybu cydweithio er mwyn gwneud y dfenydd gorau a mwyaf effeithiol o adnoddau ac i leihau dyblygu.<br>• Byddwn yn buddsoddi mewn adnoddau i ddefnyddwyr gydag anableddau ac anawsterau dysgu, megis casgliad Bag Books<br>• Cydweithio gyda sefydliadau eraill i ddatblygu ein cynigion iechyd a lles i gynulleidfaoedd amrywiol, yn cynnwys pobl hŷn a phobl sy'n byw gyda dementia a datblygu adnodd Bocsys Atgofion a chreu ein Llyfrgelloedd yn llefydd Dementia gyfeillgar.<br>• Datblygu ein cynnig Croeso Cynnes sy'n rhoi gofod anffurfiol i bobl alw yn eu llyfrgell a chymdeithasu mewn awyrgylch groesawus ac anffurfiol. |
| **Annog cyfranogiad** | • Byddwn yn parhau i gynnal cyfleon profiadau gwaith ac ystyried ceisiadau gwirfoddoli yn unol a'n Polisi.<br>• Datblygu ardal y Caban Llyfrgell yn Llyfrgell Dolgellau fel gofod gweithgareddau a dysgu i blant ac oedolion. |
| **Ymateb i Flaenoriaethau Llywodraeth Cymru** | • Cynnal ymwybyddiaeth o strategaethau a blaenoriaethau lleol a chenedlaethol a chyrchu cyfleoedd cydweithio e.e Gwynedd Oed Gyfeillgar |
| **Ymateb i'r Argyfwng Hinsawdd** | • Symud o gerbydau disl i gerbydau trydan i gyflwnwi'r gwasanaeth Cludo<br>• Datblygu is-grŵp o staff y llyfrgell i fwrw golwg dros ein dull o weithio ac i wneud argymhellion o sut gallwn weithio mewn ffordd fwy amgylcheddol gyfeillgar<br>• Datblygu partneriaeth gyda Cyfoeth Naturiol Cymru i weithio ar rwydwaith Llyfrgelloedd Gwyrdd<br>• Gadael i'r gwair dyfu heb ei dorri rhwng diwedd Mawrth a diwedd Awst yn Llyfrgelloedd Caernarfon a Dolgellau ac annog hau gyda hadau blodau gwyllt.<br>• Datblygu a chynnal gardd lesiant yn Llyfrgell Dyffryn Ogwen |

| | |
|---|---|
| | • Datblygu llecyn gwyrdd a gardd wyllt yn Llyfrgell Dolgellau |

## IAITH GYMRAEG A DIWYLLIANT

**Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu: Cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg ac sy'n annog pobl i gyfranogi yn y celfyddydau, a chwaraeon a gweithgareddau hamdden.**

Credwn fod gan Lyfrgelloedd Gwynedd rôl bwysig mewn hyrwyddo ymwybyddiaeth o'r diwylliant Cymraeg a Chymreig a'r defnydd o'r iaith Gymraeg, er mwyn cefnogi ac adlewyrchu ein hunaniaeth cenedlaethol a'n diwylliant unigryw. Gall llyfrgelloedd chwarae rhan allweddol trwy gefnogi pobl i ddysgu a siarad Cymraeg, cael mynediad at adnoddau darllen a gwybodaeth yn Gymraeg, dysgu am ein diwylliant a'n treftadaeth a chymryd rhan mewn gweithgareddau diwylliannol Cymraeg a Chymreig.

Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid allweddol i sicrhau fod adnoddau Cymraeg ar gael i gefnogi pob math o anghenion darllen a gwybodaeth, ac i gefnogi anghenion defnyddwyr sydd angen mynediad at lyfrau a deunyddiau eraill yn Gymraeg mewn gwahanol fformatiau.

Drwy ddarparu mynediad at lyfrau ac adnoddau Cymraeg, yn ogystal a gweithgareddau yn Gymraeg, byddwn yn cyfrannu at uchelgais Llywodraeth Cymru i gynyddu'r nifer o bobl sy'n dysgu a siarad Cymraeg ac sy'n gweld budd mewn dysgu a siarad Cymraeg er mwyn gwella sgiliau a chyfleoedd gwaith, a chryfhau ymdeimlad o hunaniaeth cenedlaethol.

Mae canran uchel o boblogaeth Gwynedd yn siaradwyr Cymraeg, gyda 75.5% yn nodi eu bod yn gallu siarad Cymraeg.[1]


Mae data Llyfrgell yn dangos fod benthyciadau llyfrau Cymraeg gan blant dan 7 oed yn aml yn goddiweddyd benthyciadau llyfrau Saesneg.

| AMCAN | CAM GWEITHREDU |
|---|---|
| **Hyrwyddo'r Gymraeg fel iaith fyw** | • Cydweithio gyda swyddogion Iaith y Cyngor i gynnal cyrsiau i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a sicrhau fod polisi Iaith y Cyngor yn cael ei weithredu'n llawn.<br>• Sicrhau fod gweithgareddau i blant a theuluoedd unai yn cael eu cynnal yn uniaith Gymraeg neu yn ddwyieithog gyda'r pwyslais ar y Gymraeg fel y prif iaith.<br>• Sicrhau fod blaenoriaeth yn cael ei roi i weithgareddau oedolion lle croesawir ac anogir Dysgwyr Cymraeg i gymryd rhan.<br>• Darparu a chynnal casgliadau dynodedig o adnoddau Dysgu Cymraeg ym mhob llyfrgell<br>• Cynnal casgliad hanes lleol a chasgliad cylchgronau yn ein prif Storfeydd a sicrhau fod gwybodaeth am y casgliadau ar gael i ddefnyddwyr.<br>• Cydweithio gyda Hunaniaith ar gynlluniau a gweithgareddau penodol yn y Llyfrgelloedd i ddenu teuluoedd<br>• Cydweithio gyda Chanolfan Dysgu Cymraeg Prifysgol Bangor i ddenu dysgwyr i ymuno a'n grwpiau darllen wedi gorffen bloc o gyrsiau dysgu Cymraeg. |

[1] https://statswales.gov.wales/Catalogue/Welsh-Language/Annual-Population-Survey-Welsh-Language/annualpopulationsurveyestimatesofpersonsaged3andoverwhosaytheycanspeakwelsh-by-localauthority-measure

| | |
|---|---|
| **Hyrwyddo argaeledd deunyddiau ac adnoddau Cymraeg** | • Bydd Llyfrgelloedd Gwynedd yn parhau i gymryd rôl arweiniol wrth weinyddu'r cynllun Llyfrau Print Bras Cymraeg ar ran Llyfrgelloedd Cymru, trwy gydlynu cynllun argraffu llyfrau Print Bras Cymraeg gyda'r bwriad o sicrhau dod adnoddau print bras ar gael yn Gymraeg i'r defnyddwyr hynny sy'r cael trafferth darllen print maint arferol.<br>• Byddwn yn cydweithio gyda Chymdeithas y Deillion Gogledd Cymru i sicrhau fod llyfrau llafar Cymraeg ar gael i'w benthyg trwy Lyfrgelloedd Cymru ac yn ddigidol trwy'r platfform digidol cenedlaethol.<br>• Byddwn yn cynnal adnoddau llyfrau o werth hanesyddol trwy ein casgliad Llyfrau Plant 19g a'r 20g a gedwir yn y brif Storfa Llyfrgell yng Nghaernarfon |
| **Hyrwyddo diwylliant Cymru** | • Cynnal Darlith Flynyddol Llyfrgell Penygroes mewn cydweithrediad a Chymdeithas Hanes Dyffryn Nantlle<br>• Cynnal Darlith Goffa Dafydd Orwig yn flynyddol yn Llyfrgell Dyffryn Ogwen<br>• Cydweithio gyda Casgliad y Werin i adnabod cynnwys i'r wefan, gan hyfforddi staff y gwasanaeth i allu gwneud hyn ac ychwanegu lluniau a chynnwys digidol sy'n cyd-fynd a'r amcanion strategol.<br>• Bod yn rhan o gynllun BFI Replay sef gwasanaeth darparu cynnwys fideo o'r Archif trwy Lyfrgelloedd yn unig.<br>• Byddwn yn cefnogi'r diwydiant ymwelwyr trwy fod yn ffynhonnell wybodaeth lleol ddibynadwy i ymwelwyr, a thrwy gyfeirio defnyddwyr at wefan Ymweld ag Eryri trwy'r ciosgs gwybodaeth yn Llyfrgelloedd Pwllheli, Bangor, Caernarfon a Dolgellau |

## GWYBODAETH A DIGIDOL



**Cymru o gymunedau cydlynus: Cymunedau atyniadol, hyfyw a diogel sydd â chysylltiadau da**

Mae gwybodaeth gyfredol yn gynyddol i'w ganfod ar-lein yn unig, a symudiad gan asiantaethau, sefydliadau, Llywodraeth Leol a Llywodraeth Ganol tuag at wasanaethu ar-lein yn unig. Rydym yn credu fod rôl llyfrgelloedd yn hanfodol wrth gynorthwyo pobl Gwynedd i ddod o hyd i'r wybodaeth mwyaf dibynadwy, perthnasol a chyfredol maent angen, a bod gyda'r sgiliau digidol angenrheidiol sydd ei angen ar gyfer cyrchu unrhyw wybodaeth ar-lein. Er mwyn sicrhau fod pobl Gwynedd yn cael y gwasanaeth a'r budd mwyaf o'u llyfrgell, credwn bod rhaglen o hyfforddiant staff parhaus yn allweddol, a byddwn yn buddsoddi amser, egni ac adnoddau yn y maes hwn dros y pum mlynedd nesaf.

| AMCAN | CAM GWEITHREDU |
|---|---|
| **Darparu cyfleoedd dysgu i oedolion trwy'r Grant Dysgu Cymunedol** | • Gweinyddu'r grant Addysg Gymunedol Oedolion a ddarperir trwy Llywodraeth Cymru a chydweithio gyda darparwyr a phartneriaid drwy'r Bartneriaeth Dysgu Cymunedol Gwynedd ac Ynys Mon i adnabod anghenion am gyrsiau yn lleol a datblygu partneriaethau lleol i gryfhau cyfleon dysgu i oedolion.<br>• Cydweithio ar lefel cenedlaethol a rhanbarthol i ddatblygu a hyrwyddo cyfleoedd dysgu a denu oedolion nol i addysg bellach trwy gymryd rhan mewn digwyddiadau fel Gwyl Ddysgu Gogledd Cymru. |
| **Sicrhau fod cyfleoedd, cymorth a chefnogaeth digidol** | • Darparu modd i ddefnyddwyr gael cymorth arbenigol ychwanegol trwy neilltuo amser yn y sesiynau Cymorth Digidol 1:1 yn y llyfrgelloedd sydd ar |

| | |
|---|---|
| **ar gael i ddefnyddwyr** | agor 20 awr a rhagor (9 Llyfrgell) yn ogystal a chynnig ymweliadau cartref/galwad ffon/rhithiol i'r rhai hynny sy'n methu ymweld a'u llyfrgell.<br>• Sicrhau ein bod yn gweithio gyda phartneriaid a rhanddeiliaid allweddol i sicrhau fod gan staff y sgiliau a'r wybodaeth ddiweddaraf i gefnogi defnyddwyr yn ddigidol<br>• Datblygu sesiynau a modiwlau dysgu ein hunain trwy'r Swyddog Digidol a Dysgu i sicrhau fod sgiliau a gwybodaeth y tim staff yn cael ei gadw'n gyfredol<br>• Cynnal hwb VR yn Llyfrgelloedd Caernarfon a Phenygroes a gweithio gyda phartneriaid a rhanddeiliaid i gynnal sesiynau i bobl ifanc<br>• Datblygu tudalen flaen cyfrifiaduron cyhoeddus er mwyn pwyntio defnyddwyr at ffynonellau gwybodaeth ddibynadwy dan wahanol feysydd allweddol<br>• Datblygu sesiynau Clybiau Codio a Lego yn y llyfrgelloedd mwyaf a gweithio gyda pharneriaid allweddol i uchafu cyfleoedd gwirfoddoli. |
| **Sicrhau fod offer TG a chyfleusterau digidol addas ar gael yn ein Llyfrgelloedd** | • Gwella'r ddarpariaeth cyfrifiaduron cyhoeddus ym mhob un Llyfrgell a wi-fi am ddim ym mhob un Llyfrgell yn ystod oriau agor y Llyfrfgell<br>• Adnabod bylchau a chreu mwy o bwyntiau USB yn y llyfrgelloedd lle bo hynny'n bosib.<br>• Darparu argraffu di-wifr ym mhob llyfrgell<br>• Darparu peiriant cerdyn/contactless fel dull talu yn Llyfrgelleodd Caernarfon a Bangor ac edrych i ymestyn y ddarpariaeth i lyfrgelloedd eraill yn ôl y galw.<br>• Cymryd rhan flaenllaw yn y broses o dendro ar gyfer LMS (system rheoli llyfrgelloedd) newydd i Gymru a chydweithio fel rhan o Gonsortiwm Llyfrgelloedd Gogledd Cymru i arwain ar y cynnig o greu LMS Cymru, yn cynnwys gwneud cais i Gwynedd fod yn Awdurdod Arweiniol a fydd hefyd yn gwneud y gwaith caffael ar ran awdurdodau Llyfrgell Cymru. |
| **Darparu e-adnoddau ac adnoddau digidol o'r radd flaenaf** | • Sicrhau fod mynediad at e-adnoddau yn cynnwys e-lyfrau, e-lyfrau llafar, e-gylchgronau yn Gymraeg a Saesneg i oedolion a phlant, a chydweithio gyda phartneriaid a rhanddeiliaid i sicrhau fod adnoddau digidol ar gael yn Gymraeg i lyfrgelloedd.<br>• Sicrhau mynediad am ddim at wefannau hel achau arlein<br>• Cydweithio gyda Casgliad y Werin i adnabod cynnwys i'r wefan, gan hyfforddi staff y gwasanaeth i allu gwneud hyn ac ychwanegu lluniau a chynnwys digidol sy'n cyd-fynd a'r amcanion strategol.<br>• Cydweithio gyda BFI ar y cynllun Replay sef gwasanaeth darparu cynnwys fideo o'r Archif trwy Lyfrgelloedd yn unig. |
| **Hyrwyddo Gwasanaethau Llyfrgell** | • Cynnal swydd Swyddog Digidol a Dysgu llawn amser er mwyn cynnal cyfrifon cyfryngau cymdeithasol Llyfrgelleodd Gwynedd yn cynnwys facebook, twitter, Instagram a Tik Tok |

# Asesu'r Effaith ar Nodweddion Cydraddoldeb, y Gymraeg ac Anfantais Economaidd-Gymdeithasol

Gweler y daflen *Sut i Wneud Asesiad Effaith Cydraddoldeb* am gymorth i lenwi'r ffurflen yma. Mae croeso hefyd i chi gysylltu gyda Delyth Williams, Swyddog Polisi a Chydraddoldeb ar est 32708, neu DelythGadlysWilliams@gwynedd.llyw.cymru, am gymorth pellach.

Mae'n ofynnol i'r Cyngor (dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010) i ystyried yr effaith fydd newid mewn unrhyw bolisi neu weithdrefn (neu greu polisi neu weithdrefn o'r newydd), yn ei gael ar bobl hefo nodweddion cydraddoldeb gwarchodedig. Mae gan y Cyngor hefyd ddyletswyddau cyffredinol ychwanegol i sicrhau tegwch a meithrin perthnasau da. Rhaid felly gwneud asesiad amserol cyn gwneud penderfyniad ar unrhyw newid perthnasol (h.y. sy'n cael effaith ar bobl hefo nodwedd gwarchodedig).

Mae hefyd yn ofynnol i'r Cyngor, dan ofynion Safonau'r Gymraeg (Adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011) ystyried yr effaith fydd newid mewn unrhyw bolisi neu weithdrefn (neu greu polisi neu weithdrefn o'r newydd), yn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac i sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Mae'r ddogfen hon felly yn sicrhau bod y penderfyniadau yma'n diogelu ac yn hyrwyddo'r defnydd a wneir o'r Gymraeg.

O Ebrill 1af 2021 ymlaen mae gan y Cyngor ddyletswydd i roi sylw dyledus i ddod i'r afael ag anfantais economaidd-gymdeithasol mewn penderfyniadau strategol.

## 1) Manylion

### 1.1 Beth yw enw'r polisi / gwasanaeth dan sylw?

Llyfrgelloedd Llawn Bywyd – Cynllun Gwasanaeth Llyfrgelloedd Gwynedd 2023-28

### 1.2 Beth ydi pwrpas y polisi/gwasanaeth sy'n cael ei greu neu ei newid? Pa newidiadau sy'n cael eu hystyried?

Pwrpas y cynllun yw gosod allan ein gweledigaeth a'n meysydd blaenoriaeth a datblygu am y pum mlynedd nesaf ar gyfer y Gwasanaeth Llyfrgelloedd.
Ein pwrpas - Fy helpu i ddod o hyd i'r llyfrau rydw i eisiau'i darllen drwy'r llyfrgell, fy nghartref neu arlein, rhoi mynediad at gyfrifiaduron ac offer TG i mi, fy helpu efo defnyddio TG, darparu gweithgareddau i helpu fi ddysgu neu gymdeithasu, a ffendio gwybodaeth gyfredol am bethau sy'n bwysig i mi.'

**1.3 Pwy sy'n gyfrifol am yr asesiad yma?**

| |
|---|
| Nia Gruffydd, Rheolwr Llyfrgelloedd |

**1.4 Pryd wnaethoch chi gychwyn yr asesiad? Pa fersiwn yw hwn?**

| |
|---|
| 22 Rhagfyr 2022 fersiwn 1<br>Ionawr 2023 fersiwn 2<br>Chwefror 2023 – fersiwn 3 |

## 2) Gweithredu

**2.1 Pwy yw'r budd-ddeiliaid neu bartneriaid fydd yn rhaid gweithio hefo nhw i wneud yr asesiad yma?**

Mae'r cynllun wedi ei lunio ar y cyd gyda'r Tim Llyfrgell ac yn seiliedig ar ymgysylltu parhaus gyda staff a defnyddwyr trwy:

1. Cyfweliadau staff a gynhaliwyd fel rhan o ymarferiad Ffordd Gwynedd yn ystod haf a hydref 2022.
2. Arolygon Bodlonrwydd sy'n cael eu cynnal yn barhaus gyda defnyddwyr llyfrgell, ac ar-lein gyda defnyddwyr a'r rhai nad ydynt yn ddefnyddwyr llyfrgell.
3. Rhanddeiliaid a Phartneriaid o fewn y Cyngor ac yn allanol
4. Ymgynghoriadau neu ymgysylltu penodol gyda defnyddwyr gwasanaeth ar wahanol adegau

**2.2 Pa gamau ydych chi wedi ei cymryd i ymgysylltu gyda pobl hefo nodweddion gwarchodedig, ynglŷn â'r iaith Gymraeg neu â chymunedau (un ai oherwydd lleoliad neu oherwydd angen) sy'n byw ag anfantais economaidd-gymdeithasol?**

Fel rhan o newidiadau gwasanaeth rydym wedi bod yn eu gwneud ers 2020 a chyn llunio'r Cynllun hwn, rydym wedi bod yn ymgysylltu yn benodol a defnyddwyr y gwasanaeth teithiol a'r gwasanaeth cartref.
Ymgysylltwyd a defnyddwyr hefyd gyda'r cynnig i ddileu dirwyon ar lyfrau hwyr – ond bu cyfyngiadau'r cyfnod clo yn llestair i wneud hyn mor effeithiol a allwyd.
Rydym hefyd wedi bod yn ymgysylltu a'r cyhoedd mewn ardaloedd penodol wrth adolygu ein gwasanaeth o ran oriau agor llyfrgelloedd unigol.
Rydym yn cynnal arolygon bodlonrwydd yn rheolaidd gyda'n defnyddwyr a'r rhai nad ydynt yn ddefnyddwyr ac yn cadw log o sylwadau er mwyn monitro camau gwella a gymerir mewn ymateb i'r sylwadau hynny.

Rydym yn cywain barn defnyddwyr a mynychwyr gweithgareddau llyfrgell o ran anghenion grwpiau penodol, er enghraifft, plant a theuluoedd, dysgwyr Cymraeg, ac yn cydweithio'n agos gyda phartneriaid fel Dysgu Cymraeg i Oedolion a Cymraeg i Blant.
Rydym yn gweithio gyda rhanddeiliaid o ran cynhyrchu adnoddau i'r rhai sydd a nam golwg, yn benodol Cymdeithas y Deillion Gogledd Cymru.
Trwy ein cydweithio gyda Dolan, gwnaed ymgynghori eang gyda'r cymunedau dan sylw yn Nyffryn Ogwen, Dyffryn Nantlle a Blaenau Ffestiniog o ran y cynllun Petha o ran angen a fforddiadwyedd.

## 2.3 Beth oedd canlyniad yr ymgysylltu?

Canlyniad yr ymgysylltu oedd penderfynu ar fodel benthyg Petha yn y tri hwb Petha yn Llyfrgelloedd Dyffryn Ogwen, Penygroes a Blaenau Ffestiniog lle mae teganau yn cael eu benthyg yn rhad ac am ddim, ac eitemau eraill am ffi bychan. Arweiniodd yr ymgysylltu hefyd at benderfyniadau ynghylch y math o eitemau roedd defnyddwyr am eu gweld ar gael.

Canlyniad yr adolygiad oriau oedd newid oriau agor rhai Llyfrgelloedd er mwyn bod yn fwy hygyrch mewn ymateb i ddymuniadau ein defnyddwyr.

Canlyniad yr ymgysylltu Gwasanaeth Teithiol a wnaed yn bennag gydag unigolion hŷn oedd symud i fodel newydd o gerbydau llai yn darparu gwasanaeth cludo i'r cartref ar gais ac ar alw.

Ymgysylltwyd gyda holl staff y Gwasanaeth Llyfrgell trwy gyfweliadau wyneb yn wyneb ar fodel ymgysylltu Ffordd Gwynedd. Dangosodd yr ymgysylltu hwn beth oedd staff yn deimlo am y gwasanaeth Llyfrgell, a'r angen i fod yn fwy rhagweithiol wrth ddarparu gweithgareddau i dednu cynulleidfaoedd.

Ar sail yr ymgysylltu isod gyda phartneriaid, rydym wedi gweld y canlyniadau isod:

Darparu gofod i gynnal cyrsiau dysgu Cymraeg yn y Llyfrgelloedd a fydd yn cael eu cefnogi gan glybiau darllen
Cynnal dau gasgliad penodol LDHD yn ein Llyfrgelloedd yn unol a dymuniadau aelodau grŵp LHDT+ GISDA
Darparu adnoddau llyfrau llafar ac e-lyfrau llafar ar y cyd gyda Chymdeithas y Deillion Gogledd Cymru
Datblygu hybiau VR mewn dwy Lyfrgell drwy drafodaeth gyda'r Gwasanaeth Ieuenctid

## 2.4 Ar sail pa dystiolaeth arall ydych chi'n gweithredu?

Rydym yn ystyried yr ymgynghoriadau a nodir uchod ac yn cymryd sylw o'r sylwadau sydd yn ein cyrraedd yn gyson trwy ein ymarferiadau arolygon bodlonrwydd gyda defnyddwyr llyfrgell a rhai nad ydynt yn dedfnyddwyr llyfrgell yn ogystal a'n cydweithio gyda phartneriaid a

| |
|---|
| rhanddeiliaid.  Gwybodaeth gan bartneriaid ynghylch meysydd  blaenoriaeth, sylwadau gan ddefnyddwyr a phatrymau defnydd yw sail ein Cynllun Llyfrgell. |

**2.5 Oes yna unrhyw fylchau yn y dystiolaeth sydd angen ei gasglu?**

| |
|---|
| Oes.  Rydym wedi adnabod bwlch yn ein dealltwriaeth a'n ymdriniaeth o hil ac ethnigrwydd yn ein casgliadau. Byddwn yn cyfranogi yn y cynllun Casgliadau Llyfrgell Gwrth-hiliol: cynllun hyfforddi i lyfrgelloedd cyhoeddus Cymru yn ystod 2023. |

## 3) Adnabod yr Effaith

**3.1 Mae'n rhaid i'r Cyngor roi sylw dyledus i'r effaith fydd unrhyw newidiadau'n ei gael ar bobl hefo nodweddion cydraddoldeb isod.  Beth yw'r effaith fydd y polisi/gwasanaeth newydd neu'r newidiadau arfaethedig yn ei gael ar bobl hefo'r nodweddion hyn?  Mae hefyd angen ystyried yr effaith ar anfantais economaidd-gymdeithasol ac ar y Gymraeg.**

| **Nodweddion** | **Sut fath o effaith? *** | **Ym mha ffordd?  Beth yw'r dystiolaeth?** |
|---|---|---|
| **Hil (gan gynnwys cenedligrwydd)** | Positif | Mae casgliad o lyfrau yn yr iaith Wcraineg ar gael yn ffisegol a digidol.<br><br>Gallwn wneud cais rhyng-fenthyca am lyfrau mewn ieithoedd gwahanol<br><br>Rydym wedi adnabod bwlch yn ein dealltwriaeth a'n ymdriniaeth o hil ac ethnigrwydd yn ein casgliadau. Byddwn yn cyfranogi yn y cynllun Casgliadau Llyfrgell Gwrth-hiliol: cynllun hyfforddi i lyfrgelloedd cyhoeddus Cymru yn ystod 2023. |
| **Anabledd** | Positif | Rydym yn ceisio sicrhau fod ein adeiladau yn hygyrch o ran drysau otomatig a lifft lle mae mwy nag un llawr/ grisiau.<br><br>Rydym yn cynnig benthyg adnoddau penodol aml-synhwyraidd ar gyfer plant ac oedolion gydag anabledd dysgu ac mae gennym adnoddau i bobl sy'n byw gyda dementia, a chasgliadau llyfrau i gefnogi gofalwyr.<br><br>Mae ein casgliadau Darllen yn Well yn cynnwys casgliadau Dementia, Iechyd Meddwl Oedolion, Iechyd Meddwl Pobl Ifanc a Iechyd Meddwl Plant. |

| | | |
|---|---|---|
| | | Mae gennym nifer fawr o lyfrau gellir eu hystyried yn llyfrau cyfeillgar i ddyslecsia, a byddai'n anodd iawn i bobl gael mynediad atynt oni bai eu bod ar gael yn y llyfrgell.<br><br>Trwy ein cynlluniau cydweithio gyda Chymdeithas y Deillion Gogledd Cymru a Y Lolfa, rydym yn gallu cynhyrchu adnoddau llyfrau llafar ac e-lyfrau llafar, a llyfrau print bras, trwy gyfrwng yr iaith Gymraeg.<br><br>Mae ein gwasanaeth Cludo yn gallu cyflenwi gwasanaeth llyfrau ar gais yn fisol neu ar alw i'r cartref. Bwriedir ymestyn y gwasanaeth Cludo i eitemau Petha (Cynllun Llyfrgell y Pethau) yn y dyfodol.<br><br>Rydym yn darparu mynediad at e-lyfrau ac e-lyfrau llafar lle mae technoleg gynorthwyol yn gallu gwella hygyrchedd.<br><br>Rydym hefyd yn gallu cynnig Cymorth Digidol 1:1 yn y cartref i rai sydd yn ei chael yn anodd ymweld a'u llyfrgell. |
| **Rhyw** | Positif | Mae toiledau cyhoeddus ym mhob llyfrgell yn cynnig nwyddau mislif am ddim<br>Rydym yn gwneud ceisiadau am grantiau cefnogi tlodi mislif ac yn cynnig nwyddau mislif y gellir eu hail-ddefnyddio trwy archebion yn achlysurol.<br><br>Mae ein gweithgareddau i blant a theuluoedd hefyd yn cael effaith positif ar ferched gan fod data'n dangos mae hwy sydd yn fwyaf tebygol i edrych ar ôl plant.<br>Mae hyn yn arbennig o wir yn achos rhieni sengl – ac mae data'n dangos mai merched yw oddeutu 90% o benteuluoedd teuluoedd un rhiant.<br><br>Mae Cynllun Petha sy'n benthyg teganau am ddim hefyd yn help i rieni. |
| **Oedran** | Positif | Mae ein gwasanaeth Cludo yn gallu cyflenwi gwasanaeth llyfrau ar gais yn fisol neu ar alw i'r cartref. Bwriedir ymestyn y gwasanaeth Cludo i eitemau Petha (Cynllun Llyfrgell y Pethau) yn y dyfodol.<br><br>Mae'r gwasanaeth Cludo yn golygu fod pobl sy'n gweithio yn ystod oriau agor y Llyfrgelloedd yn gallu manteisio ar y Gwasanaeth hefyd.<br><br>Rydym yn darparu mynediad at e-lyfrau ac e-lyfrau llafar lle mae technoleg gynorthwyol yn gallu gwella hygyrchedd. |

| | | |
|---|---|---|
| | | Mae ein casgliadau Darllen yn Well yn cynnwys casgliadau Dementia, Iechyd Meddwl Oedolion, Iechyd Meddwl Pobl Ifanc a Iechyd Meddwl Plant.<br><br>Rydym yn darparu llyfrau print bras yn Gymraeg ac yn Saesneg<br><br>Mae gennym wasanaeth cymorth digidol 1:1. Hefyd rydym yn cydweithio gyda gwasanaethau sy'n helpu pobl ifanc sy'n chwilio am swydd ac mae help gyda sgiliau digidol ac adnoddau yn gallu eu helpu hwy a myfyrwyr.<br><br>Rydym yn cynnig sesiynau wedi eu teilwra i blant o oedranau gwahanol a'u teuluoedd, e.e.<br>Sesiynau Ji Babi Bach i fabanod<br>Sesiynau Amser Stori<br>Gweithgareddau Gwyliau Haf |
| **Cyfeiriadedd rhywiol** | Positif | Rydym yn darparu casgliadau Darllen yn Well Iechyd Meddwl – Pobl Ifanc sy'n cynnwys llyfrau ar rywioldeb, rhywedd a iechyd meddwl.<br><br>Rydym yn cynnal casgliadau dynodedig LDHT yn y ddwy Lyfrgell fwyaf. |
| **Crefydd neu gred (neu ddiffyg cred)** | Dim | Nid ydym wedi adnabod unrhyw effaith |
| **Ailbennu rhywedd** | Positif | Rydym yn darparu casgliadau Darllen yn Well Iechyd Meddwl – Pobl Ifanc sy'n cynnwys llyfrau ar rywioldeb, rhywedd a iechyd meddwl.<br><br>Rydym yn cynnal casgliadau dynodedig LDHT yn y ddwy Lyfrgell fwyaf. |
| **Beichiogrwydd a mamolaeth** | Positif | Mae ein Llyfrgelloedd yn lleoliadau sy'n croesawu Bwydo o'r Fron<br><br>Mae ein Gwasanaeth Cludo 'n cynnig e-lyfrau yn helpu pobl i gael mynediad at lyfrau ac eitemau eraill (rhai arferol a rhai arbenigol am y cyfnod beichiogrwydd a mamolaeth ) os nad ydynt yn gallu dod i'r llyfrgell oherwydd eu beichiogrwydd neu pan mae ganddynt blant ifanc |
| **Priodas a phartneriaeth sifil** | Dim | Nid ydym wedi adnabod unrhyw effaith |
| **Yr iaith Gymraeg** | Positif | Drwy ddarparu mynediad at lyfrau ac adnoddau Cymraeg, yn ogystal a gweithgareddau yn Gymraeg, byddwn yn cyfrannu at uchelgais Llywodraeth Cymru i gynyddu'r nifer o bobl sy'n dysgu a siarad Cymraeg ac sy'n gweld budd |

| | | |
|---|---|---|
| | | mewn dysgu a siarad Cymraeg er mwyn gwella sgiliau a chyfleoedd gwaith, a chryfhau ymdeimlad o hunaniaeth cenedlaethol.<br><br>Trwy ein cynlluniau cydweithio gyda Chymdeithas y Deillion Gogledd Cymru a Y Lolfa, rydym yn gallu cynhyrchu adnoddau llyfrau llafar ac e-lyfrau llafar, a llyfrau print bras, trwy gyfrwng yr iaith Gymraeg.<br><br>Cynigir ein holl wasanaethau gan staff Llyfrgell trwy gyfrwng y Gymraeg , gan gynnwys sesiynau megis Cymorth Digidol.<br><br>Mae ein gweithgareddau i blant a theuluoedd yn uniaith Gymraeg neu'n bennaf Gymraeg/dwyieithog yn ddibynol ar yr ardal dan sylw.<br><br>Yr unig eithriadau i hynny yw nifer fach iawn o weithgareddau gan arweinwyr/darparwyr allanol lle nad oes modd cael siaradwyr Cymraeg rhugl, a chynigir y sesiynau yn ddwyieithog, neu lle bo'r sesiynau yn digwydd trwy'r iaith Saesneg e.e. grwp darllen lle darllenir llenyddiaeth Saesneg.<br><br>Rydym yn cydweithio gyda Cymraeg i Blant i gynnal sesiynau i blant a theuluoedd yn y Llyfrgelloedd.<br><br>Rydym yn cydweithio gyda'r Ganolfan Dysgu Cymraeg i gynnal sesiynau dysgu Cymraeg yn ein Llyfrgelloedd sy'n arwain i grwpiau darllen Dysgwyr.<br><br>Yr unig ychwanegiad faswn i'n awgrymu ydi bod posib cryfhau yr ymateb yn y tabl ar dudalen 6-7 yr asesiad drwy bwysleisio'r ffaith bod pob gwasanaeth yn cael ei gynnig yn y Gymraeg |
| **Anfantais Economaidd-Gymdeithasol** | Positif | Rydym wedi dileu dirwyon yn gyfangwbl ar lyfrau hwyr<br>Nid ydym yn codi am lyfrau a ddifrodir ar ddamwain gan fabanod a phlant ifanc<br>Bwriedir cychwyn cynllun benthyg Petha lle gellir benthyg eitemau yn hytrach na'u prynu<br>Darperir nwyddau mislif am ddim trwy'r Llyfrgelloedd<br>Nid ydym yn codi ar argraffu dogfennau yn gysylltiedig a budd-daliadau<br>Byddwn yn rhan o gynllun National DataBank y Good Things Foundation a gweithio gyda phartneriaid i gyfeirio pobl at gardiau SIM am ddim.<br>Mae mynediad at gyfrifiaduron cyhoeddus a chymorth digidol ar gael i bobl sydd heb fynediad ato ac yn help wrth chwilio am swydd, dilyn cwrs, neu gymdeithasu.Rydym hefyd yn gallu cynnig Cymorth Digidol 1:1 yn y cartref. |

| | | |
|---|---|---|
| | | Mae ein defnyddwyr wedi dweud bod y Gwasanaeth Llyfrgell yn cefnogi eu hiechyd meddwl a llesiant o o ran gallu cael cyfle a lle i gymdeithasu.<br><br>*"Not owning a computer the library is vital to me. I also read a great deal. Being able to use any library in Gwynedd is wonderful."*<br><br>*"I have used both libraries today in Pwllheli and Caernarfon. In Caernarfon for a computer course and books, Pwllheli to use the computer and more books. This service is vital for my wellbeing and life progress. Myself, like many would be very disadvantaged without this service and would lose a valuable asset of book reading should it be closed."*<br><br>*"Libraries – this is very important when housebound as it helps me through bad days and long nights."*<br><br>*"Thank you for always providing us such a fun sanctuary at the library. You've helped me more than you know on numerous occasions"*<br><br>Lle bo hynny'n bosib, rydym yn cyd-leoli a gwasanaethau eraill, fel fod llyfrgelloedd yn parhau yn eithaf agos at bobl, a gwasanaethau ar gael i ddod a phethau i'r cartref i bobl sy'n methu mynychu gan eu bod yn byw'n rhy bell / heb drafnidiaeth addas. |

* I'w ddileu yn ôl yr angen

**3.2 Mae'n ddyletswydd ar y Cyngor dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 i gyfrannu'n bositif i gymdeithas decach trwy hybu cydraddoldeb a pherthynas dda yn ei weithgareddau ym meysydd oedran, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd, hil, trawsrywedd, anabledd a beichiogrwydd a mamolaeth. Mae'n rhaid i'r Cyngor roi sylw dyledus i'r ffordd mae unrhyw newid yn effeithio'r dyletswyddau yma.**

| **Dyletswyddau Cyffredinol y Ddeddf Cydraddoldeb** | **A yw'n cael effaith?*** | **Ym mha ffordd? Beth yw'r dystiolaeth?** |
|---|---|---|

| | | |
|---|---|---|
| **Cael gwared â cham-wahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth** | Ydi | Rydym yn cael gwaraed ar gam-wahaniaethu trwy hwyluso mynediad at wasanaethau Llyfrgell trwy nifer o wahanol ffyrdd i bobl Gwynedd, rydym yn ceisio dileu unrhyw rwystrau posib i bobl ddefnyddio'r gwasanaeth.<br><br>Er enghraifft:<br>Rydym wedi dileu dirwyon yn gyfangwbl ar lyfrau hwyr<br>Nid ydym yn codi am lyfrau a ddifrodir ar ddamwain gan fabanod a phlant ifanc<br>Bwriedir cychwyn cynllun benthyg Petha lle gellir benthyg eitemau yn hytrach na'u prynu<br>Darperir nwyddau mislif am ddim trwy'r Llyfrgelloedd<br>Nid ydym yn codi ar argraffu dogfennau yn gysylltiedig a budd-daliadau<br>Byddwn yn rhan o gynllun National DataBank y Good Things Foundation a gweithio gyda phartneriaid i gyfeirio pobl at gardiau SIM am ddim.<br>Mae mynediad at gyfrifiaduron cyhoeddus a chymorth digidol ar gael i bobl sydd heb fynediad ato ac yn help wrth chwilio am swydd, dilyn cwrs, neu gymdeithasu.Rydym hefyd yn gallu cynnig Cymorth Digidol 1:1 yn y cartref.<br>Nid ydym yn mynnu cael prawf cyfeiriad gan bobl heb gyfeiriad sefydlog. |
| **Hyrwyddo cyfleoedd cyfartal** | Ydi | Mae modd i bob unigolyn yng Ngwynedd wneud cais i fod yn aelod Llyfrgell am ddim a chael eitemau wedi'u cludo i'w cartref, ac nid ydym yn gwahaniaethu yn erbyn pobl nad oes ganddynt gyfeiriad sefydlog.<br><br>Mae sawl ffordd i gysylltu a'r Gwasanaeth Llyfrgell, ar-lein, e-bost, ffonio neu wyneb yn wyneb.<br><br>Rydym yn cydnabod bod anghenion ac amgylchiadau pobl am amrywio, ac rydym yn ystyried sefyllfa economaidd-gymdeithasol trigolion Gwynedd wrth gynllunio ein gwasanaeth (gweler pwynt 3.5 isod).<br><br>Rydym yn darparu gwasanaeth trwy'r llyfgelloedd, yn ddigidol ac yn gallu cludo llyfrau ar gais i'r cartref heb unrhyw gyfyngiad. |

| | | |
|---|---|---|
| **Meithrin perthnasau da** | Ydi | Mae llyfrau a darllen yn gallu cyfrannu'n gadarnhaol tuag at lesiant a lles meddwl. Mae darllen hefyd yn gallu lliniaru teimladau o unigrwydd ac unigedd.<br><br>Mae Llyfrgelloedd Gwynedd yn ceisio estyn allan i bob unigolyn sy'n gweld eisiau llyfrau a darllen, er mwyn darparu ffordd hawdd, hwylus a dibryder o dderbyn gwasanaeth Llyfrgell.<br><br>Rydym yn cydweithio gydag ystod eang o bartneriaid a sefydliadau er mwyn gwella ein gwasanaeth i bobl Gwynedd ac i wneud y defnydd gorau a mwyaf effeithlon o adnoddau.<br><br>Rydym yn holi barn defnyddwyr yn rheolaidd ac yn cadw log ymatebion i gofnodi ac adolygu ymatebion. |

* I'w ddileu yn ôl yr angen

### 3.3 Sut mae eich cynnig yn sicrhau eich bod yn gweithio yn unol â gofynion Safonau'r Iaith Gymraeg (Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011), i sicrhau na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg, ac y manteisir ar bob cyfle i hyrwyddo'r Gymraeg (y tu hwnt i ddarparu gwasanaethau'n ddwyieithog) a chynyddu cyfleoedd i ddefnyddio a dysgu'r iaith yn y gymuned?

Bydd y Cynllun Llyfrgell yn rhoi'r iaith Gymraeg yn ganolog ym mhopeth a wnawn. Mae hyn yn golygu:

1. Sicrhau bod adnoddau ac adnoddau digidol ar gael yn ddigonol yn y Gymraeg i oedolion a phlant a bod gwariant teg yn cael ei neilltuo ar gyfer llyfrau Cymraeg
2. Sicrhau bod rhyngwynebau pob system ar gael yn Gymraeg
3. Sicrhau pob ein gweithgareddau i blant ac oedolion yn cael eu darparu trwy'r Gymraeg yn bennaf
4. Sicrhau bod pwyslais yn cael ei roi i weithgareddau i oedolion sy'n annog siarad Cymraeg
5. Sicrhau fod hyfforddiant i staff yn cael ei ddarparu trwy'r Gymraeg neu'n ddwyieithog lle bo hynny'n bosib.

Rydym fel gwasanaeth yn cyfrannu at sawl nod yn strategaeth iaith y Cyngor (Cynllun Hybu'r Gymraeg 2018-23) drwy gynnig cyfleoedd amrywiol i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac i ddysgu'r Gymraeg.

Rydym yn dilyn Polisi Iaith y Cyngor ac yn sicrhau bod pob aelod cynorthwyol parhaol o staff yn cyrraedd y dynodiad iaith addas ar gyfer y rôl, sef gallu darllen Cymraeg ar lefel Uwch a siarad ac ysgrifennu Cymraeg ar lefel Canolradd.

**3.4 Pa fesurau neu newidiadau eraill y gallech eu cynnwys i gryfhau neu newid y polisi / arfer er mwyn cael effaith gadarnhaol ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg, ac i leihau neu atal unrhyw effeithiau andwyol y gallai'r polisi/ymarfer ei gael ar yr iaith Gymraeg?**

| |
|---|
| Darparu mwy o adnoddau Cymraeg yn ddigidol, ond ar hyn o bryd nid ydynt ar gael yn fasnachol ac mae'n rhaid rhoi trefniadau arbennig mewn lle i'w cynhyrchu, neu sicrhau eu bod ar gael. |

**3.5 Sut mae'r cynnig yn dangos eich bod wedi rhoi sylw dyledus i'r angen i fynd i'r afael ag anghyfartaledd o achos anfantais economaidd-gymdeithasol? (Sylwch fod hyn yn ymwneud â chau bylchau anghydraddoldeb yn hytrach na gwella canlyniadau i bawb yn unig).**

Rydym wedi ceisio bod yn ymatebol i sefyllfa economaidd-gymdeithasol ein defnyddwyr mewn nifer o ffyrdd. Er bod defnydd a a mynediad i Lyfrgelloedd yn rhad ac am ddim, rydym wedi rhoi rhai mesurau ychwanegol mewn lle i sicrhau fod Llyfrgelloedd yn cynnig gwasanaeth a all gael ei ddefnyddio gan bobl waeth beth eu hamgylchiadau economaidd-gymdeithasol.

Rhai esiamplau yw:

1. Dileu dirwyon - sy'n golygu nad yw pobl sy'n methu fforddio talu'r ddiryw yn cael eu cau allan o'r Gwasanaeth
2. Cynnig nwyddau mislif am ddim a chynnig nwyddau mislif y gellir eu hail-ddefnyddio, fel bod pobl yn gallu arbrofi gyda nwyddau sy'n ddrud i'w prynu, i weld beth sydd yn fwyaf addas iddynt.
3. Cynnig gwasanaeth Cludo llyfrau am ddim – o gymorth mawr i rai sydd heb drafnidiaeth neu sy'n cael anhawster teithio am unrhyw reswm. Mae'n golygu fod pobl heb gludiant, pobl sy'n byw ymhellach o'r llyfrgell a phobl sy'n methu gadael eu cartref yn hawdd oherwydd anabledd yn gallu elwa o'r Gwasanaeth.
4. Peidio a chodi am argraffu dogfennau hawlio rhai budd-daliadau a defnyddio disgresiwn wrth godi ar bobl am argraffu dogfennau hawlio budd-daliadau yn gyffredinol
5. Hyrwyddo ein Llyfrgelloedd fel mannau Croeso Cynnes
6. Peidio a chodi am eitemau a ddifrodir ar ddamwain gan fabanod a phlant bach
7. Gweithredu cynllun benthyg Chromebooks i ddysgwyr wedi ei cofrestru ar gyrsiau Grŵp Llandrillo Menai ac Addysg Oedolion Cymru
8. Gweithredu cynllun cardiau data/SIM trwy'r National Databank
9. Cefnogi pobl sydd yn cael eu heithrio'n ddigidol drwy gynnig mynediad at gyfrifiaduron cyhoeddus, wi-fi am ddim, a chymorth digidol yn y llyfrgell neu gartref.

**3.6 Pa fesurau neu newidiadau eraill y gallech eu cynnwys i gryfhau neu newid y polisi / arfer i ddangos eich bod wedi rhoi sylw dyledus i'r angen i leihau canlyniadau anghyfartal o ganlyniad i anfantais economaidd-gymdeithasol, yn unol â'r Ddeddf Economaidd-Gymdeithasol?**

Mae cyfyngiadau cyllidebol yn golygu na allwn ehangu oriau agor gyda'r nosau a phenwythnosau, ond rydym yn cynnig gwasanaeth cludo llyfrau i'r cartref fel ffordd o liniaru'r effaith hwn.
Mae lefelau staffio isel yn golygu na allwn wneud cymaint o waith ymestyn allan ag y byddem yn ddymuno. Fodd bynnag, rydym yn cydweithio gyda nifer o asiantaethau a sefydliadau er mwyn gwneud y defnydd gorau o adnoddau.
Mae cyfyngiadau gofod yn golygu na allem ddarparu gofod preifat i bobl gysylltu arlein gyda sefydliadau e.e. cymorthfeydd. Fodd bynnag, rydym yn archwilio posibiliadau gyda Chanolfan Cyfraith.
Mae ein staff yn defnyddio gwefan CAB i gynorthwyo pobl a'u hymoliadau ac yn eu cyfeirio ymlaen am gyngor pellach.
Rydym yn archwilio i'r posibilrwydd o ymestyn yr hybiau Petha mewn cydweithrediad gyda'r Rhaglen Economi Adfywio/Economi Gylchol.

## 4) Dadansoddi'r canlyniadau

**4.1 Ydi'r polisi felly'n debygol o gael effaith sylweddol, bositif ar unrhyw un o'r uchod? Beth yw'r rheswm am hyn?**

Nod y Cynllun Llyfrgell 2023-28 yw bod yn ymatebol i anghenion gwahanol ac amrywiol ein defnyddwyr.

**4.2 Ydi'r polisi felly'n debygol o gael effaith sylweddol, negyddol ar unrhyw un o'r uchod? Beth yw'r rheswm am hyn?**

Nid ydym o'r farn fod y Cynllun Llyfrgell am gael effaith negyddol.

**4.3 Beth ddylid ei wneud?**

Dewiswch un o'r canlynol:

| | |
|---|---|
| Parhau gyda'r polisi / gwasanaeth gan ei fod yn gadarn | ✓ |
| Addasu'r polisi i ddileu unrhyw rwystrau | |
| Atal a dileu'r polisi gan fod yr effeithiau niweidiol yn rhy fawr | |
| Parhau a'r polisi oherwydd gellir cyfiawnhau unrhyw effaith niweidiol | |
| Dim camau pellach ar hyn o bryd, mae'n gynamserol i benderfynu, neu does dim digon o dystiolaeth | |

**4.4 Os yn parhau hefo'r cynllun, pa gamau fyddwch chi'n cymryd i leihau neu liniaru unrhyw effeithiau negyddol?**

Y risg mwayf amlwg a phosib i'r Cynllun Llyfrgell yw'r gofyn am arbedion a thoriadau yn y blynyddoedd a ddaw.

Rydym wedi adnabod meysydd arbedion/toriadau mewn trefn blaenoriaeth a fydd yn cael yr effaith leiaf posib ar bob Gwynedd.

Os bydd toriadau i'r gronfa lyfrau neu wasanaeth, yna yr effaith mwyaf tebygol yw y bydd mwy o oedi wrth i bobl dderbyn gwasanaeth penodol, e.e. cais am lyfr.
Bydd y defnydd o dechnoleg hunanwasanaeth yn caniatáu i staff roi mwy o sylw at agweddau gwasanaeth o werth, e.e. ateb ymholiadau a chymorth digidol.

Rydym o'r farn na ddylid gwarchod cynnal adeiladau o reidrwydd ar draul darparu gwasanaeth llyfrgell o safon, ac felly ein bwriad yw gwarchod llyfrgelloedd mwy o faint a'r gwasanaeth cludo, gan edrych ar bob cyfle i gyd-leoli, rhannu gofod a datblygu gwasanaethau newydd cynaliadwy.

**4.5 Os nad ydych yn gweithredu ymhellach i ddileu neu leihau effeithiau negyddol, esboniwch pam yma.**

Dim yn berthnasol.

## 5) Monitro

**5.1 Pa gamau fyddwch chi'n gymryd i fonitro effaith ac effeithiolrwydd y polisi neu wasanaeth (cynllun gweithredu)?**

Mae'r Gwasanaeth Llyfrgell yn adrodd yn rheolaidd i'r Cyngor trwy'r broses Herio Perfformiad ac yn defnyddio'r mesuryddion isod:

1. Canran bodlonrwydd
2. Defnydd – nifer benthyciadau ffisegol, nifer benthyciadau digidol, nifer ceisiadau

Ymhellach, cedwir log ymatebion ar gyfer adolygu parhaus.

Disgwylir i'r Cynllun fod yn ddogfen fyw a fydd yn cael ei hadolygu yn flynyddol er mwyn ymateb i flaenoriaethau newydd, rhwystrau neu fygythiadau. Byddwn yn ail-ymweld a'r asesiad effaith ar yr un pryd..

Rydym hefyd yn ceisio gwreiddio diwylliant Ffordd Gwynedd trwy ein gwasanaeth.

# CABINET CYNGOR GWYNEDD

## Adroddiad i gyfarfod y Cabinet Cyngor Gwynedd

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y cyfarfod:** | 7 Mawrth 2023 |
| **Aelod Cabinet:** | Y Cynghorydd Nia Jeffreys<br>Dirprwy Arweinydd. |
| **Swyddog cyswllt:** | Catrin Thomas<br>Pennaeth Cynorthwyol Cefnogi Teulu |
| **Manylion cyswllt:** | catrinthomas@gwynedd.llyw.cymru<br>01286 679913 |
| **Teitl yr Eitem:** | Rhaglen Cefnogi Llesiant Pobl |

### 1. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

1.1. Gorffen sefydlu Hybiau Cefnogi Pobl yn yr 13 ardal adfywio.

1.2. Comisiynu Gwasanaeth Cefnogi Llesiant Pobl i roi help llaw i drigolion gyda'u anghenion llesiant yn yr hwb a'r ardal.

### 2. Y RHESWM DROS YR ANGEN AM BENDERFYNIAD

2.1. Mae angen cymeradwyaeth y Cabinet i gamau nesaf y rhaglen ar gyfer 2023-24 ymlaen.

### 3. RHESYMEG A CHYFIAWNHAD DROS ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

3.1. Mae'r Rhaglen Cefnogi Llesiant Pobl yn un o brosiectau blaenoriaeth Cynllun y Cyngor.

3.2. Pwrpas y Rhaglen yw gweithio ar draws adrannau'r Cyngor, ar y cyd gyda'n partneriaid i helpu pobl Gwynedd gyda'r materion hynny sy'n cael effaith ar eu llesiant, megis yr argyfwng costau byw a chaledi ariannol; allgau cymdeithasol; heriau iechyd a gofal; materion lletya; heriau addysg, hyfforddiant a gwaith; a gallu pobl i gyfrannu a chymryd rhan yn eu cymunedau.

3.3. Rydym yn cyflawni'r pwrpas hwn drwy

- gefnogi Grwpiau Cymunedol i sefydlu Hybiau Cefnogi Pobl i sicrhau fod help ar gael i bobl yn lleol, yn anffurfiol, a pan fydd ei angen arnynt.

- gomisiynu gwasanaeth cefnogi llesiant pobl, fydd yn gafael yn llaw trigolion i'w helpu i gyflawni'r hyn sy'n bwysig iddynt o ran eu llesiant.

- cefnogi cymunedau i ddatblygu cynlluniau a datrysiadau eu hunain i heriau a chyfleon yn eu cymunedau, drwy'r Swyddogion Cefnogi Cymunedau.

(Gweler atodiad 1 yn darlunio'r gefnogaeth ar draws y sir).

### Hybiau Cefnogi Llesiant Pobl

3.4. Rydym yn defnyddio arian y Gronfa Intigreiddio Rhanbarthol ar gyfer cyfrannu tuag at sefydlu Rhwydwaith a Hybiau Cefnogi Llesiant Pobl ym mhob un o'r 13 ardal adfywio. Byddwn yn buddsoddi £900,000 yn y maes yma dros 3 blynedd nesaf (yn amodol ar werthuso parhaus).

3.5. Mae'r Hybiau Cefnogi Llesiant Pobl yn ymateb i un o flaenoriaethau yr ymgynghoriad "Ardal Ni" a gynhaliwyd ystod 2022. Nododd ein trigolion a budd-ddeiliaid eraill wrthym fod angen datblygu ymyraethau llesiant, iechyd a chyfranogiad pobl yn eu hardaloedd. Bellach mae'r Hybiau wedi eu cynnwys yn Nghynlluniau Gweithredu Lleol (DRAFFT) y Fframwaith Adfywio a gynhyrchwyd o'r ymgynghoriad.

3.6. Mae'r Swyddogion Cefnogi Cymunedau yn cynorthwyo y grwpiau cymunedol sy'n cynnal hybiau i ddatblygu a bod yn hyfyw a gwydn i'r dyfodol. Bydd y Swyddogion hefyd yn tynnu grwpiau a mentrau lleol ynghyd i ddatblygu hybiau yn yr ardaloedd hynny ble nad oes hwb ar hyn o bryd.

### Gwasanaeth Cefnogi Llesiant Pobl

3.7. Byddwn hefyd yn defnyddio arian y Gronfa Intigreiddio Rhanbarthol ar gyfer comisiynu partner i ddarparu Gwasanaeth Cefnogi Llesiant Pobl drwy'r sir. Byddwn yn buddsoddi £625,000 yn y gwasanaeth hwn dros 4 blynedd, (yn amodol ar werthuso parhaus).

3.8. Bydd y gwasanaeth hwnnw yn gafael llaw unigolion i'w helpu, ac yn gweithio gyda nhw ar yr hyn sy'n bwysig iddynt ar gyfer adeiladu eu hyder, sgiliau, rhwydweithiau a pherthnasau er eu llesiant.

3.9. Bydd y gwasanaeth cefnogi llesiant pobol yn gweithio yn agos iawn efo'r hybiau a rhwydweithiau lleol mewn cymunedau i wneud yn siŵr fod yna gyfleon a datrysiadau lleol i anghenion pobl.

### Cefnogi Cymunedau

3.10. Mae'r Swyddogion Cefnogi Cymunedau yn cynorthwyo grwpiau a mentrau o fewn yr ardaloedd adfywio i ddatblygu a gwireddu prosiectau cymunedol fel ein bod yn adeiladu ar y cyfoeth o asedau a sgiliau cymunedol sy'n helpu pobl gyda'u llesiant, a chreu cymunedau gwydn.

3.11. Mae'r prosiectau cymunedol hyn yn ymateb i gyfleon a heriau sydd wedi eu hadnabod drwy'r ymgynghoriad "Ardal Ni".

3.12. Bydd y Swyddogion Cefnogi Cymunedau yn cynorthwyo cymunedau i ymgeisio am grantiau amrywiol er mwyn datblygu a gwireddu prosiectau o fewn eu cymunedau.

## 4. CAMAU NESAF AC AMSERLEN

4.1. Sefydlu cytundebau a cynnig grant i'r Hybiau Cefnogi Llesiant Pobl ar gyfer 2023-24 ymlaen erbyn diwedd Mawrth.

4.2. Cwblhau'r broses comisiynu a chaffael ar gyfer y Gwasanaeth Cefnogi Llesiant Pobl erbyn diwedd Mehefin 2023.

## 5. UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN ARGYMELL Y PENDERFYNIAD


5.1. Sylwadau'r Swyddog Monitro:

*"Dim sylwadau i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb"*

5.2. Sylwadau'r Pennaeth Cyllid:

*"Gallaf gadarnhau fod cyllid ar gael i wireddu'r penderfyniad a geisir, fel a amlinellir yn yr adroddiad".*

*Atodiad 1*




Rhaglen Cefnogi Llesiant Pobl

Hwb Cefnogi Pobl ym mhob Dalgylch Adfywio

Gweithiwr Cefnogi Cymunedau yn cysgodi pob dalgylch

Gwasanaeth Cefnogi Pobl ar gael o bob hwb i helpu pobl ym mhob dalgylch.